# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 25 MEDI 2014 am 2.00 o'r gloch | THURSDAY, 25 SEPTEMBER, 2014 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a
Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

# R H A G L E N

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd fel a ganlyn :-

- Cofnodion y cyfarfod arbennig a gafwyd ar 11 Gorffennaf, 2014.
- Cofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 24 Gorffennaf, 2014.

3 **TAITH DRAWSNEWID BWRDD GWASANAETH LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN.** (Tudalennau 11 - 16)

Cyflwyno adroddiad gan yr Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn.

4 **CYMUNEDAU'N GYNTAF YNYS MÔN - ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 17 - 26)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

5 **STRATEGAETH DAI LEOL AR GYFER YNYS MÔN** (Tudalennau 27 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Tai).

6 **FFIOEDD CYCHOD SIARTER/PLESER 2014/15** (Tudalennau 61 - 72)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

7 **RHAGLEN WAITH BWRDD CYFLAWNI INTEGREDIG YNYS MÔN AR GYFER GWASANAETH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL** (Tudalennau 73 - 88)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

8 **AWDURDOD TAN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU - YMGYNGHORIAD AR Y CYNLLUN GWELLA 2015/16** (Tudalennau 89 - 100)

Cyflwyno adroddiad mewn perthynas â'r uchod.

9 **DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD**

10 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 101 - 106)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, Carwyn Jones, R Ll Jones a Dylan Rees. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy),<br>Pennaeth Gwasanaeth (Adfywio Economaidd a Chymunedol),<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd),<br>Prif Swyddog Datblygu (Strategaeth) (CB),<br>Arweinydd Dylunio PPA (RLJ),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr W.T. Hughes, H. E. Jones, Richard O. Jones, R. Meirion Jones a Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Aelodau Eraill o'r Cyngor Sir a wahoddwyd i'r cyfarfod – Y Cynghorwyr R.A. Dew, K.P. Hughes, T.Ll. Hughes, Vaughan Hughes, T. Victor Hughes, Aled M. Jones, G.O. Jones , Bob Parry OBE, Alwyn Rowlands. |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Roedd y Cynghorydd G.O. Jones yn dymuno iddo gael ei nodi ei fod ar hyn o bryd yn cael ei gyflogi yng Ngorsaf Ynni Wylfa.

**3 ADEILAD NIWCLEAR NEWYDD YN WYLFA – CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Swyddogion perthnasol i'r cyfarfod ynghyd â Mr. Alex Melling – Amgylchedd ac Isadeiledd AMEC i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Datblygu Cynaliadwy ac Uwch Swyddogion eraill mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - o ystyried maint, cymhlethdod ag amserlenni'r Adeilad Niwclear Newydd arfaethedig, roedd paratoi a mabwysiadu'r

CCA yn weithgaredd blaenoriaethol i'r Cyngor Sir. Byd y CCA yn cyfrannu tuag at sicrhau bod yr effeithiau tebygol sy'n wybyddus yng nghyswllt yr Adeilad Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi, eu hosgoi, eu lliniaru ac y ceir iawndal lle bo hynny'n bosibl; a bod y manteision cymdeithasol-economiadd sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu llawn sylweddoli.

Roedd y gwaith o baratoi'r CCA wedi ei gyd-lynu gan y Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol o dan gyfarwyddyd nifer o Uwch Swyddogion y Cyngor Sir. Bu AMEC Environment and Infastructure (y rhai sy'n darparu cefnogaeth ac arbenigedd amlddisgyblaethol i'r Cyngor Sir) yn gyfrifol am ddrafftio'r ddogfen. Roedd adnoddau i gyllido'r gwaith o baratoi'r CCA wedi eu sicrhau drwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio gyda Pŵer Niwclear Horizon.

Rhoddodd y Prif Swyddog Datblygu (Strategaeth) gyflwyniad sleidiau i'r Pwyllgor a nododd egwyddorion cyfarwyddo eang y prosiect CCA, sef:-

- Cefnogi'r Rhaglen Ynys Ynni a'r Parth Menter;
- Creu Swyddi Lleol a Sgiliau a Datblygu;
- Logisteg Cyflogaeth;
- Cadwyn Gyflenwi Leol;
- Cefnogi Twristiaeth;
- Cynnal a Gwella Cyfleusterau Cymunedol;
- Iechyd a Lles;
- Cydlyniant Cymunedol;
- Llety Gweithwyr;
- Cynnal a Chryfhau'r Iaith Gymraeg a'r Diwylliant;
- Cludiant a Chyfleustodau;
- Cadw a Gwella'r Amgylcheddau Naturiol a Hanesyddol;
- Ymrwymiadau Cynllunio a Manteision Cymunedol;
- Defnyddio Pwerau'r Cyngor;
- Gwastraff;
- Newid yn yr Hinsawdd.

Nododd bod 7 Parth wedi eu nodi sy'n ceisio cyfarwyddo datblygiadau cysylltiol yr Adeilad Niwclear Newydd i aneddiadau mwyaf Ynys Môn ac ar hyd coridorau cludiant allweddol (h.y. ardaloedd y mae'n fwriad gan y Cyngor eu ffafrio a'u cefnogi).

Cafwyd cyflwyniad byr gan Mr. Alex Melling o AMEC i'r Pwyllgor ar y CCA ddrafft.

Dechreuodd y gwaith ymgynghori ffurfiol ar y CCA yn Chwefror 2014 ac roedd 52 o ymatebion unigol wedi eu derbyn. Roedd natur y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys yr angen i:-

- Sicrhau swyddi i bobl leol, yn arbennig pobl ifanc;
- Gwneud y mwyaf o gyfleon contract a chadwyn gyflenwi i fusnesau lleol;
- Darparu hyfforddiant sgiliau priodol;
- Sicrhau bod y gweithwyr adeiladu'n cael eu lletya mewn lleoliadau addas;

- Lleihau unrhyw effeithiau negyddol i sector twristiaeth yr Ynys;
- Lleihau effeithiau gwelliannau ffyrdd ar hyd yr A5025;
- Lleihau effeithiau posibl ar gymunedau lleol a'r Iaith Gymraeg.

Materion a godwyd gan Aelodau:-

- Pryderon yn ymwneud â diffyg crybwyll yr A5025 o Amlwch i Porthaethwy yn y CCA. Dywedodd y Swyddogion y bydd y gweithwyr fydd yn teithio i'r safle yn cael eu cludo o leoliad canolog oherwydd materion diogelwch ac i esmwytho'r traffig ar rwydwaith cludiant yr Ynys;

- Materion a godwyd yng nghyswllt capasiti ac arbenigedd o fewn yr adran berthnasol o safbwynt maint yr adeilad niwclear newydd yn Wylfa. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) bod Tîm Caniatáu Mawr yn bodoli i ddelio â cheisiadau cynllunio mawr. Bydd ymgynghorwyr, o dan gytundeb fframwaith yn cael eu drafftio i mewn i gefnogi'r tîm hwnnw fel a phan fydd angen. Bydd y cyllid yn dod o'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio gan yr ymgeiswyr/datblygwr.

- Materion yn cael eu codi ynghylch effaith yr Adeilad Niwclear Newydd ar Wasanaethau i breswylwyr yr ynys h.y. iechyd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) y bydd Asesiad Effaith Iechyd yn monitro'r effaith ar wasanaethau lleol yn ystod y weithdrefn gynllunio. Bydd asesiad yn cael ei wneud ar yr anghenion gwirioneddol a sut y bydd y broses liniaru'n cael ei hasesu; bydd hyn wedi ei atodi i'r Cytundeb Cynllunio Adran 106;

- Holwyd cwestiynau ynglŷn â storio gwastraff niwclear yn Wylfa. Dywedodd y Swyddogion nad yw'r Awdurdod Lleol yn gefnogol i storio gwastraff niwclear ar yr Ynys.

- Lleisiwyd materion yn ymwneud â'r effaith ar Dwristiaeth ac Anghenion Tai ar yr Ynys yn ystod adeiladu'r Orsaf Bŵer Niwclear Newydd. Dywedodd y swyddogion fod y Cyngor Sir eisoes wedi gwneud llawer o waith yng nghyswllt y galw am lety gweithwyr adeiladu a'r effaith y gall ei gael ar dwristiaeth a llety preifat, y farchnad dai, llety rhent. Mae GP10 yn y CCA yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

- Lleisiwyd rhai materion yng nghyswllt yr effaith ar yr iaith Gymraeg ac ar dreftadaeth yr Ynys. Dywedodd y Swyddogion bod y Cyngor Sir (drwy'r Rhaglen Ynys Ynni) a Pŵer Niwclear Horizon wedi cytuno mewn egwyddor i gyd-ariannu person ar secondiad o Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru i ddatblygu proses integreiddio briodol a mesurau lliniaru yng nghyswllt yr iaith Gymraeg.

- Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith ar fusnesau bychan a lleol yr Ynys yn ystod y gwaith o adeiladu'r safle niwclear newydd. Nodwyd y gallai rhai cwmnïau brofi anawsterau yn recriwtio gweithwyr. Dywedodd y Swyddogion y bydd hyfforddi pobl leol yn y sgiliau angenrheidiol yn hanfodol gyda helpu cwmnïau lleol i allu cystadlu am waith yn ystod adeiladu safle Wylfa.

Dywedwyd bod Coleg Menai a Phrifysgol Bangor yn arwain ar y rhaglen datblygu sgiliau ar hyn o bryd. Nododd yr Aelodau ymhellach na ddylai'r staff presennol ar safle'r Wylfa gael eu hanghofio oherwydd bod ganddynt y sgiliau a'r profiad o fewn y sefydliad niwclear.

- Dywedodd yr Aelodau y dylai'r geiriau 'Land and Lakes' gael eu dileu o'r CCA oherwydd ei fod yn hyrwyddo cwmni preifat.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi pwrpas, sgôp ac egwyddorion y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Adeilad niwclear Newydd yn Wylfa;**

- **Cydnabod rôl y Cyngor Sir yn y broses ganiatáu statudol ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd arfaethedig;**

- **Bod y geiriau 'Land and Lakes' yn cael eu dileu o'r CCA gan roi yn eu lle ddisgrifiad byr o'r tir oedd wedi derbyn caniatâd cynllunio;**

- **Bod y Pwyllgor Sgriwtini hwn yn gefnogol i gyflwyno'r Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd, Wylfa i'w fabwysiadu gan y Cyngor llawn ar 29 Gorffennaf, 2014.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30 p.m.

**Y CYNGHORYDD D.R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

## PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, W T Hughes, R Ll Jones and Dylan Rees. |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) – Ar gyfer Eitem 7,<br>Pennaeth Gwasanaeth (Plant) – Ar gyfer Eitemau 5 & 6<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd),<br>Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol (DE) – Ar gyfer Eitem 7,<br>Rheolwr Sgriwtini (BS),<br>Swyddog Sgriwtini (GWR),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Carwyn Jones, Richard Owain Jones, Dafydd Rhys Thomas.<br>Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd K.P. Hughes (Aelod Portffolio – Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol)<br><br>Mr. J.R. Jones – Prif Swyddog (Medrwn Môn). |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mai, 2014.

**4 CANOLFAN GYSYLLTIADAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Uwch Arolygydd Alex Goss (Pennaeth yr FCC) a Mr Paul Shea (Rheolwr y Ganolfan Alw) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar Ganolfan Gysylltiadau Heddlu Gogledd Cymru.

Dywedodd yr Uwch Arolygydd Goss bod y cyflwyniad wedi ei roi i bob un o'r Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru er mwyn egluro'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Ganolfan Gysylltiadau Heddlu Gogledd Cymru. Caiff y ganolfan alw ei rhannu gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywedwyd bod y Ganolfan Alw yn ateb galwadau argyfwng a rhai nad ydynt yn alwadau argyfwng gan y cyhoedd, swyddogion ac asiantaethau eraill ai' fod hefyd yn cynnal ymchwiliadau neu ymchwiliadau gwybodaeth gyfrinachol cyn/yn ystod ymateb gan yr heddlu. Mae 55 aelod staff yn y cyfleuster ac mae'n darparu gwasanaeth dwyieithog. Yn 2013 fe dderbyniwyd dros 500,000 o alwadau yn y ganolfan.

Fel esiampl o ddefnydd amhriodol o'r cyfleusterau dywedwyd wrth y Pwyllgor bod dros 22,000 o'r galwadau yn rhai nad ydynt angen i'r Heddlu fod yn bresennol; mae galwadau o'r fath yn bennaf yn rhai sydd yn gofyn am rif digwyddiad ar gyfer hawliadau yswiriant neu ar gyfer anghydfodau sifil.

Rhai materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Mae angen gwneud mwy o waith cyhoeddusrwydd i leihau'r defnydd amhriodol a wneir o'r system alw argyfwng 999 yng nghyswllt materion nad ydynt yn rhai brys. Dywedodd y Swyddogion bod ymgyrch ar droed ar hyn o bryd yng nghyswllt y defnydd amhriodol a wneir o'r system alw mewn argyfwng.
- Gofynnwyd cwestiynau am gyllid posibl gan yr awdurdod heddlu tuag at gyfleuster Camerâu Diogelwch sydd wedi dod i ben yn ddiweddar ym Môn. Dywedodd y Swyddogion bod yr Awdurdod Heddlu hefyd yn dioddef toriadau ariannol ac nad oedd cyllid ar gyfer y cyfleuster Camerâu Diogelwch.
- Mynegwyd pryderon am yr amser sy'n pasio cyn y bydd aelodau o'r cyhoedd yn derbyn galwad gan yr Awdurdod Heddlu yn dilyn adrodd am ddigwyddiad. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn derbyn y feirniadaeth a bod yn rhaid gwella'r gwasanaeth.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Uwch Arolygydd Alex Goss a Mr Paul Shea (Rheolwr y Ganolfan Alw) am eu cyflwyniad.

**PENDERFYNWYD nodi'r cyflwyniad.**

**GWEITHREDU: Dim**

## 5 TREFNIADAU RHANBARTHOL A LLEOL I DDIOGELU PLANT AC OEDOLION

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Plant) mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Plant) mai amcan y Byrddau Diogelu Plant Lleol (BDPL) oedd cydlynu a sicrhau effeithlonrwydd gweithgareddau diogelu partneriaid. Mae ei swyddogaeth statudol wedi'i amlinellu yn y Ddeddf Plant 2004. Bu tri Bwrdd Diogelu Plant isranbarthol yn eu lle ers peth amser ar draws Gogledd Cymru. Yn dilyn cyhoeddiadau gan Lywodraeth Cymru yn Hydref 2011, mae'r tri BDPL isranbarthol wedi cymryd camau i hyrwyddo mwy o integreiddiad a chydweithrediad ac i symud tuag at y strwythur rhanbarthol ymlaen llaw i'r Ddeddf

Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles sydd ar ddod. Mae'r Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn bwriadu rhoi diogelu oedolion ar safle statudol tebyg i'r hyn sy'n bodoli ar gyfer plant, yn cynnwys yr angen i gael Byrddau Diogelu Oedolion.

Ers dechrau 2013 bu system dwy haen o Fyrddau Diogelu yn eu lle ar draws Gogledd Cymru. Bwriedir y bydd swyddogaethau statudol yn gorwedd gyda Bwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru (BDPGC) ac y bydd grwpiau isranbarthol yn sicrhau bod yr ymarfer lleol yn cyfarfod â'r angen lleol.

Mae'r strwythur newydd yn mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd ar y cychwyn:-

- Bod anghenion lleol, diwylliant a iaith yn cael eu cefnogi drwy'r grwpiau darparu diogelwch lleol;

- Gall Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i adrodd i Aelodau Etholedig mewn ardaloedd Awdurdod Lleol;

- Bydd strwythurau Lleol a Rhanbarthol yn cael eu cefnogi gan gynrychiolwyr ar wahanol lefelau, gyda hynny'n lleihau'r pwysau ar gynrychiolwyr uchel iawn;

- Bydd y Bwrdd Rhanbarthol yn gallu gwneud penderfyniadau a hyrwyddo cynnydd cyflymach.

Rhai materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Gofynnodd yr Aelodau am gael eglurhad ynglŷn â'r datganiad oedd yn yr adroddiad oedd yn dweud 'tra hefyd yn datrys y tensiynau rhwng y byrddau rhanbarthol a lleol'. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Plant) nad oedd y tensiynau yn ymwneud â chyfraniad unigol ond yn rhan o'r broses newid o sefydlu'r balans mwyaf priodol rhwng agweddau rhanbarthol a lleol. Mae'r Bwrdd yn erfyn ychwanegol i ddod â phob sefydliad i gyfrif ar y ffordd yr ydym yn cydweithredu o fewn diogelu plant ac nid yw'n tanseilio cyfrifoldeb statudol pob partner a chyfrifoldebau statudol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Swyddog y bydd hyn yn cael ei wneud yn glir yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi.

**PENDERFYNWYD cefnogi'r cynnig bod y strwythur ar gyfer y Byrddau Diogelu Plant Rhanbarthol yn cael ei adnabod fel Bwrdd Diogelu plant Gogledd Cymru fel oedd i'w weld yn yr adroddiad.**

**CAMAU GWEITHREDU: Bod sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a 8 Medi 2014.**

## 6 COMISIYNU GWASANAETH EIRIOLAETH PLANT A PHOBL IFANC YN RHANBARTHOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth (Plant) mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Plant) bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi comisiynu gwasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc, mewn cydweithrediad â'r Awdurdodau eraill yng Ngogledd Orllewin Cymru. Daw'r contract i ben ym Mawrth 2015. Mae'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru wedi cytuno i gomisiynu eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar sail ranbarthol.

Sefydlwyd prosiect rhanbarthol yn Mai 2013 gyda Grŵp Tasg o aelodau o'r chwe awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, o Iechyd a'r Sector Gwirfoddol. Prif nod y prosiect yw mynd i'r afael â'r bylchau a'r dyblygu yn y ddarpariaeth o eiriolaeth annibynnol i grwpiau bregus o blant a phob ifanc fel y cawsant eu rhestru yng nghyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Ers cwblhau'r adroddiad hwn roedd angen nodi rhai datblygiadau perthnasol:-

- Roedd Comisiynwr Plant Cymru yn ddiweddar wedi cyhoeddi adroddiad Lleisiau Coll, Yr Hawl i Wrandawiad. Mae'r Comisiynydd yn disgwyl i bob Awdurdod Lleol ymateb i'w argymhellion erbyn 4 Medi 2014.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried trefniadau comisiynu pob Awdurdod Lleol o safbwynt eiriolaeth broffesiynol a faint o arian a fuddsoddir. Maent hefyd wedi sefydlu Grŵp Gweinidogol Arbenigol ar Eiriolaeth (MEGA). Maent wedi rhoi nifer o argymhellion ymlaen a disgwylir i'r Awdurdod Lleol ymateb iddynt. Mae hyn yn cynnwys clustnodi arian i allu gwario ar eiriolaeth beth bynnag fo'r pwysau ariannol. Mae'r Awdurdod Lleol wedi derbyn llythyr gan Llywodraeth Cymru yn ein hannog ni i barhau gyda'r buddsoddiad cyfredol mewn eiriolaeth.

Bydd y gwaith yn cael ei wneud a'i gyflwyno i'r Panel Rhiant Corfforaethol yn y man.

Mae gwaith wedi ei wneud gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Gogledd Cymru i gytuno ar gyllidebau i ddatblygu disgrifiad a manyleb y gwasanaeth. Mae llawer o drafod wedi bod ynglŷn â dyraniadau cyllid yn seiliedig ar wahanol fformiwlâu. Mae Penaethiaid y Gwasanaethau Plant wedi cytuno ar gap cyllidebol o £100,000 i'r contract ac yn seilio eu cyfraniadau cyllideb ar ganran o'r grant RSG. Bydd yr ymrwymiad ariannol canlynol yn cael ei wneud gan bob awdurdod lleol:-

| | | |
|---|---|---|
| Ynys Môn | - | £10,450 |
| Gwynedd | - | £19,220 |
| Conwy | - | £16,110 |
| Sir Ddinbych | - | £15,770 |
| Sir y Fflint | - | £20,440 |
| Wrecsam | - | £18,020 |

Nododd y Swyddog y gall y bydd yr Awdurdod Lleol yn gweld hyn fel cyfle i arbed, ond ei barn broffesiynol hi oedd bod angen i'r gwasanaeth fuddsoddi yn ei drefniadau cyfranogi ac y bydd y trefniant hwn yn rhyddhau rhai adnoddau i alluogi'r Gwasanaeth i gryfhau'r trefniadau lleol ar gyfer eiriolaeth a chyfranogiad. Mae'n fwriad sefydlu swydd Eiriolwr/Cyfranogiad Person Ifanc rhan amser ym Môn

a bydd adroddiad gwerthuso opsiwn pellach yn cael ei gyflwyno ar hyn i'r Pwyllgor perthnasol yn y man.

**PENDERFYNWYD cefnogi, mewn egwyddor, y trefniadau comisiynu ar gyfer y gwasanaethau eiriolaeth a'r broses o dendro am wasanaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol rhanbarthol i blant a phobl ifanc.**

**CAMAU GWEITHREDU: I nodi y bydd y mater yn cael ei ystyried yn fanwl yn y cyfarfod nesaf o'r Panel Rhiant Corfforaethol.**

## 7 BWRDD RHAGLEN TRAWSNEWID CORFFORAETHOL – ADRODDIAD YN DIWEDDARU

Cyflwynwyd – adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd a'r Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) bod y Cynllun trawsnewid yn nodi tri Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol i fod a throsolwg ac i yrru rhaglenni newid a phrosiectau yn y Cyngor a gyda byrddau rhaglen partneriaid cydweithredu allanol. Y 3 Bwrdd yw:-

- Bwrdd Rhaglen Ynys Fenter
- Bwrdd Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth
- Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes

Mae'r Byrddau yn darparu trosolwg a chyfeiriad ac yn gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Gwaith ar brosiectau a rhaglenni newid cyllid. Ceir cynrychiolaeth o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini ar y Byrddau Rhaglen. Dros y flwyddyn ddiwethaf bu'r Awdurdod yn mynd drwy gyfnod o ddysgu ond drwy gydol y cyfnod hwn mae llawer o bethau wedi eu gwneud ar draws rhaglen uchelgeisiol o drawsnewid gyda'r Byrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yn cadw trosolwg ac yn gyrru'r rhaglenni.

Mae'r Awdurdod wedi penderfynu ar PRINCE 2 fel yr amgylchedd ar gyfer darparu prosiectau.

Rhai materion a godwyd gan yr Aelodau:-

- Roedd rhai Aelodau o'r farn nad oedd yr adborth o'r Byrddau Rhaglen yn ddigonol i Aelodau Etholedig eraill. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r gost, gwerth am arian sydd wedi deillio o'r Byrddau Rhaglen hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) mai cyfrifoldeb y cynrychiolwr Sgriwtini ar y Byrddau yw rhoi adborth i'w Bwyllgorau perthnasol. Roedd yn credu bod gan y Pwyllgorau Sgriwtini rôl o fewn y Byrddau Rhaglen. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen Gorfforaethol bod cofnodion yr holl Fyrddau Rhaglen ar wefan y Cyngor.

- Holodd Prif Swyddog Medrwn Môn a oedd yna rôl i sefydliadau/partneriaethau allanol oherwydd bod ganddynt brofiad helaeth o fewn y maes. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Datblygu Cynaliadwy) bod yna fanteision mawr o weithio gyda'r trydydd sector mewn prosiectau o'r fath.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**CAMAU GWEITHREDU: Bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yn derbyn adroddiadau diweddaru ar y tri Bwrdd Prosiect.**

## 8 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD/IS-GADEIRYDD

Nid oedd unrhyw ddiweddariad i’w adrodd gan y Cadeirydd na’r Is-Gadeirydd.

## 9 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd a nodwyd – y Rhaglen Waith ddrafft.

Nodwyd y bydd y Strategaeth dai yn cael ei gynnwys ymysg yr eitemau i'w trafod gan y cyfarfod ar 25 Medi, 2014.

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini ei fod wedi derbyn e-bost gan y Cynghorydd Carwyn Jones yn gofyn am i eitem gael ei rhoi ar raglen y Pwyllgor Sgriwtini yng nghyswllt gwahodd cwmnïau ynni i annerch y cyfarfod h.y. Celtic Array / y Grid Cenedlaethol. Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn y dylai’r mater gael ei gyfeirio i’r Ymddiriedolaeth i’w ystyried a hynny oherwydd bod gan y cwmnïau hyn ddiddordeb mewn tir sydd ym mherchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Elusennol.

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini ymhellach bod gwahoddiad wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd i'r Pwyllgor hwn fynychu eu Pwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau hwy ar 2 Hydref 2014. Bydd y Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd yn mynychu i roi cyflwyniad i'r cyfarfod. Nodwyd y dylai unrhyw gwestiynau gael eu hanfon cyn y cyfarfod a’u cyflwyno i’r Swyddog Sgriwtini erbyn 8 Medi 2014.

Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini bod y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried ymestyn gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor i gynnwys Pwyllgorau Sgriwtini. Roedd yr Aelodau’n yn ystyried y dylai'r cyfarfodydd a enwyd ar gyfer eu gwe-ddarlledu gael eu treialu am 12 mis cyn ystyried gwe-ddarlledu’r Pwyllgorau Sgriwtini.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn yr adroddiad;**

- **Y dylai’r e-bost a dderbyniwyd gan y Cynghorydd Carwyn Jones fel a nodwyd uchod gael ei gyfeirio at Ysgrifennydd Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn;**

- **I dderbyn y gwahoddiad gan Gyngor Gwynedd i fynychu eu Pwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau yn Hydref 2014;**

Daeth y cyfarfod i am 4.20 p.m.

**Y CYNGHORYDD D.R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETHAU AC ADFYWIO** |
| **DYDDIAD:** | **25 Medi, 2014** |
| **PWNC :** | **Taith Drawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn** |
| **PWRPAS:** | **1. Diweddaru'r Pwyllgor Sgriwtini ar gamau cychwynnol yn nhaith drawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol;**<br>**2. Craffu'r camau nesaf a fwriedir i ddatblygu ymhellach cyd drefniadau sgriwtini aelodau etholedig yng ngwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Cynghorydd Ieuan Williams, Arweinydd y Cyngor** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD** | **Anwen Davies, Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn** |

**1. CEFNDIR/CYD-DESTUN**

1.1 Daeth cyrff sector cyhoeddus ynghyd i ffurfio Byrddau Gwasanaethau Lleol (BGLl) ar draws Cymru mewn ymgais i gydlynu a darparu canlyniadau gwell ar y cyd. Bydd Aelodau'n ymwybodol y penderfynwyd sefydlu un Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn a ddaeth i fodolaeth yn Ebrill, 2013;

1.2 Bwrdd strategol lefel uchel yw'r BGLl sydd wedi'i adlewyrchu yn ei aelodaeth o Brif Weithredwyr ac Arweinyddion y prif asiantaethau cyhoeddus. Mae'n gyfrifol am:

- Gytuno ar ganlyniadau i bobl leol a blaenoriaethau strategol lleol ar gyfer gwaith aml-asiantaethol i gefnogi'r agenda ehangach a noder yn y Rhaglen Lywodraethu Genedlaethol ac ymateb i anghenion lleol a adnabuwyd trwy asesiad anghenion lleol, fel y sail i gynllun integredig;
- Sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli perfformiad priodol ar waith i sicrhau gwelliannau a bod rheolwyr a staff rheng flaen mewn asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol a bod blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau corfforaethol sefydliadau unigol;
- Sicrhau bod strwythurau partneriaethol a strwythurau darparu gwasanaethau'n addas at y diben ac yn atebol;
- Herio lle y ceir tanberfformiad neu laesu dwylo a rhoi newidiadau ar waith sy'n adlewyrchu arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella canlyniadau i'r boblogaeth leol;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed a chyflwyno adroddiadau blynyddol arno i'r cyhoedd, Llywodraeth Cymru, aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd a sefydliadau sy'n aelodau o'r BGLl.

Y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yw'r bartneriaeth statudol ar gyfer yr holl feysydd o fewn ei faes llafur. Mae yna un eithriad sef Diogelwch Cymunedol

sy'n parhau gyda Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn.

1.3 Er i BGLl fod mewn bodolaeth ers sawl blwyddyn, mae yna farn genedlaethol fod gwaith partneriaethol yn aml wedi'i dan-ddatblygu yn y sector cyhoeddus. Yn aml, gweler partneriaid yn cyfarfod a'i gilydd yn rheolaidd i rannu gwybodaeth ond ychydig iawn o bartneriaethau sydd â ffocws clir ar gyd-ddarparu gwell ganlyniadau. Bu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau[1] ym 2012 a oedd yn dyfynnu:
*"…. to make a difference partnership must mean working together not just talking together. Its focus must be on a shared agenda of better outcomes, placing the emphasis on priorities, pace and performance…."*

'Roedd y Canllawiau hefyd yn adnabod awdurdodau lleol gyda rôl arweiniol clir wrth gefnogi BGLl.

1.4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol[2] wedi cychwyn rhaglen o Asesiadau Corfforaethol sy'n cynnwys thema'n archwilio effeithiolrwydd partneriaethau a chydweithio. Rhaglenwyd y gwaith maes ar gyfer Asesiad Corfforaethol Ynys Môn yn Chwefror, 2015. Nid oes eto amserlen wedi'i chyhoeddi ar gyfer Asesiad Corfforaethol Gwynedd;

1.5 Gwelwyd Swyddfa Archwilio Cymru'n cyhoeddi'n ddiweddar iawn ei bwriad i gwblhau awdit o BGLl/partneriaethau strategol Gwynedd ac Ynys Môn. Nid oes amserlen wedi'i chadarnhau eto ar gyfer y gwaith maes.

## 2. TAITH DRAWSNEWID BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

2.1 Fel y nodwyd uchod, sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn yn Ebrill, 2013 trwy uno ynghyd y ddau BGLl ardal unigol. Gwelwyd yr uno yma hefyd yn cynnwys rhesymoli'r trefniadau ar gyfer partneriaethau strategol ar draws 2 ardal awdurdod lleol i greu un Uned Bartneriaethau integredig wedi'i harwain a lletya gan Gyngor Gwynedd fel gwasanaeth wedi'i rannu ar ran Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn. Daeth yr Uned integredig i fodolaeth yn Rhagfyr, 2012;

2.2 Bu i'r BGLl ar y cyd ganolbwyntio ei ymdrechion ar y meysydd canlynol yn ystod y flwyddyn gyntaf mewn bodolaeth (2013/14):

- Arwain y rhesymoli partneriaethau ar draws ardaloedd y ddau awdurdod lleol er mwyn creu un tîm integredig;
- Dechrau adnabod ei weledigaeth a chyfeiriad fel un grŵp;
- Paratoi Cynllun Integredig Sengl drafft;

2.3 **Ffocws cyfredol sy'n esblygu** – mae yna gyfnod o "oedi ac adolygu" ar hyn o bryd o amgylch cyfeiriad y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'r dyfodol ynghyd â'r Uned Bartneriaethau strategol sy'n gysylltiedig â'r Bwrdd. Yr elfennau canlynol sy'n cyfrannu at ein gwerthusiad/hadolygiad:

2.3.1 Gwnaed nifer o benderfyniadau arwyddocaol gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn (yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12/03/14)

---

[1] Shared Purpose, Shared Delivery: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau – Llywodraeth Cymru (Mehefin, 2012)

[2] Archwilydd Cyffredinol – Sefydlwyd Swyddfa Archwilydd Cymru ym 2005 fel yr archwiliwr statudol allanol ar gyfer y rhan helaethaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rôl yn cynnwys archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli a gwario arian cyhoeddus gan gynnwys sut y maent yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd yn flynyddol ar ba mor dda y gwelwyd awdurdodau lleol unigol yn cynllunio ar gyfer gwella.

ynglŷn â'i weledigaeth a chyfeiriad strategol i'r dyfodol. Manylir ar y penderfyniadau yma yn **Atodiad 1** i'r adroddiad hwn;

2.3.2 Cwblhawyd darn o waith i gymryd stoc o drefniadau partneriaethol Awdurdod Lleol cyfredol (gan ffocysu ar yr uned bartneriaethau strategol gan fwyaf) sydd wedi llywio siwrnai wella i redeg ochr yn ochr â thaith drawsnewid y BGLl. Mae'r prif yrrwr yn ymwneud â sicrhau strwythur a blaenoriaethau cadarn ar gyfer yr uned strategol wrth gefnogi rôl arwain newid y BGLl;

2.3.3 Mae arfarniad nawr yn cymryd lle er mwyn:

- Gwerthuso ein trefniadau partneriaethol strategol cyfredol ynghyd â'r trefniadau llywodraethu a strwythurau oddi tanynt;
- Adnabod nodweddion partneriaethu llwyddiannus cyfredol.

2.3.4 Bydd yr adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar o bartneriaethau ar draws Gogledd Cymru a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd a Phrif Weithredwyr hefyd yn llywio ac yn dylanwadu ymhellach ar ein uchelgais a gweledigaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru;

2.3.5 Gweler oblygiadau sylweddol i Fyrddau Gwasanaethau Lleol, partneriaethau a chydweithio gan y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus (2014) a Mesur Cenedlaethau'r Dyfodol. O ganlyniad, bydd rhain yn dylanwadu ar ac yn llywio ein siwrnai drawsnewid a blaenoriaethau dros y cyfnod nesaf.

## 3. TAITH DRAWSNEWID 3 CHAM GYCHWYNNOL

Gwelwyd y BGLl yn mabwysiadu ymagwedd 3 cham gychwynnol i'w daith drawsnewid:

**3.1 CAM 1 [Mehefin, 2014] –** Sesiwn wedi'i hwyluso'n allanol ar gyfer aelodau'r BGLl ac uwch arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i:

- Ganfod uchelgais a chyfeiriad strategol y BGLl i'r dyfodol;
- Gytuno ar ei brif feysydd blaenoriaeth dros y flwyddyn neu ddwy nesaf;
- Eglurhau rolau a chyfrifoldebau unigol aelodau'r BGLl.

**3.2 CAM 2 [Yr Hydref, 2014] –** sesiynau thematig wedi'u hwyluso'n allanol i fynegi'r prif flaenoriaethau/risgiau o dan ymbarel y Bwrdd ar gyfer y 1/2 flynedd nesaf:

- Plant a Phobl Ifanc;
- Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles – pobl hŷn;
- Tlodi/amddifadedd/cymunedau bregus.

**3.3 CAM 3 [Medi, 2014] –** Cyfarfod llawn o'r BGLl i:

- Gymeradwyo uchelgais, gweledigaeth a chyfeiriad strategol newydd;
- Gadarnhau'r meysydd blaenoriaeth allweddol;
- Gytuno ar strwythurau a threfniadau llywodraethu diwygiedig.

'Rydym ar hyn o bryd yn cynllunio ar gyfer Cam 2 – sesiynau thematig i fynegi'r prif flaenoriaethau ac yn cwblhau'r trefniadau ar gyfer cyfarfod o'r BGLl ar 26 Medi, 2014.

## 4. TUAG AT DREFNIADAU CRAFFU CADARN AC EFFEITHIOL

4.1 Un o'n meysyd gwaith i'w flaenoriaethu dros y cyfnod nesaf fydd datblygu ymhellach ein trefniadau craffu gan aelodau etholedig o waith Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'n amserol, yn nhermau taith drawsnewid y BGLl, i ni nawr roi ystyriaeth i sut y gallem ddatblygu ymhellach drefniadau craffu cadarn, yn cynnig lefel briodol o her i'r Bwrdd – a

hynny ar y cyd ar draws y ddwy Sir i adlewyrchu mandad y BGLl. Mae Rhan 2 o Fesur Llywodraeth Leol 2009 yn gosod allan y disgwyliad sydd arnom: *"…local authorities should have in place effective scrutiny processes to ensure local democratic accountability for partnership actions…"*

4.2 Cyflwynwyd y materion hyn er ystyriaeth gerbron cyfarfod o Bwyllgor Craffu Corfforaethol Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2014. Cafodd y cynigion dderbyniad positif gydag Aelodau craffu Cyngor Gwynedd yn cadarnhau'r angen i symud ymlaen i ddatblygu trefniadau sgriwtini ar y cyd o waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol/gwaith partneriaethol;

4.3 Y cam nesaf fydd cynnal trafodaethau cynhwysfawr gyda chydweithwyr yng Ngwynedd gyda golwg ar:

- Atgyfnerthu cytundeb gan y ddau Awdurdod Lleol i drefniadau sgriwtini Aelodau Etholedig ar y cyd o waith y BGLl;
- Negydu rhaglen o themau ar waith y BGLl/Cynllun Integredig Sengl/Partneriaethau Strategol i'w craffu trwy drefniadau/broses ar y cyd a ddatblygir dros yr wythnosau/misoedd nesaf.

Cyflwynir y cynigion ar y cyd er ystyriaeth gan bwyllgorau sgriwtini aelodau etholedig y ddau Awdurdod Lleol yn yr Hydref/Gaeaf, 2014.

5. **ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio:

**A1** Nodi cynnwys yr adroddiad – yn enwedig gwaith trawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y cyd i Wynedd ac Ynys Môn;

**A2** Ffurfio barn ynglŷn â'r camau gweithredu nesaf a fwriedir er mwyn datblygu ymhellach ein cyd drefniadau sgriwtini aelodau etholedig o waith y BGLl.

**ATODIAD 1**

**PENDERFYNIADAU BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN [12/03/14]**

1. Datblygu uchelgais newydd dros y misoedd nesaf sy'n rhoi goel uwch na'r gorffennol ar lenwi'r bwlch cyllido gwasanaethau cyhoeddus – trwy sicrhau mwy o gydlynu a ffocws o amgylch rheoli galw (gwella systemau gwasanaethau cyhoeddus i leihau galw sy'n methu) a chyflwyno rhaglen o ymyrraethau sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad sy'n gyrru galw (cyd-ddylunio a chynhyrchu);
2. Cyfeiriad strategol sy'n ceisio cydbwysedd priodol rhwng:
    - Rheoli galw/gwariant yn effeithiol yn y tymor byr;
    - Ymyrraethau aml-asiantaethol effeithiol gydag effaith tymor canol/hir ar alwadau/wariant/penderfynyddion gwasanaeth;
    - Datblygiadau wedi'u gyrru gan arian grant penodol, cenedlaethol (diogelwch cymunedol/plant a phobl ifanc yn benodol); AC
    - Ymateb priodol a chymesur yng Ngwynedd ac Ynys Môn i ddisgwyliadau canllawiau Llywodraeth Cymru ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau[3] (*Shared Purpose, Shared Delivery).*
3. Blaenoriaethu nifer bychain o ffrydiau gwaith allweddol dros y flwyddyn neu ddwy nesaf a fydd yn galluogi'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni cynnydd wedi'i dystioli yn erbyn ei uchelgais esblygol;
4. Cynnal sesiwn wedi'i hwyluso'n allanol i fynegi ac eglurhau uchelgais, gweledigaeth a chyfeiriad y Bwrdd ynghŷd â blaenoriaethu ei brif feysydd datblygu

[3] Shared Purpose, Shared Delivery: Canllawiau ar Integreiddio Partneriaethau a Chynlluniau – Llywodraeth Cymru (Mehefin, 2012)

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **DYDDIAD:** | 25 Medi 2014 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Adroddiad Cynnydd Cymunedau'n Gyntaf Môn |
| **AWDUR:** | Jenny Whiston, Rheolwr Grantiau |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai |
| **AELOD PORTFFOLIO:** | Y Cynghorydd Kenneth P Hughes |
| **CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL:** | Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Cymuned |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd a wnaed gyda gweithredu'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ym Môn. |

**Cefndir**

Cyflwynwyd Cymunedau'n Gyntaf (CG) yng Nghymru yn 2001 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) fel rhaglen flaengar i wella'r amodau byw a'r rhagolygon i drigolion y cymunedau mwyaf difreintriedig ar draws Cymru. Y mae bellach yn un o brif Raglenni Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â Thlodi.

Yr Awdurdod yw'r Corff Cyflawni Arweiniol ar gyfer £1.658m o gyllid am y cyfnod 1.2.2013 i 31.3.2015 a Chymunedau'n Gyntaf Môn Cyf., sef cwmni a gyfyngir â gwarant ac elusen gofrestredig yw'r Sefydliad Cyflawni. Fel y Corff Cyflawni Arweiniol (CCA), yr Awdurdod sy'n gyfrifol am 'sicrhau llywodraethu ac atebolrwydd da yng ngweithgareddau'r clwstwr'. Mae Cytundeb Cyfreithiol yn ei le rhwng yr Awdurdod a Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf i ddarparu'r Rhaglen. Gellir gweld dadansoddiad o'r gwariant am 13/14 a 14/15 yn Atodiad 1.

Dechreuodd y Rhaglen ar 1 Chwefror 2013 a bydd yn rhedeg hyd 31 Mawrth 2015 o dan y cyllid presennol. Mae estyniad i'r cyllid i fynd â'r rhaglen hyd 31 Mawrth 2016 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda golwg ar ei gyflwyno erbyn 19 Medi. Mae i Cymunedau'n Gyntaf ffocws daearyddol, gan ganolbwyntio ar y 10% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig ar yr Ynys. Mae'r ardal dan sylw yn cynnwys 7 o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is [LSOA], sef Morawelon, Porthyfelin 1, Tref Caergybi, Maeshyfryd, Ffordd Llundain a Kingsland yng Nghaergybi yn ogystal â Ward Tudur yn Llangefni. Mae pedwar o'r rhain ymysg y 10% o'r wardiau mwyaf difreintiedig yn ôl un neu ragor o fynegeion amddifadedd lluosog Cymru ac mae pob un ohonynt ymysg y 20% o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn gyffredinol.

Mae'r Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf ym Môn yn canolbwyntio ar 3 maes canlyniad. Y rhain yw:

- Cymunedau ffyniannus
- Cymunedau dysgu
- Cymunedau iachach

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu Fframwaith Canlyniadau i fonitro'r cynnydd a wneir o ran cyflawni'r Rhaglen newydd, gan ddefnyddio methodoleg atebolrwydd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau ac y mae ar hyn o bryd yn ceisio alinio'r Fframwaith Canlyniadau gyda rhai Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, sef dwy o raglenni eraill Llywodraeth Cymru sy'n taclo tlodi. Mae yna hefyd Gynllun Cynnwys y Gymuned er mwyn sicrhau cyfranogiad y gymuned.

**Cynnydd Cymunedau'n Gyntaf**

Mae Cymunedau'n Gyntaf wedi datblygu'n gyflym iawn dros yr 18 mis diwethaf a chafwyd cynnydd yn nifer y staff y mae'r sefydliad yn ei gyflogi ar hyn o bryd a swm y cyllid sydd wedi ei sicrhau. Ar 1 Chwefror, trosglwyddwyd 25 o staff o'r hen Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf i Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf., dan y Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth). Cafwyd ailstrwythuro yn dilyn cyfnod o ymgynghori. Cynigiwyd diswyddiad gwirfoddol i staff a manteisiodd nifer ohonynt ar y cyfle hwnnw, gan olygu na fu'n rhaid diswyddo neb yn orfodol, ac roedd 17 aelod staff ar ôl. Ar hyn o bryd, mae 30 aelod staff yn cael eu cyflogi ac roedd trosiant y cwmni yn 13/14 ychydig dros £1m (gweler Atodiad 2).

Rheolir Cymunedau'n Gyntaf Môn Cyf. gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr gwirfoddol sydd hefyd yn cynnwys yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddogion fel sylwedyddion.

Fel cwmni sydd wedi ei gyfyngu â gwarant ac elusen, mae'r sefydliad yn medru sicrhau cyllid allanol ychwanegol i gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau Cymunedau'n Gyntaf yn yr ardal. Mae hwn yn gyllid na fyddai'r Awdurdod fel corff cyhoeddus wedi bod yn gymwys i wneud cais amdano o bosib. Maent wedi bod yn hynod lwyddiannus yn sicrhau £467K ychwannegol o nifer o ffynonellau i gefnogi darpariaeth Cymunedau'n Gyntaf yn ystod 2013/14 (gweler Atodiad 3).

Dewiswyd Cymunedau'n Gyntaf Môn fel yr unig Glwstwr yng Ngogledd Cymru i redeg cynllun peilot ar gyfer Aelwydydd heb Waith, a elwir bellach yn LIFT. Bydd y cynllun yn darparu £228K o gyllid tan Fawrth 2015 i dargedu a gweithio gydag

aelwydydd lle mae oedolion wedi bod allan o waith am 6 mis neu fwy gyda golwg ar eu cael yn ôl i waith, profiad gwaith neu hyfforddiant. Hyd yn hyn mae LIFT wedi symud 32 o bobl o ddiweithdra tymor hir i waith a hwn yw'r clwstwr arweiniol yng Nghymru.

Mae'r Academi Alwedigaethol Gymunedol wedi mynd o nerth i nerth ac y mae yn awr yn gallu darparu hyfforddiant achrededig i bobl 14-64 oed gan dargedu'r rhai sy'n lleiaf tebygol o fynychu darpariaeth coleg prif-lif. Mae'n rhoi'r cyfle i gael hyfforddiant ymarferol yn y sectorau amgylcheddol, adeiladu, adwerthu, gweinyddu, gofal plant a lletygarwch o fewn amgylchedd gwaith disgybledig gan ddarparu mentora un i un er mwyn adeiladu hyder a sgiliau.

Mae Cymunedau'n Gyntaf Môn yn gweithio'n agos iawn gyda chyflogwyr i sicrhau bod y swyddi gwag sydd ganddynt yn gallu cael eu cyfatebu i'r cyfranogwyr yn yr Academi. Caiff yr hyfforddiant ei ddarparu i sicrhau bod y cyfranogwyr yn barod am swyddi ac y gallant symud oddi yno yn syth i waith. Mae cefnogaeth barhaol yn cael ei darparu i'r cyfranogwyr i sicrhau bod y gwaith yn parhau'n gynaliadwy.

Mae Cynhwysiad Ariannol yn parhau i fod yn faes pwysig o waith gyda'r atgyfeiriadau i 'Pantri Pobl' y banc bwyd yn cyrraedd y nifer uchaf erioed yn ystod Awst 2014 gyda dros 1,000 o brydau'n cael eu darparu. Mae mwy a mwy o bobl yn cynnwys y rhai sydd ar fudd-daliadau a phobl sy'n gweithio gyda theuluoedd yn ei chael yn anodd ffeindio digon o arian i brynu bwyd. Mae Cymunedau'n Gyntaf yn gweithio gydag ysgolion i helpu i wella llythrennedd ariannol y plant. Maent hefyd yn gweithio'n galed i gynyddu'r rhai sy'n defnyddio gwasanaeth Undeb Credyd Gogledd Cymru fel y gall pobl gael mynediad at gyllid fforddiadwy yn hytrach na benthyciadau diwrnod cyflog.

Rydym yn disgwyl ar hyn o bryd am benderfyniad ar fid fawr i'r Loteri Iechyd fydd yn darparu £230K i ddarparu gwahanol fentrau yn cynnwys ystod o weithgareddau i bobl ifanc.

Gellir gweld crynodeb o fesurau perfformio allweddol yn Atodiad 4.

**Bwrdd Ymgynghorol Cymunedau'n Gyntaf Môn**

Ym mis Mai 2013, sefydlodd yr Awdurdod Fwrdd Ymgynghorol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Awdurdod a sefydliadau eraill. Cylch Gorchwyl y Grŵp yw hwyluso perthynas weithio agos rhwng Cymunedau'n Gyntaf Môn. Cyf., a darparwyr gwasanaeth allweddol. Pwrpas y Grŵp Ymgynghorol yw:

1. Darparu cyfleon i roi cymorth, datrys problemau, rhannu arferion da a gwybodaeth ar gyfer Cymunedau'n Gyntaf Môn gyda phartneriaid, gan gymryd ystyriaeth lawn o anghenion cymunedau a theuluoedd lleol.

2. Gweithredu fel cyswllt rhwng y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a'r Cynllun Integredig Sengl a dogfennau a rhaglenni strategol allweddol eraill.

3. Sicrhau bod rhaglenni lleol yn cydblethu, fel y Rhaglenni Cymunedau'n Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf a'r gweithgareddau ar raglenni eraill, ynghyd â nodi cyfleon ar gyfer comisiynu ar y cyd, gwneud ceisiadau am arian a phlygu rhaglenni.

4. Gweithredu fel fforwm trafodaeth, adolygu a datblygu cynllun cyflawni blynyddol Cymunedau'n Gyntaf Môn a dylanwadu ar y Bwrdd Gwasanaeth Lleol a phartneriaid eraill i fabwysiadu cynigion y sefydliad.

Mae'r Bwrdd Ymgynghorol yn ddiweddar derbyn yr her o geisio gwella'r gwasanaeth sydd ar gael gan Undeb Credyd Gogledd Cymru ym Môn.

**Argymhellion**

Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Adfywio a Phartneriaethau:

Nodi cynnwys yr adroddiad.

Awdur yr Adroddiad: Jenny Whiston, Rheolydd Grantiau
Dyddiad yr Adroddiad: 9 Medi 2014


**Atodiad 1**

**Cyllid Cymunedau'n Gyntaf**

| | Gwariant Gwirioneddol 13/14 | Cyllideb 14/14 |
|---|---|---|
| | £ | £ |
| **Cyflogau** | 439,657 | 555,874 |
| **Ffioedd Rheoli** | 19,057 | 23,643 |
| **Teithio a Chynhaliaeth** | 6,257 | 16,684 |
| **Hyfforddiant** | 2,817 | 5,100 |
| **Costau Adeiladau** | 94,004 | 65,327 |
| **Cynllun Ymgysylltiad Cymunedol** | 23,346 | 25,000 |
| **Costau Prosiect** | 59,485 | 105,530 |
| **Costau LDB** | 18,535 | 23,736 |
| **Cyfanswm** | **663,158** | **820,894** |
| **Hawliwyd** | **663,158** | |

**Atodiad 2**

# SIART TREFNIADOL


ORGANISATIONAL CHART
esgyn lift
Môn CF
Llywodraeth Cymru Welsh Government
communities first cymunedau yn gyntaf
DIRECTORS FULL BOARD
Richard Burnell
Ann Kennedy
John Cave, MBE
Jackie Blackwell Finance
Joe Lock Vice Chair & Finance
James Lee, MBE Chair
Keith Thomas
John Tyrell-Jones
Vera Roberts
Kath Capstick
Susan Williams
PERSONNEL BOARD
Susan Williams
Kath Capstick Vice Chair
Vera Roberts Chair
Richard Burnell
John Cave, MBE
Rita Lyon Cluster Manager
Ian Hughes Finance & Monitoring Officer
HOLYHEAD Tracy Stokes Admin & Company Secretary
LLANGEFNI Diane Roberts Administrator
HOLYHEAD Joanne Thomas Beck Receptionist
Georgia Chapman & Andrew Williams Youth Workers
Chloe Hannam Finance Assistant
Alun Roberts Prosperous Communities Co-ordinator
Carl Owen Financial Inclusion Officer
Katie Robinson Prosperous Team Support Worker
Ryan Williams Marketing Assistant
Gary Williams LIFT Mentor
Una Jones LIFT Mentor
Volunteer Co-ordinator
Andrew Wright Employment Support Officer
Cassie Owen Managers Assistant
Stephanie Pritchard Family Engagement Worker
Colin Lyon Learning Communities Co-ordinator
Lynne Murphy Academy Admin
Ashley Beck, Stephen Cuffin, Academy Mentors
Hayley Martin Environmental Team Leader
Alan & Andrew Ganderton Academy Workers
Andrew Williams Academy Mentor Joinery
Jacob Hadley Apprentice Joiner
Karen Jones Academy Mentor Childcare
KID Z INK
Natalie Ryder Training Manager
James Hart & Ken Gray Learning Support Officers

**Atodiad 3**

## CYLLID ALLANOL A SICRHAWYD HYD YN HYN

£60,000 Grant Amddifadedd Disgyblion Cymunedau'n Gyntaf £60,000 - mae'r prosiect hwn â ffocws ar gefnogaeth o ran llythrennedd a rhifedd wedi'i dargedu yn Ysgol Uwchradd Caergybi a rhai o ysgolion cynradd y dalgylch. Mae'r gefnogaeth â'r nod o dargedu grwpiau o ddysgwyr bregus, nifer ohonynt â hawl i brydau ysgol am ddim o oed ifanc drwodd i ddiwedd eu haddysg ffurfiol. Mae'r ffocws yn edrych ar gefnogaeth o fewn yr ysgol ac allan o'r ysgol drwy ymgysylltu a galluogi i rieni chwarae rhan weithredol yn nysg eu plant. Mae'r rhieni hefyd yn cael eu cyfeirio ymlaen i raglenni Cymunedau yn Gyntaf eraill am gefnogaeth.

£20,000 Loteri Iechyd – wedi ei sicrhau i gynnal sgyrsiau lleol (ymgynghoriadau) i geisio canfod beth yw dyheadau breswylwyr Cymunedau'n Gyntaf i'w cymuned. Mae bid yn seiliedig ar ganlyniad hyn wedi ei chyflwyno am £230,000 sy'n cynnwys ystod o weithgareddau i bobl ifanc.

Diogelwch Cymunedol £9,000 – wedi ei sicrhau i ddarparu gweithgareddau i blant yn eu harddegau dros wyliau'r haf.

£150,000 MAGNOX - wedi ei sicrhau i sefydlu gweithdy saer o fewn yr Academi Alwedigaethol a chyflogi Mentor Seiri i ddarparu'r elfen adeiladu u'r Academi Alwedigaethol.

£25,000 Cronfa Grantiau Bychan i Daclo Tlodi – cyllid Llywodraeth Cymru i'w dosbarthu i grwpiau cymunedol drwy broses ymgeisio leol.

£4,000 Ymestyn yn Ehangach – i ddarparu ymgysylltiad / hyfforddiant cymunedol.

Cyfenter

Mae £41,000 wedi ei sicrhau i sefydlu a rhedeg cynllun "Siopa yn y Dref" ym Môn sydd a'r nod o hyrwyddo siopa yng nghanol y trefi a chefnogi busnesau lleol tra'n darparu ystod o ddisgowntiau a chynigion arbennig i ddeilyddion cardiau.

Mae £25,000 wedi ei sicrhau i adnewyddu'r ganolfan gofal plant Kid z Ink ac ymestyn y gwasanaethau a gynigir, ac mae'r prosiect wedi ei gysylltu â'r Academi Alwedigaethol ac mae'r holl hyfforddiant gofal plant yn cael ei ddarparu yno.

Môn a Menai

£70,000 (hyd at 31 Mawrth 2014) Menter Siop Wag – cwblhau'r prosiect

£38,000 (hyd at 31 Mawrth 2014) Academi Alwedigaethol Gymunedol – diwedd y ffynhonnell gyllid, wedi cyfrannu tuag at gostau prosiect

Alwminiwm Môn

£5,000 tuag at gefnogi Pantri Pobl

£7,000 tuag at rent a chostau rhedeg siopau elusen y mae grwpiau lleol yn eu defnyddio ar sail rota i godi arian i'w hachosion (yn cael eu rheoli gan Cymunedau'n Gyntaf Môn)

£13,000 i brynu Tipper Truck i'r Academi

**Atodiad 4**

## Dangosyddion Perfformiad Cymunedau'n Gyntaf

Gellir darparu rhestr lawn o’r holl ddangosyddion sydd wedi eu hadrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru drwy Ffynnon ar gais ond mae crynodeb o ddangosyddion allweddol isod.

| Dangosydd | Targed hyd at Ch4 13/14 | Cyflawnwyd hyd at Ch4 13/14 |
|---|---|---|
| **Cymunedau Ffyniannus – Cynorthwyo pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith** | | |
| Nifer y bobl sy’n chwilio am gyngor a chymorth | 101 | 160 |
| Nifer y bobl sy’n cael gwaith | 17 | 34 |
| Nifer y bobl sy’n ennill cymhwyster sy’n gysylltiedig â chyflogaeth | 8 | 6 |
| **Cymunedau Ffyniannus - Gostwng diweithdra ac ymddieithriad ymysg pobl ifanc** | | |
| Nifer y bobl sy’n gwirfoddoli’n rheolaidd fel llwybr i gael gwaith | 20 | 18 |
| Nifer y bobl sy’n cael lleoliad trwy Twf Swyddi Cymru | 5 | 14 |
| Nifer y bobl sy’n ennill cymhwyster sy’n gysylltiedig â chyflogaeth | 20 | 18 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Hyrwyddo cynhwysiant digidol** | | |
| Nifer y bobl sy’n ennill sgiliau TG sylfaenol | 100 | 58 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Gwella medrusrwydd ariannol, rheoli dyledion a chodi incwm** | | |
| Nifer y bobl sy’n agor cyfrif Undeb Credyd | 84 | 183 |
| Nifer y bobl sy’n cael benthyciad Undeb Credyd | 20 | 100 |
| Nifer y plant y gwelwyd eu llythrennedd/medrusrwydd ariannol yn gwella | 100 | 271 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Cefnogi menter, bancio amser ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol** | | |
| Nifer y mentrau a gafodd gymorth ar ffurf gweithgareddau dechrau busnes | 12 | 9 |
| Nifer y mentrau cymdeithasol a gychwynnwyd | 1 | 2 |
| **Cymunedau Ffyniannus – Gostwng y risg y bydd pobl ifanc yn troseddu** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y bobl ifanc sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol rheolaidd | 150 | 302 |
| Nifer y bobl ifanc sy'n ennill cymwysterau allgwricwlar | 50 | 39 |
| **Cymunedau Dysgu – Dysgu gydol oes mewn cymunedau** | | |
| Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster | 75 | 95 |
| Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gwirfoddoli i ddysgu | 5 | 15 |
| **Cymunedau Dysgu – Gwella sgiliau bywyd oedolion** | | |
| Nifer y bobl sy'n ennill cymhwyster | 60 | 143 |
| Nifer y bobl sy'n symud ymlaen i ddysgu pellach | 15 | 12 |
| **Cymunedau Iach – Hyrwyddo lles corfforol** | | |
| Nifer y bobl sy'n fwy ymwybodol o risgiau gordewdra. | 24 | 65 |
| Nifer y bobl gydag agwedd fwy cadarnhaol at wella eu hiechyd corfforol | 20 | 40 |
| Nifer y bobl sy'n dangos lefel uwch o weithgaredd corfforol | 7 | 0 |
| **Cymunedau Iach – Annog bwyta'n iach** | | |
| Nifer y bobl ifanc sy'n bwyta llysiau a ffrwythau ffres bob diwrnod | 150 | 150 |
| **Cymunedau Iach – Gostwng ymddygiad sy'n peri risg** | | |
| Nifer y bobl ifanc gyda gwell dealltwriaeth o risgiau | 10 | 33 |
| **Cyfanswm cronnol LIFT ers dechrau rhaglen 1 Ionawr 2014** | | |
| Hyfforddiant galwedigaethol | | 52 |
| Lleoliadau gwaith | | 33 |
| Paratoi ar gyfer gwaith llawn amser | | 27 |
| I waith | | 32 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adrodiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini a Throsolwg – Partneriaeth ac Adfywio** |
| **Dyddiad:** | **25 Medi 2014** |
| **Pwnc:** | **Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ynys Môn 2014-2019** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Kenneth P. Hughes** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Shan Lloyd Williams, Pennaeth Gwasanaethau Tai** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Lucy Reynolds, Rheolydd Strategaeth a Datblygiad Tai**<br>**Est 2555**<br>**lucyreynolds@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Pawb** |

## 1 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwynir y Strategaeth Dai Leol (SDL) ar gyfer Ynys Môn i'r Pwyllgor Sgriwtini fel bod modd i'r Aelodau sicrhau y bydd y Strategaeth yn cyflawni ei swyddogaeth o ddarparu gweledigaeth ar gyfer gwella tai yn barhaus ar yr Ynys i gwrdd ag anghenion newidiol ei dinasyddion.

1.2 Gofynnir i'r Aelodau archwilio'r Strategaeth 5 mlynedd ac, yn amodol ar unrhyw newidiadau a awgrymir gan y Pwyllgor hwn, argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn ei chymeradwyo ar 20 Hydref.

## 2 Cefndir

2.1 Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gynhyrchu Strategaeth Dai yn unol ag Adran 87 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol ddangos arweinyddiaeth effeithiol i ddod â'r partneriaid perthnasol ynghyd i gwrdd ag anghenion tai yn yr ardal.

Bydd arweinyddiaeth strategol dda mewn perthynas ag anghenion tai yn cynnwys:

- Asesu a chynllunio ar gyfer anghenion tai'r boblogaeth leol ar draws pob math o ddeiliadaeth yn awr ac i'r dyfodol
- Gwneud y defnydd gorau o'r stoc dai gyfredol
- Cynllunio a hwyluso cyflenwad newydd
- Cynllunio a chomisiynu gwasanaethau cymorth tai sy'n cysylltu cartrefi a gwasanaethau cymorth tai
- Gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod tai a chymdogaethau'n cael eu rheoli'n effeithiol ar sail barhaus.

Mae'r Strategaeth Dai Leol ar gyfer 2014-2019 yn rhoi sylw i'r holl feysydd hyn yng nghyd-destun y sefyllfa gymdeithasol ac economaidd yn Ynys Môn.

**3 Materion allweddol sydd wedi cael sylw yn y Strategaeth Dai Leol**

3.1 Y materion allweddol y mae'r SDL yn eu hamlygu ac yn ymateb iddynt yn Ynys Môn yw:

a. Prinder o gartrefi fforddiadwy ar yr Ynys ac effaith negyddol hynny ar les cymdeithasol a chymunedol.

b. Newid Demograffig. Mae pobl yn byw'n hirach a gallai pobl ifanc adael yr Ynys i i wella'r rhagolygon o gael gwaith a thai. Mae angen tai addas ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio ac mae angen cadw pobl ifanc yn yr ardal.

c. Y Mesur Tai (Cymru). Mae hwn yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd ar y Cyngor i gefnogi pawb sy'n wynebu bod yn ddigartref, gan olygu y bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddod o hyd i ffyrdd ychwanegol o helpu cleientiaid i gael tai addas, megis gweithio gyda landlordiaid preifat a chydweithwyr yn y trydydd sector.

d. Newid tymor hir sy'n gweld nifer gynyddol o aelwydydd yn byw'n hirach yn y sector rhent preifat. Mae angen i'r Cyngor weithio gyda'r newidiadau deddfwriaethol yn y Mesur Tai (gan gynnwys bod rhaid i landlordiaid gael trwydded) er mwyn gwella safonau llety ac i wneud y sector hwn yn un llwyddiannus ar gyfer pobl sy'n chwilio am gartrefi.

e. Diwygio lles. Mae hwn yn brosiect tymor hir gan lywodraeth y DU sy'n cael effaith ar allu llawer o aelwydydd i reoli eu hanghenion tai. Yn benodol, mae cyfyngiadau ynghylch budd-daliadau tai wedi golygu bod mwy o alw am gartrefi bychan ond mae'r galw hwnnw wedi bod yn cynyddu beth bynnag oherwydd bod maint aelwydydd yn lleihau ar gyfartaledd. Mae llawer o bobl yn Ynys Môn wedi cael eu heffeithio gan y newid hwn ac mae rhai wedi cael eu heffeithio hefyd gan amryw o newidiadau mewn budd-daliadau.

f. Gwasanaethau cymorth tai o safon uchel. Mae'n rhaid i'r cyflenwad o gartrefi hefyd barhau i gael ei gysylltu'n agos gyda gwasanaethau cymorth tai o'r radd flaenaf. Mae gan y rhain rôl glir i'w chwarae o ran gostwng costau i'r Adran Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae angen gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn, gwasanaethau ar gyfer pobl sy'n dioddef trais domestig ac i bobl fregus sydd mewn perygl mawr o golli eu cartrefi.

g. Datblygu gorsaf bŵer Wylfa Newydd. Bydd hyn yn cael effaith gynyddol ar dai. Bydd angen i bartneriaid tai weithio'n agos gyda'r Adran Gynllunio a'r Prosiect Ynys Ynni i gynllunio ymateb a fydd yn lliniaru'r effeithiau negyddol ar ragolygon pobl leol o gael tai ac er mwyn sicrhau gwaddol cadarnhaol.

## 4 Neilltuo Adnoddau ar gyfer y Strategaeth

4.1 Datblygwyd y Strategaeth ar adeg o bwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus gyda mwy o doriadau i ddod yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu bod gwasanaethau a datblygiadau tai a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyllid cyhoeddus yn wynebu amgylchedd heriol yn y blynyddoedd i ddod. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rôl tai da o ran cynorthwyo i reoli gwariant yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hynny'n cyfiawnhau parhau i fuddsoddi mewn tai a chymorth sy'n gysylltiedig â thai.

4.2 Mae Ynys Môn wedi cael £2.6m ar gyfer tai yng Nghaergybi rhwng 2014-2017 yn sgil cais llwyddiannus am arian o'r Gronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid. Bydd cynlluniau a gefnogir gan Lywodraeth Cymru yn cynnig cyfleon newydd i fenthyca ar gyfer datblygu a gwella tai. Mae gan bartneriaid cymdeithasau tai gyfleon newydd i fenthyca i gyllido datblygiadau ac fe allai Cyngor Sir Ynys Môn hefyd ddefnyddio'r bwriad i brynu ei hun allan o'r system Cyfrif Refeniw Tai i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi Cyngor.

4.3 Gellir gwireddu'r canlyniadau ar gyfer tai a ddisgrifir yn yr SDL trwy i bartneriaid tai gydweithio'n agos a thrwy wneud defnydd arloesol o'r ffynonellau cyfredol a'r cyfleon am gyllid newydd. Mae modelau newydd o ddatblygiadau tai ac i gefnogi buddsoddiad preifat yn y maes tai hefyd yn rhan o'r ateb.

## 5 Ymgynghori

5.1 Datblygwyd y Strategaeth gyda mewnbwn gan swyddogion yn adrannau'r Cyngor, Aelodau lleol a chydranddeiliaid allanol, gan gynnwys aelodau o'r Fforwm Digartrefedd a chymdeithasau tai.

Mae'r Strategaeth wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ers cychwyn Awst 2014. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar draws ystod eang o gydranddeiliaid hefyd. Cyflwynir atborth ar yr ymateb i'r ymgynghoriad hyd yma yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Sgriwtini.

## 6 Gweithredu'r Strategaeth

6.1 Cefnogir y SDL newydd gan Bartneriaeth Dai newydd ar gyfer Ynys Môn sy'n cynnwys partneriaid ar lefel uchel o'r cymdeithasau tai lleol a'r sector tai preifat. Bydd y Bartneriaeth hon hefyd yn monitro'r cynnydd a wneir gyda'r Strategaeth.

6.2 Bydd cynllun gweithredu blynyddol yn cael ei ddatblygu gyda chydranddeiliaid a'i oruchwylio gan Bartneriaeth Dai Ynys Môn er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r canlyniadau erbyn 2019.

6.3 Bydd sylwadau o'r Pwyllgor Sgriwtini hwn yn cael eu cynnwys gyda'r Cynllun Gweithredu terfynol ar gyfer y Strategaeth a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Hydref 2014 ac i'r Cyngor llawn ar 4 Rhagfyr 2014.

7 Argymhelliad

Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Sgriwtini argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Strategaeth Dai Leol ar gyfer Ynys Môn am y cyfnod 2014-2019.

# Strategaeth Dai Leol 2014-19  Cyngor Sir Ynys Môn

## Cynnwys


Cyflwyniad ........ 2

Llwyddiannau yn y maes tai ........ 3

Prif ganlyniadau yr ydyn yn dymuno eu cyflawni erbyn 2019 ........ 4

Y Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol ........ 5

Deall y Cyd-destun Tai ym Môn

Y Boblogaeth a'r stoc tai ........ 7

Deiliadaeth ........ 9

Iechyd ........ 10

Lefel diweithdra ........ 10

Incwm ........ 11

Yr angen o ran Tai ym Môn ........ 13

Y stoc tai cyfredol ........ 14

Thema 1 – Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol Môn ........ 16

Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai cyfredol a gwella cartrefi a chymunedau ........ 19

Thema 3- Atal argyfwng tai a chynyddu dewisiadau tai ........ 23

Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai ........ 25

Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach ........ 27

Thema 6 – Gwireddu'n llawn y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach ........ 28

## Cyflwyniad

Man y gallwn ei alw'n gartref yw'r angen mwyaf sylfaenol i unrhyw un ohonom. Mae'n fwy na chysgodfan, yn hytrach, mae'n fan sy'n llunio'n lles a'n ymdeimlad o ddiogelwch.

I'r mwyafrif llethol ohonom, nid yw cael tŷ parhaol yn rhywbeth y gallwn ei gael ar ein pennau ein hunain ond, yn hytrach, rhaid ymwneud â landlordiaid, datblygwyr, sefydliadau ariannol ac asiantaethau eraill. Yn yr un modd, ar lefel gymunedol, i gael y cartrefi iawn yn y llefydd iawn ar gost y gall unigolion a chymdeithas eu fforddio, rhaid wrth arweinyddiaeth genedlaethol a lleol a gweithio gyda nifer o bartneriaid. I Fôn, golyga hyn bod y Cyngor Sir yn darparu cyfeiriad strategol ac yn rhoi yn ei le'r fframwaith a fydd yn ei gwneud yn bosib i ddatblygwyr, adeiladwyr, asiantaethau statudol a gwirfoddol, tenantiaid a landlordiaid weithio gyda'i gilydd yn effeithiol.

Pwrpas y Strategaeth Dai 5 mlynedd yw cyflwyno gweledigaeth o welliant parhaus o ran tai a gwasanaethau sy'n gysylltiedig â thai ar yr ynys. Mae'n disgrifio'r hyn yr ydym eisiau ei gyflawni ym Môn erbyn 2019. Wrth osod y canlyniadau pwysicaf ar gyfer tai, caniateir i adnoddau a ffrydiau gwaith gael eu cyfeirio tuag at y nodau hyn a diffinnir sut y bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i'w cyflawni.

Mae angen gwneud hyn wrth gydnabod bod yno faterion tyngedfennol sy'n cael effaith ar y farchnad dai leol ac nad oes modd i Awdurdod Lleol eu rheoli - dim ond gobeithio y gall ymateb iddynt a'u lliniaru. Ymhlith y rhain mae'r hinsawdd economaidd a pholisi ar dreth a budd-daliadau lles.

Fodd bynnag, gall arweinyddiaeth o ansawdd uchel o du'r Cyngor yn y maes tai fforddiadwy a gwasanaethau cefnogi a chyngor ar dai wneud gwahaniaeth hanfodol i fywydau nifer o drigolion. Yn aml iawn, rhywbeth i'w gael yn y tymor canolig i'r tymor hir yw newid yn y sector tai. Dyna un rheswm pam ei bod o'r pwys mwyaf cael strategaeth dai sy'n edrych ymlaen bum mlynedd a thu draw i hynny. Wrth edrych ar batrymau tymor hir poblogaeth, yr economi a newid cymdeithasol mae modd dod i'r penderfyniadau cywir ar godi tai fforddiadwy, targedu arian cyhoeddus sydd ar gael ar gyfer tai a sefydlu'r partneriaethau cywir sydd i'w rhoi yn eu lle i ymateb i hyn.

Mae Cyngor Sir Ynys Môn, Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Iechyd a Chymdeithasau Tai sy'n gweithio yn yr ardal i gyd yn cydnabod bod cael y cartrefi cywir yn ffactor allweddol i sut y mae pobl yn teimlo ac yn ymddwyn yn eu cymunedau, i'w ffordd o fyw a'i hiechyd ac i gyrhaeddiad plant. Unwaith eto, sut y buddsoddir mewn tai dros y tymor hir yw'r hyn sy'n cael yr effaith fwyaf arnom.

## Llwyddiannau yn y Maes Tai

Mae'r Strategaeth Dai Leol ddiweddaraf hon yn adeiladu ar waith blaenorol y Cyngor ar dai ac yn dysgu oddi wrtho. Bu i'r Strategaeth Dai Leol ddiwethaf a ddatblygwyd yn 2007 ganolbwyntio ar gyflawni'r chwe blaenoriaeth gwasanaeth a ganlyn:

- Cynyddu faint o dai fforddiadwy a dewis oedd ar gael
- Mynd i'r afael â digartrefedd
- Gwella ansawdd tai ar draws yr holl ddeiliadaethau
- Gweithio tuag at gael opsiynau tai cynaliadwy ar gyfer aelwydydd bregus
- Mynd i'r afael â thlodi tanwydd a chynyddu effeithlonrwydd ynni
- Cynaliadwyedd cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol

Yn y blynyddoedd ers hynny, mae'r sefydliadau tai sy'n gweithio ar yr ynys wedi llwyddo gyda nifer o bethau. Yn y tabl isod crynhoir rhai'r o'r llwyddiannau allweddol.

| | Gweithred | Canlyniad |
|---|---|---|
| Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol yr ynys | 362 o dai fforddiadwy ychwanegol wedi'u codi gan gymdeithasau tai ym Môn rhwng 2008 a 2013. | Aelwydydd yn cael cymorth i ganfod tai addas o fewn eu cyrraedd yn ariannol |
| Atal argyfwng tai a chynyddu'r dewisiadau tai | Mae'r Tîm Dewisiadau Tai yng Nghyngor Sir Ynys Môn wedi cynyddu ymyriadau osgoi digartrefedd | Gostyngiad yn nifer yr aelwydydd sy'n cael eu derbyn yn ddigartref a'r defnydd a wneir o lety dros dro ar gyfer yr aelwydydd hyn |
| Y gefnogaeth gywir ar gyfer y rhai hynny y mae arnynt angen cymorth i fyw'n annibynnol. | Mwy o ddewisiadau cefnogi ar gael i gynorthwyo'r rhai hynny ag anghenion cefnogi tai ar draws yr holl ddeiliadaethau | Mwy o bobl yn cael cefnogaeth briodol i fyw'n annibynnol ac i osgoi digartrefedd |
| | Cynllun Tai gyda Chefnogaeth Coedlys ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cefnogi uchel wedi'i gwblhau | Bwlch a gydnabuwyd mewn darpariaeth wedi'i lenwi er mwyn rhoi cefnogaeth lefel uchel i bobl ifanc fregus |
| Stoc dai a chymunedau wedi'u gwella | 200 o gartrefi gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto yn sgil yr ymyriad rhwng y Swyddog Cartrefi Gwag rhwng 2011 a 2014 (crëwyd y swydd yn 2011) | Gwelliant yn y gymuned a'r defnydd gorau'n cael ei wneud o'r stoc tai presennol |
| | Camau wedi'u cymryd i liniaru tlodi tanwydd<br>• Nifer o gymunedau (gan gynnwys 88 o denantiaid Cyngor) wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith nwy<br>312 o banelau Solar Ffotofoltäig ac 87 o Banelau Solar Thermal wedi'u gosod ar dai Cyngor | Aelwydydd ar incwm llai wedi cael system gwresogi/dŵr poeth fwy cost effeithiol. |
| | Holl stoc tai'r Cyngor wedi cyrraedd Safon Ansawdd Tai Llywodraeth Cymru erbyn 2012 | Mae gan holl dai'r Cyngor fwynderau modern a gwell effeithlonrwydd ynni i wella iechyd ac ansawdd bywyd trigolion. |

## Prif ganlyniadau yr ydym yn dymuno eu cyflawni erbyn 2019

| | |
|---|---|
| **Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol yr ynys** | 1. Bydd cyflenwad tai fforddiadwy wedi cynyddu. Bydd y datblygiad hwn yn ceisio cyfatebu maint cartrefi, lleoliadau ag ystod prisiau y mae eu hangen fwyaf ar yr ynys.<br>2. Bydd gwaith datblygu tai yn cyfrannu at gymunedau cynaliadwy sy'n golygu y bydd rhaid cael cydbwysedd rhwng tai a'r gwahanol lefelau o fforddiadwyedd y mae eu hangen ar draws y boblogaeth ac mewn cymunedau unigol. Cydnabyddir bod costau trafnidiaeth ac ynni'n gynhenid i ba mor addas yn gyffredinol yw'r cartrefi newydd.<br>3. Rhoddwyd sylw llawn yn y rhaglen datblygu tai i'r cynnydd o ran yr adeilad niwclear newydd a datblygiadau economaidd arwyddocaol eraill ar yr ynys<br>4. Rhoddir llety i gymuned y Sipsi a'r Teithwyr yn unol â'r asesiad o angen a gynhaliwyd |
| **Stoc dai a chymunedau wedi'u gwella** | 5. Bydd mwy o gartrefi ar draws yr holl ddeiliadaethau wedi'u hatgyweirio i safon foddhaol ac â sgôr effeithlonrwydd ynni gwell ac, felly, â chostau rhedeg is.<br>6. Mae gwell defnydd yn cael ei wneud o'r cyflenwad tai presennol ar yr ynys trwy barhau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd a gweithio'n well fel partneriaid gyda landlordiaid preifat i gynyddu cyflenwad o gartrefi o ansawdd<br>7. Mae mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel yn eu cymunedau. Bydd rhoi sylw, yn benodol, i broblemau trais yn y cartref ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth uchel. |
| **Atal argyfwng tai a chynyddu'r dewisiadau tai** | 8. Mae modd i bobl gael gafael yn hawdd ar wybodaeth a chyngor yn gynnar er mwyn cynorthwyo gyda phroblemau tai a materion sy'n gysylltiedig ag arian neu gymorth, yn enwedig felly, oherwydd goblygiadau'r Diwygiad Lles. O'r herwydd, mae'r perygl o ddigartrefedd yn gostwng.<br>9. Mae'r system gosod tai wedi'i hadolygu i sicrhau bod hyn yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol ai fod yn haws i gwsmeriaid ei deall a'i defnyddio<br>10. Mae gwasanaethau i osgoi digartrefedd wedi'u gwella'n barhaus gan arwain at lai o ddigartrefedd statudol |
| **Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai** | • Cynigir i bobl y gwasanaethau cefnogi tymor byr neu hwy gorau i sefydlu neu gynnal llety<br>11. Mae Cofrestr Tai Addas wedi'i datblygu ac mae'n cynorthwyo pobl ag anableddau gyda chartrefi sy'n addas i'w anghenion |
| **Cartrefi ar gyfer byw'n hirach** | 12. Wrth i bobl fyw'n hirach a dymuno parhau i fyw'n annibynnol, mae ystod o ddewisiadau cefnogi a llety, gan gynnwys Gofal Ychwanegol, wedi'i datblygu ac sy'n rhoi dewis<br>13. Mae gwasanaethau tai sy'n cefnogi pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain (e.e. Grantiau Cyfleusterau Anabledd a chefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai) yn parhau i gwrdd â ffordd o fyw sy'n newid a chynnydd mewn galw. |

| | |
|---|---|
| **Gwireddu'n llawn y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach** | 14. Mae codi ac adnewyddu tai yn dod â chyfleoedd economaidd a chyflogaeth i'r ynys ac i'w dinasyddion<br>15. Mae effeithiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â thai yn cael eu cydnabod yn llwyr wrth i brosiectau Ynys Ynni gael eu datblygu<br>16. Mae manteision cyllido i brosiectau sy'n rhoi sylw i amddifadedd (e.e. Cymunedau'n Gyntaf a Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid) yn cael eu gwireddu'n llawn<br>17. Mae partneriaeth ragorol yn ei lle i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd o ran tai. |

# Y Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol

Mae'r Strategaeth Dai Leol wedi'i datblygu yng nghyd-destun polisi Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol a Llywodraeth Cymru a eglurir isod. Mae'r polisïau a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig hyn yn arwain eu blaenoriaethau gwariant cyhoeddus ac, felly, yn dylanwadu ar y ffrydiau ariannu sydd ar gael i Gyngor Môn i gyflawni'r Strategaeth.

Ar lefel leol, ni fydd y strategaeth dai'n cyflawni ei bwrpas oni bai y bydd yn cyd-fynd â gweledigaeth gyffredinol y Cyngor ar gyfer Môn. Mae'r cysylltiadau rhwng meysydd gwaith pwysig eraill y Cyngor (gan gynnwys gwasanaethau pobl hŷn, datblygu economaidd a rhoi sylw i amddifadedd a gweithio'n agosach gyda'r Gwasanaethau Iechyd) yn ffactorau allweddol yn y Strategaeth.

## 1. Polisi Cenedlaethol

**Diwygiad Lles**

Gweithredir ar raglen llywodraeth y Deyrnas Gyfunol o Ddiwygiad Lles fesul cam ac, felly, daw'r effaith i'r amlwg dros amser a bydd yn parhau i gael effaith ar aelwydydd Môn dros oes y strategaeth hon.

Ymhlith yr effeithiau uniongyrchol ar dai mae'r newid i fudd-dal tai sy'n gwneud i ffwrdd â'r cymhorthdal ystafell sbâr (a adwaenir yn fwy cyffredin fel "treth yr ystafell wely"), newidiadau i'r modd y gosodir y lwfans tai lleol (sy'n cefnogi nifer o bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat) a'r gofyn y bydd pobl dan 35 yn y sector rhentu'n cael cymorth budd-dal tai yn unig. Fel hyn, bydd modd rhentu ystafell mewn eiddo a rennir. Fodd bynnag, bydd nifer o agweddau eraill o'r mesurau sydd eisoes yn eu lle, a chyflwyno Credyd Cynhwysol yn y dyfodol, yn cael effaith benodol ar aelwydydd incwm isel a'r rhai sy'n dibynnu ar fudd-daliadau. Byddant hefyd yn cael sgil effeithiau ar fynediad at denantiaeth a'i chynnal.

Mae maes eang Diwygiad Lles yn golygu ei fod yn ystyriaeth sy'n ymhlyg i'r rhan fwyaf o themâu'r strategaeth hon.

**Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru: Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru,**

Mae hon yn gosod tair blaenoriaeth allweddol i Gymru, sef:
• Mwy o dai a mwy o ddewis
• Gwella cartrefi a chymunedau
• Gwella gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai a chefnogaeth, yn enwedig felly i bobl fregus a phobl o grwpiau lleiafrifol

Mae'n cydnabod "y bydd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn sbardun allweddol i fodloni anghenion tai."

Yng **Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru,** mae Llywodraeth Cymru'n gosod blaenoriaethau strategol, gan gynnwys buddsoddi mewn tai er mwyn creu gwaith a thwf. Mae mentrau dilynol sydd â'r nod o gynyddu'r cyflenwad tai (ee. Bond Tai i roi capasiti benthyca ychwanegol i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) wedi adlewyrchu'r flaenoriaeth hon.

**Y Cynllun Digartrefedd Deg Mlynedd i Gymru 2009-2019**
Mae'r nodau strategol a nodir yn y ddogfen fel a ganlyn:

- Atal digartrefedd lle bynnag y bo modd
- Gweithio ar draws ffiniau sefydliadau a pholisïau
- Gwneud defnyddwyr gwasanaethau'n ganolbwynt i gyflenwi gwasanaethau
- Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal at wasanaethau
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau

Caiff nodau'r strategaethau hyn eu hadlewyrchu ym M**il Tai (Cymru)** sydd ar ei daith trwy'r Cynulliad Cenedlaethol ac y mae disgwyl iddo ddod yn gyfraith yn hwyrach yn 2014 gyda'i ddarpariaethau'n cael eu gweithredu fesul cam.

Bydd y pwerau a'r goblygiadau tai newydd yn y Bil yn bwysig wrth lunio dull gweithredu'r awdurdod mewn meysydd allweddol o waith tai, gan gynnwys atal digartrefedd, gwella safonau yn y sector rhentu preifat a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.

Rhestrir isod bolisïau allweddol eraill y caiff eu hanghenion eu hadlewyrchu yn y Strategaeth. Ceir eglurhad llawnach o oblygiadau'r rhain a Bil Tai (Cymru) yn adrannau perthnasol y Strategaeth.

- Y Bil Rhentu Cartrefi
- Y Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-2023
- Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru)
- Strategaeth yr Iaith Gymraeg 2012-17, Iaith Fyw: Iaith Byw

**2. Strategaeth Leol**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod ei weledigaeth strategol ar gyfer yr ynys mewn dwy ddogfen gyffredinol

**Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn – Ein Hynys Ein Dyfodol 2013-2025**

Mae wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Gwasanaeth Lleol (Cyngor Sir Ynys Môn, cynrychiolwyr o'r Heddlu, Iechyd, Sector Gwirfoddol, Gwasanaeth Tân ac Achub, sectorau Addysg Bellach ac Uwch ac 'Unllais Cymru' sy'n cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned) ac, felly'n cynnig barn integredig a chyfannol o anghenion Môn dros y ddegawd i ddod. Bwriad y cynllun yw gosod ei weledigaeth, "gweithio gyda'n gilydd i greu swyddi, gwella iechyd a darparu lle diogel a chynaliadwy i bobl fyw ynddo".

**Cynllun Corfforaethol Ynys Môn 2013 – 2017**

Wedi'i ddatblygu gan y Cyngor mewn ymgynghoriad â phobl leol a phartneriaid, mae'n gosod y canlyniadau y bydd y Cyngor fel sefydliad yn gweithio tuag atynt er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau ein dinasyddion dros y pedair blynedd nesaf. Canolbwyntir y gwaith o amgylch tri maes blaenoriaeth: Cefnogi'r rhai mwyaf bregus, Datblygu'r Economi, Codi safonau ysgolion a'u moderneiddio
Mae'r ddau gynllun yn cydnabod cyfraniad tai o ansawdd i gael y canlyniadau y maent yn eu ceisio.

## Deall y cyd-destun tai ym Môn

Rhaid i Strategaeth Dai gael ei seilio ar wybodaeth ddibynadwy am anghenion tai'r boblogaeth a chael ei gosod yng nghyd-destun y pwerau cymdeithasol ac economaidd sy'n llunio'r ardal.

Yn nhabl x dangosir ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a ffynonellau data eraill sy'n rhoi'r cefndir ystadegol llawn i'r Strategaeth hon. Yn atodiad x ceir crynodeb o'r wybodaeth sydd ar gael yn y dogfennau hyn a chyswllt gwe i'r ddogfen lawn lle mae ar gael.

| |
|---|
| Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2013 |
| Anghenion o ran Tai ar gyfer trigolion lleol ac atebion tai a ddaw yn sgil Rhaglen Ynys Ynni 2013 |
| Astudiaethau sy'n rhoi tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| Arolwg o Gyflwr Tai'r Sector Cyhoeddus 2008 |
| Asesiad 2013 o Lety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru |
| Data o Gofrestr Tai Cyngor Sir Ynys Môn |
| Data yn seiliedig ar gofnodion y Budd-daliadau Tai a Threth y Cyngor |
| Data cyfrifiad 2011 |
| Asesiad o Anghenion Pobl Hŷn |
| Y Farchnad Rhentu Breifat ym Môn - astudiaeth Arc4 |
| Edrych ar y dewisiadau er mwyn cyflawni gofynion llety Ynys Ynni |


Mae'r adran a ganlyn yn crynhoi'r data allweddol y mae angen iddynt ddylanwadu ar yr agwedd strategol dros y pum mlynedd nesaf a thu draw i hynny.

### Y boblogaeth a'r stoc tai

Yn seiliedig ar amcanestyniadau o gyfrifiad 2011, 70,018 yw poblogaeth Môn yn 2014. Cododd y boblogaeth 4% rhwng cyfrifiad 2001 a 2011. Yn 2011 roedd 30,594 o aelwydydd, cynnydd o 8% er 2001. Yn gyffredin â'r cyd-destun cenedlaethol, mae niferoedd aelwydydd yn cynyddu'n gynt na thwf poblogaeth wrth i faint aelwydydd fynd yn llai ac yn enwedig wrth i nifer yr aelwydydd un person dyfu.

Yn y tabl isod gwelir y boblogaeth newidiol yn seiliedig ar y rhagolwg diweddaraf o ran y boblogaeth dros y blynyddoedd hyd at 2031. Dengys hwn y boblogaeth gyffredinol yn dod i'w hanterth ar 70,274 yn 2020 ac yna'n syrthio fymryn o'r man hwn ac yn aros ar 69,065 yn 2031.


**Tabl x – Newid ym Mhoblogaeth Môn 2011-31-**




(ffynhonnell – StatsCymru 2014)


Yn y tabl isod dangosir amcanestyniadau oedran yn seiliedig ar wybodaeth o'r cyfrifiad. Bydd niferoedd y bobl hŷn sy'n 65+ yn parhau i gynyddu a'r hyn a fydd yn amlycach yw y bydd niferoedd y rhai sy'n 85+ yn codi'n gyflym. O'r herwydd, bydd oed cyfartalog y boblogaeth yn cynyddu.

**Tabl x – Sut mae'r boblogaeth yn newid yn ôl grŵp oed**




Bydd hefyd newid yng nghymysgedd aelwydydd ar draws yr ynys. Daw hyn yn sgil a) mwy o bobl hŷn sy'n fwy tebygol o fyw ar eu pennau eu hunain b) patrymau cymdeithasol sy'n arwain at aelwydydd o faint llai (ee. Aelwydydd un rhiant)

**Tabl x – Patrymau newidiol cyfansoddiad aelwydydd**




Ffynhonnell: StatsCymru 2014

**Deiliadaeth**

Yn y tabl isod dangosir deiliadaeth yr holl aelwydydd ar yr ynys hyd at 2011 a'r newid er 2001. Yn groes i awdurdodau eraill yng Nghymru, mae canran y perchen-feddianwyr ym Môn wedi dangos cynnydd bychan er 2001. Mae niferoedd y bobl hynny sy'n rhentu'n breifat hefyd wedi tyfu, er bod hwn yn gyfradd twf lai na'r hyn a welir yng ngweddill Cymru oherwydd bod y sector rhentu preifat yn fwy na'r cyfartaledd yn 2001. Bellach, mae'r sector rhentu preifat ym Môn yn debyg o ran maint i'r hyn ar gyfer y cyfan o Gymru.

| | | Dan Berchenogaeth | Tai Cymdeithasol | Rhentu Preifat | Sector Rhentu Preifat (arall) |
|---|---|---|---|---|---|
| **MÔN** | 2001 Cyfanswm | 19,231 | 4,882 | 2,703 | 1,576 |
| | **2001 %** | **67.7** | **17.2** | **9.5** | **5.6** |
| | 2011 Cyfanswm | 20,971 | 4,550 | 3,699 | 1,374 |
| | **2011 %** | **68.5** | **14.9** | **12.1** | **4.5** |

9

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | % Newid 2001 -2011 | +0.5 | -2.3 | +2.6 | -1.1 |
| **CYMRU** | *% 2001* | *70.8* | *18.4* | ***7.4*** | *3.3* |
| | % 2011 | 67.4 | 15.9 | **12.7** | 3.1 |
| | % Newid | -3.4 | -2.5 | **+5.3** | +0.2 |

Mae cyfanswm o 34,168 o anheddau ar yr ynys. Ar ddyddiad y cyfrifiad diwethaf (27 Mawrth 2011), yn 89.5% ohonynt roedd o leiaf un person yr oedd y cyfeiriad hwnnw'n fan preswyl iddo. Mae hyn yn awgrymu nad yw oddeutu 11.5 % o anheddau'n cael eu defnyddio fel y prif fan preswylio. Tai haf a thai gwyliau fydd y rhain yn bennaf.

**Ethnigrwydd**

| | **% Gwyn** | **% Grŵp amlethnig / cymysg** | **% Asiad /Asiad Prydeinig** | **% Du/Affricaniad/ Caribïad/ Prydeinig Du** | **% Grŵp ethnig arall** |
|---|---|---|---|---|---|
| Môn | 98.2 | 0.7 | 0.7 | 0.1 | 0.3 |
| Gogledd-Orllewin Cymru | 97.3 | 0.8 | 1.3 | 0.2 | 0.5 |
| Cymru | 95.6 | 1 | 2.3 | 0.6 | 0.5 |

(Cyfrifiad 2011)

Er mai parhau yn fychan y mae niferoedd y bobl o gefndiroedd ethnig Du a Lleiafrifol, mae'r niferoedd wedi codi ers y cyfrifiad diwethaf yn 2001. Mae'n bwysig bod y polisi tai'n parhau i gynnwys anghenion pobl o bob cefndir ethnig.

**Iechyd**

Rhydd cyfrifiad 2011 wybodaeth am iechyd cyffredinol y boblogaeth leol

| | **% y trigolion sy'n asesu eu hiechyd cyffredinol yn ddrwg neu'n ddrwg iawn** | **% y trigolion lle cyfyngir ar weithgareddau beunyddiol gan broblem iechyd tymor hir neu anabledd** |
|---|---|---|
| Môn | 6.3% | 23.1% |
| Cymru | 7.6% | 22.7% |


(Cyfrifiad 2011)

**Lefel diweithdra**

Mae diweithdra ar yr ynys wedi syrthio o 5.1% ym mis Chwefror 2013 i 3.9% ym mis Mawrth 2014. Mae amrywiaethau mawr ar draws yr ynys gyda diweithdra ar ei uchaf yn ward Tref Caergybi lle'r oedd yn 10.9% ym mis Mawrth 14. At hyn, mae gan bob ward sy'n ffinio â thref Caergybi gyfraddau sydd dros 6%. Mae gan wardiau Rhosneigr, Porth Amlwch a Ward Tudur (Llangefni) hefyd lefel diweithdra sy'n uwch na chyfartaledd yr ynys.

**Incwm**

£24,067 oedd yr incwm cymedrig a enillwyd yn 2011 i weithwyr llawn amser oedd yn byw ym Môn (Arolwg Blynyddol ONS o Oriau ac Enillion – Incwm Aelwyd) sy'n is na Chymru yn ei gyfanrwydd ( £27,346). Fel y dengys y tabl isod, ym mhob pwynt o ran dosbarthiad, mae'r incwm gros blynyddol ym Môn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru yn ei gyfanrwydd.




O ran incwm cymedrig gweithwyr llawn amser sy'n byw ym Môn a Chymru er 2006, nid yw Cyngor Sir Ynys Môn wedi cofnodi fawr ddim newid (llai na 0.1%) er 2006 o gymharu â chynnydd o 11.5% ar draws Cymru. Er bod enillion cymedrig ar eu huchaf ym Môn yn 2008, maent wedi parhau i godi'n genedlaethol. Mae'r cwymp mewn incwm a enillir ym Môn er 2008 yn adlewyrchu cau Alwminiwm Môn oedd yn talu cyflogau uwch na'r cyfartaledd, yn ogystal â'r gostyngiad wedi hynny yng ngweithlu Eaton Electrical.

**<u>Llewyrch ac Amddifadedd</u>**

Mae gwahaniaethau amlwg rhwng cylchoedd mwyaf llewyrchus yr ynys a'r rhai mwyaf difreintiedig. Ar sail Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2001, mae ar yr ynys rai o'r wardiau mwyaf difreintiedig (Caergybi a Llangefni) a rhai o'r wardiau lleiaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'r mynegai hwn o amddifadedd yn cynnwys elfennau sy'n uniongyrchol berthnasol â thai (h.y. tai gorlawn, dim gwres canolog) ac eraill y mae prinder tai addas yn cael effaith arnynt (iechyd, diogelwch cymunedol, addysg).

**Data Prisiau**

Mae'r golofn ganol yn dangos prisiau tai ar gyfartaledd er mis Mehefin 2012. Mae'r rhain wedi codi a gostwng dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond, bellach, ceir patrwm o gynnydd graddol. Fodd


bynnag, mae pris y chwartel isaf yn parhau i amrywio ac mae modd ei gymharu'n gyffredinol â'r pris ddwy flynedd yn ôl.

| **Prisiau Tai a Werthwyd ym Môn 2012 -2014** | | | |
|---|---|---|---|
| | Chwartel Uchaf | Y Cyfartaledd | Y Chwartel Isaf |
| Mehef-12 | 191,483 | 158,331 | 112,650 |
| Gorff-12 | 196,816 | 163,224 | 116,150 |
| Awst-12 | 179,666 | 150,738 | 109,500 |
| Medi-12 | 201,333 | 167,302 | 117,650 |
| Hyd-12 | 210,000 | 171,396 | 119,983 |
| Tach-12 | 212,500 | 174,638 | 116,983 |
| Rhag-12 | 190,000 | 158,822 | 108,000 |
| Ion-13 | 178,333 | 149,800 | 103,000 |
| Chwef-13 | 172,500 | 149,629 | 108,000 |
| Maw-13 | 168,333 | 148,685 | 106,448 |
| Ebr-13 | 186,666 | 161,604 | 102,114 |
| Mai-13 | 193,000 | 159,154 | 97,781 |
| Meh-13 | 204,666 | 167,008 | 106,333 |
| Gorff-13 | 187,333 | 157,528 | 110,666 |
| Awst-13 | 184,333 | 163,146 | 112,500 |
| Medi-13 | 176,000 | 161,854 | 109,666 |
| Hyd-13 | 179,000 | 163,368 | 112,000 |
| Tach-13 | 181,666 | 161,295 | 109,166 |
| Rhag-13 | 188,333 | 160,354 | 101,333 |
| Ion-14 | 190,500 | 162,991 | 103,666 |
| Chwef-14 | 181,166 | 161,040 | 103,666 |
| Maw-14 | 174,250 | 163,921 | 109,500 |

(Ffynhonnell Hometrack 2014)

Dengys y map isod yr amrywiaeth yng nghyfartaledd y prisiau fesul ward ar draws yr ynys ym mis Mai 2014, gyda'r mannau tywyllach yn dangos y mannau prisiau uchel. Mae prisiau cyfartalog yn amrywio rhwng mwy na £224,000 i lai na £117,872. Mae'r prisiau isaf i'w gweld yn yr ardaloedd mwyaf poblog – h.y. Caergybi, Amlwch a

Llangefni.




**Angen o ran Tai ym Môn**

Asesiad o'r Farchnad Dai Leol

Cynhaliwyd arolwg yn 2012 o'r anghenion o ran tai ar gyfer y cyfan o Fôn ac, yn eu tro, defnyddiwyd canlyniadau hwn i gynhyrchu Asesiad o'r Farchnad Dai Leol sy'n rhoi llun cynhwysfawr o'r farchnad dai leol ac asesiad o'r angen o ran tai ar yr ynys.

Mae'r Asesiad yn dangos bod fforddiadwyedd tai yn broblem i nifer o aelwydydd ar yr Ynys. Er enghraifft, roedd aelwydydd yn y sector rhentu preifat yn y ddwy flynedd ddiwethaf yn gwario, ar gyfartaledd, 34% o incwm yr aelwyd ar eu rhent. O ran darpar aelwydydd newydd (sy'n debygol o fod yn bobl ifanc) ni fyddai 43.4 % yn medru fforddio tai ar y farchnad pan fo fforddiadwyedd yn seiliedig ar 25% o incwm.

Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (yr Asesiad) yn asesu niferoedd y tai fforddiadwy ychwanegol sydd eu hangen yn seiliedig ar fethodoleg y mae Llywodraeth Cymru'n ei ffafrio. Mae'n seiliedig ar lefelau cyfredol o anghenion o ran tai, ffurf aelwydydd newydd yn y dyfodol a nifer y stoc tai sydd ar gael ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gwrdd â'r angen hwn o ran tai. Ystyr y term Angen o ran Tai yw'r sefyllfa lle nad oes gan aelwyd ei dŷ ei hun neu mae'n byw mewn tŷ sy'n cael ei ystyried yn annigonol neu anaddas **ac** nid oes modd iddo gael tŷ addas am bris y farchnad. Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr asesiad hwn yn seilio'r asesiad ar y rhagdybiaeth na ddylai aelwyd wario dim mwy na 25% o'i incwm ar dŷ. Mae hyn yn arwain at y casgliad - dros y pum mlynedd er 2012

**1. Pan ddefnyddir 25% o incwm yr aelwyd, bod angen blynyddol am 635 o dai fforddiadwy**

Defnyddiwyd y cyfrif hwn eto, gan ragdybio bod modd i aelwydydd fforddio i wario hyd at 30% o'u hincwm ar dŷ rhent ac mae hefyd yn cynnwys y rhagdybiaeth bod modd i'r sector rhentu preifat ddarparu llety addas

**2. Gan ddefnyddio'r dull gweithredu hwn, bod angen blynyddol am 134 o dai fforddiadwy**

Rhestri aros am dai

Ceir rhagor o wybodaeth am yr Anghenion o ran Tai yng nghofrestri tai Môn. Mae'r rhestr aros am Dai Cymdeithasol y Cyngor yn dal y rhai hynny sydd wrthi'n chwilio am dŷ gyda'r Cyngor a chymdeithasau tai (gall gynnwys pobl heb gysylltiad lleol a thenantiaid cyfredol tai cymdeithasol sy'n ceisio trosglwyddo).Ym mis Chwefror 2014 roedd 1,467 o aelwydydd ar y rhestr aros. Roeddynt yn chwilio am dai o'r meintiau a ganlyn:

| | 1 llofft | 2 lofft | 3 llofft | 4 llofft | 5 llofft | 6 llofft |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymgeiswyr | 430 | 725 | 257 | 45 | 9 | 1 |

Yn ogystal â hyn, sefydlwyd cofrestr Tai Teg yn 2012 i bobl oedd â diddordeb mewn bod yn berchen ar dŷ, nad oedd yn medru fforddio prisiau'r farchnad ond oedd yn dymuno cael eu hystyried ar gyfer dewis o fod yn berchen ar dŷ gyda chymorth. O fis Rhagfyr 13 ymlaen, cofrestrwyd 523 o bobl o Fôn. Roeddynt yn chwilio am dai ar draws yr Ynys. Roedd 61% yn chwilio am gartref dwy neu dair llofft. Roedd 64% o'r rhai oedd yn ymateb yn benodol o'r farn bod £90-130,000 yn bris fforddiadwy ar gyfer eu haelwyd.

**Y Stoc Tai Cyfredol**

Proffil y stoc

O gymharu â'r proffil stoc cenedlaethol ar gyfer Cymru, mae gan Fôn gyfran uchel o dai a byngalos ar wahân a chyfran is o dai teras, tai pâr a fflatiau.

| | Tai ar wahân | Tai Pâr | Tai Teras | Fflatiau |
|---|---|---|---|---|
| Môn | 47.5 | 22.5 | 22.6 | 7 |
| Cymru | 27.8 | 31.9 | 27.7 | 12.3 |

(Cyfrifiad 2011)

**Nifer y llofftydd o gymharu â nifer y bobl sy'n byw yn y tŷ**

| | Cyfanswm nifer y cartrefi | Cartrefi gyda dwy loft sbâr neu fwy | Cartrefi gydag un llofft sbâr neu fwy | Cartrefi gyda dim llofft sbâr | Cartrefi gydag un llofft neu fwy yn llai'r na'r hyn sydd ei angen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pob cartref** | 30,594 | 13,537 | 10,865 | 5,517 | 675 |
| **%** | | 44% | 36% | 18% | 2% |
| **Nifer sy'n berchen arno neu sydd â pherchenogaeth a rennir (rhannol berchen a rhannol rentu)** | 21,034 | 11,362 | 6,937 | 2,413 | 322 |
| **%** | | 54% | 33% | 11% | 2% |
| **Rhentu cymdeithasol (nifer)** | 4,487 | 795 | 1,821 | 1,705 | 166 |
| **%** | | 18% | 41% | 38% | 4% |
| **Rhentu preifat neu'n byw gyda rhent yn rhad ac am ddim (nifer)** | 5,073 | 1,380 | 2,107 | 1,399 | 187 |
| % | | 27% | 42% | 28% | 4% |

Mae gan y rhan fwyaf o aelwydydd mwy o lofftydd na sydd eu hangen ar gyfer nifer y bobl yn y tŷ. Mae gan 80% o aelwydydd 1 + llofft yn fwy na sydd eu hangen. Nid oes gan 2% o aelwydydd ddigon o lofftydd ar gyfer nifer y bobl sy'n byw yn y tŷ. Mae'r ffigyrau hyn yn amrywio ar draws y deiliadaethau. Mae perchen-feddianwyr yn sylweddol fwy tebygol o gael llofftydd sbâr na phobl sy'n rhentu yn y sector preifat neu gymdeithasol lle nad oes gan 4% o aelwydydd ddigon o lofftydd.

**Cyflwr y Stoc**

Yn yr arolwg a gynhaliwyd yn 2008 o gyflwr Tai'r Sector Preifat ceir gwybodaeth am yr 84% o stoc yn y sector preifat.

Cafodd hwn bod perygl Categori 1 o fewn y System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai* mewn 22.3% o dai'r sector preifat. Cododd hwn i 35.4% o dai rhentu preifat.

Gan ddefnyddio'r camau blaenorol o ran cyflwr y stoc (cyn 2004), byddai 2% o anheddau preifat yn cael eu hystyried yn "anaddas" gan godi i 5.7% o'r stoc rhentu preifat.

(Daeth y *System Sgorio Iechyd a Diogelwch Tai (yr HHSRS) yn system genedlaethol ar gyfer asesu cyflwr tai dan y Ddeddf Tai (2004). Perygl categori 1 yw perygl sydd ar restr o 29 o beryglon a restrir mewn tai lle ystyrir hefyd bod risg uchel o niwed difrifol)

**Amrywiaeth leol o fewn yr Ynys**

Mae'r ffynonellau data sydd ar gael yn cadarnhau bod angen cydnabod amryfal anghenion gwahanol leoliadau ar yr ynys ac y dylid defnyddio, lle bynnag y bo modd, ddata sydd ar gael yn fwy lleol, gan

gynnwys mewn wardiau ac ardaloedd y cyngor cymuned, er mwyn sicrhau bod anghenion lleol yn ddealladwy ac yn cael eu cydnabod wrth ddarparu tai.

## Thema 1 – Codi'r cartrefi cywir ar gyfer dyfodol Môn

**Pam fod hyn yn fater pwysig i Fôn?**


**a) Yr effaith y mae prinder tai fforddiadwy'n ei chael ar unigolion a chymunedau**

i. Mae prinder tai addas y mae pobl leol yn medru eu fforddio yn fater sy'n cydgysylltu â nifer o'r materion tai eraill yr edrychir arnynt yn y strategaeth hon (h.y. Digartrefedd, argyfwng tai, tai addas ar gyfer pobl ag anghenion cefnogi a phobl hŷn). Fe'i codir fel mater allweddol mewn ymgynghoriadau ynghylch y blaenoriaethau tai ar gyfer yr ynys.

ii. Mae cynaliadwyedd cymunedau dan fygythiad. Mae cyflenwad annigonol o dai fforddiadwy addas yn cyfrannu at bobl ifanc yn gadael yr ardal a gall gyfyngu ar dwf economaidd. Mae cyfleusterau lleol (megis siopau) yn cael eu rhoi mewn perygl. Gellir tanseilio rhwydweithiau cymdeithasol pan fo pobl leol yn symud i ffwrdd oherwydd prinder tai addas. Mae dyfodol y Gymraeg yn cael ei lastwreiddio pan nad yw'r Gymraeg yn cael ei defnyddio mor gyffredin wrth ryngweithio'n gymdeithasol, gan fod pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg yn medru prisio'n uwch na phobl leol.

Yn y tabl isod dangosir sut y bu i brisiau tai'r chwartel isaf godi o 2003 tra bu i'r incwm cymedrig newid fawr ddim. Gwnaeth hyn hi'n fwyfwy anos i bobl oedd yn chwilio am eu cartref cyntaf.

**Môn : Incwm cymedrig wedi'i luosogi (x3.5) o gymharu â phrisiau chwartel isaf**





(Asesiad Môn - Ffynhonnell: Gofrestrfa Dir ac Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion)

O Fehefin 2014, £110,800 yw pris y chwartel isaf am gartref ym Môn sy'n golygu bod y pris 6.1 gwaith yn uwch nag enillion cymedrig person sengl ar yr ynys (ffynhonnell Hometrack ).

iii. Mae canran y boblogaeth sy'n byw yn y sector rhentu cymdeithasol, lle caiff lefelau rhent eu rheoli i'w cadw ar raddfeydd, wedi syrthio rhwng 2001 a 2011. Tra bo tai newydd ychwanegol wedi'u codi gan y Cymdeithasau Tai sy'n gweithio ym Môn, mae'r gyfradd dwf

yn arafach nag yn y sector preifat ac mae nifer fechan o dai Cyngor yn parhau i gael eu colli fel tai rhent trwy Hawl i Brynu.




Dengys y tabl uchod nifer yr holl dai newydd a gwblhawyd ym Môn dros y blynyddoedd o 2005 i 2013. Bu adferiad yn y niferoedd er 2011.

iv. Oherwydd bod pobl yn methu fforddio bod yn berchen ar gartref, ac oherwydd rhestri aros am dai cymdeithasol, mae mwy o bobl wedi cael tai yn y sector rhentu preifat. Fel arall, gallai pobl aros yng nghartref eu rhieni'n hirach neu os aiff pethau i'r pen, lle nad oes gan bobl fawr ddim adnoddau i'w cynorthwyo i gael llety diogel, gallant fod mewn perygl o fod yn ddigartref.

v. Ffactorau eraill sydd wedi cyfrannu at gael trafferth i gael tai addas yw'r cwymp yng nghyfartaledd y cyflogau ym Môn a darpariaethau diwygiad lles sydd wedi cyfyngu ar faint cartrefi y telir budd-daliadau tai ar eu cyfer yn y sector cymdeithasol a chynnydd bychan yn raddfa'r Lwfans Tai Lleol yn y sector rhentu preifat. Mae nifer yr aelwydydd yn codi'n anghyfartal â'r boblogaeth oherwydd bod maint aelwydydd yn llai. Ymhlith y rhesymau mae: pobl yn byw'n hŷn a thwf mewn teuluoedd un rhiant.

**b) Tai Gwledig**

Mae yna faterion penodol mewn perthynas â chyflenwi tai y tu allan i'r prif ganolfannau gwasanaeth ym Môn (Caergybi, Llangefni ac Amlwch) lle mae prisiau tai yn tueddu i fod yn uwch a dim cymaint o hynny o dai ar gael i'w rhentu yn y sector cymdeithasol na'r sector preifat. Yn yr un modd, gall y cyfle i godi tai fod yn anos oherwydd y tir sydd ar gael a gallai'r costau fod yn uwch.

**c) Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Mae Bil Tai (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud darpariaeth ar gyfer gofynion safle Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi'u sefydlu trwy Asesiad o Anghenion. Sefydlodd Asesiad o Sipsiwn a Theithwyr Gogledd Cymru 2013 bod angen 11 o safleoedd preswyl ym Môn.

**Meysydd gwaith allweddol a fydd yn darparu mwy o gartrefi fforddiadwy**

a) Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Mae yna draddodiad cryf o fod yn berchen ar gartref yn y Deyrnas Gyfunol ac er bod canran nifer y perchen-feddianwyr bellach yn syrthio, bod yn berchen ar dŷ yw'r ddeiliadaeth a ddymunir ac a ddisgwylir gan fwyafrif y bobl. Mae gallu'r sector datblygu preifat i gwrdd â galwad a gyfyd o ffactorau demograffig, newid cymdeithasol a thwf economaidd, yn un rhan allweddol o sicrhau bod y tai cywir ar yr ynys, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (y Cynllun) y bwrir ymlaen ag o ar gyfer Môn a Gwynedd yn elfen hanfodol o sicrhau bod tir ar gael a bod polisïau cynllunio yn eu lle i gyflawni hyn. Byddir yn parhau i gydweithio rhwng adrannau er mwyn cefnogi gwaith mabwysiadu'r Cynllun erbyn 2016 .

Hyd oni bydd y Cynllun newydd wedi'i fabwysiadu, bydd y Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2009 yn parhau i gael ei ddefnyddio fel ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac mae'n cefnogi gwaith darparu tai fforddiadwy ychwanegol tu draw i'r hyn a gyflawnwyd gydag arian cyhoeddus. Mae'n ei gwneud yn ofynnol y dylai 30% o dai mewn datblygiadau o ddeg neu fwy, fod yn fforddiadwy, os yw'n ymarferol.

b) Rhaglen Codi Tai Fforddiadwy

Mae'r Cyngor yn gwybod faint o Grant Cyfalaf Cymdeithasol y bydd yn ei gael am y tair blynedd nesaf. Ar gyfer cartrefi ar rent cymdeithasol, mae'r grant yn ariannu 58% o gost y codi, gyda'r gymdeithas tai'n sicrhau'r gweddill trwy fenthyca. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid er mwyn rhoi'r gwerth gorau o'r gronfa hon. Yn y blynyddoedd diweddar mae nifer o ffrydiau ariannu eraill wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru. Bydd gan bob un delerau ac amodau ynghlwm wrtho sy'n golygu y bydd raid i Gyngor Sir Ynys Môn gynllunio a medru gweithio'n ymaddasol er mwyn cael y budd ariannol mwyaf.

c) Galluogi yn y maes Tai Gwledig

Mae Galluogwr Tai Gwledig y Cyngor wedi cyfrannu'n sylweddol wrth hwyluso datblygiadau posib ac, yn enwedig, wrth weithio'n agos gyda chynghorau cymuned i danlinellu bod angen tai mewn ardaloedd mwy gwledig ar yr ynys lle mae'n fwy heriol yn aml iawn i ddarparu tai fforddiadwy. Mewn nifer o'r ardaloedd mwy gwledig, ceir llai o gyfleoedd i brynu am bris sy'n addas i brynwr tro cyntaf a hefyd brinder eiddo i'w rhentu'n breifat.

**Beth sydd angen digwydd yn 2019**

1. Bydd y Gwasanaethau Tai a'r Uned Cynlluniau Datblygu ar y Cyd yn parhau i weithio'n agos i sicrhau bod y Cynllun yn darparu cartrefi sy'n diwallu'r angen a dystiolaethwyd am dai fforddiadwy ac i niferoedd mwy o bobl y gallai bod arnynt angen tai arbenigol/wedi'u haddasu.
2. Bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn cadw tystiolaeth gyfredol o lefel y tai fforddiadwy sydd ei hangen, a math a maint y cartrefi sy'n ofynnol. Bydd yn defnyddio'r dystiolaeth hon i roi arweiniad brwd fel bod y cartrefi cywir yn cael eu codi yn y lleoliadau cywir.
3. Bydd y Cyngor yn gweithredu ar y dystiolaeth o angen am fwy o dai llai yn ei raglen ddatblygu

4. Bydd yr angen am dai gwledig, a all fod yn arbennig o heriol wrth adnabod tir fforddiadwy a lle mae’n anos cyflawni arbedion maint, yn parhau i gael sylw penodol gan adeiladu ar arfer da cyfredol Galluogwr Tai Gwledig Môn.
5. Bydd y Cyngor yn parhau i geisio gwerth gorau o adnoddau sydd ar gael o ran tir ac arian, gan gynnwys chwilio i fodelau eraill o ddarparu cartrefi (ee. Tai cydweithredol, croesgymhorthdal lle gall rhai tai ar y farchnad fod o gymorth wrth godi tai fforddiadwy ar safleoedd eithrio pan fo’r canlyniadau’n briodol). Bydd gweithio mewn partneriaeth gyda chymdeithasau tai, datblygwyr y sector preifat a chymunedau lleol yn hwyluso hyn. Bydd Partneriaeth Tai Môn newydd (gweler Thema 6) hefyd yn cefnogi’r nod hwn
6. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn edrych ar y cyfle a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i adael y system bresennol lle mae’n rhaid iddo dalu cymhorthdal negyddol blynyddol i’r Llywodraeth o’r Cyfrif Refeniw Tai. Gyda’r rhyddid ariannol newydd a geid yn sgil hyn, bydd y Cyngor yn ceisio codi tai Cyngor newydd.
7. Er mai cerrig milltir dros dro yn unig sydd ar gyfer codi’r Wylfa Newydd a datblygu prosiectau economaidd mawr eraill, mae’n amcan allweddol y bydd anghenion o ran tai fforddiadwy yn y tymor byr a’r tymor hir yn gysylltiedig â’r prosiectau hyn sy’n datblygu. Dylai tai a’r seilwaith i wasanaethu tai fod yn waddol canolog y prosiectau hyn.
8. Byddir yn darparu llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, safleoedd parhaol a darpariaeth cludo addas.
9. Wrth alluogi datblygiad newydd, byddir yn ceisio arfer gorau o ran cynaliadwyedd. Golyga hyn safonau uchel o effeithlonrwydd ynni, dyluniad sy’n cyfrannu at ostwng trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a chymunedau cytbwys sy’n diwallu’r amrywiaeth o anghenion lleol.

## Thema 2 – Gwneud y defnydd gorau o’r stoc tai cyfredol a gwella tai a chymunedau

**Pam fod hyn yn fater pwysig i Fôn?**

**1. Mae angen mwy o dai ar yr ynys i gwrdd â galw am dai ar y farchnad a thai fforddiadwy ond, yr un pryd, mae gormod yn sefyll yn wag**

a) Roed dros 765 o gartrefi oedd wedi bod yn wag ers chwe mis neu fwy ym Môn (Ebrill 2014), sydd oddeutu 2.2% o gyfanswm stoc tai'r ynys. Wrth ganolbwyntio ar fynd i’r afael â chartrefi gwag gan gynnwys cyflogi Swyddog Cartrefi Gwag, a chymorth pwrpasol Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a chymhorthfa Cartrefi Gwag rheolaidd, cafwyd llwyddiant mawr gan ei gwneud yn bosib i brynwyr tro cyntaf fyw yn y tai hyn. At hyn, mae wedi ychwanegu mwy o unedau at y stoc rhentu preifat.

b) Mae modd dod ar draws cartrefi gwag mewn lleoliadau ar draws yr ynys ac maent yn cynnwys fflatiau bychain a thai mawr. Yn aml iawn mae’r cartrefi gwag yn ddolur i’r llygad ond hefyd maent wedi dod yn darged i fandaliaeth neu weithgaredd anghymdeithasol. Gall eiddo sy’n sefyll yn wag a heb eu cynnal a’u cadw am gyfnodau hir ddechrau mynd â’u pennau iddynt gan wneud y gwaith o’u hailfeddiannu yn sylweddol anos.

2. **Mae nifer y bobl sy'n byw yn y sector rhentu preifat ym Môn yn codi. Rhaid mynd i'r afael â'r problemau sydd ar brydiau'n gysylltiedig â'r sector hwn er mwyn sicrhau bod gan denantiaid preifat lety o ansawdd ac y caiff eu hawliau o ran tai eu parchu.**
   a) Mae cyfanswm y nifer sy'n byw yn y sector hwn bellach yn fwy na'r nifer sy'n byw mewn tai cymdeithasol ar yr ynys. Mae'r trosiant araf o ran tai cymdeithasol a chyflenwad o dai newydd nad yw'n cwrdd â'r galw yn golygu mai, i nifer o aelwydydd, y sector rhent preifat sy'n cynnig y cyfle gorau am gartref addas pan fyddant yn chwilio am gartref cyntaf neu angen symud tŷ.
   b) Er mwyn darparu fframwaith cryfach i sicrhau safonau sy'n gyson uchel yn y sector, bydd y Bil Tai (Cymru) yn cyflwyno cynllun trwyddedu cenedlaethol ar gyfer asiantaethau gosod a landlordiaid preifat. Bwriad hyn yw cael safonau gwell, mwy o wybodaeth i awdurdodau lleol a thenantiaid am landlordiaid lleol ac i landlordiaid a thenantiaid ddeall mwy am ei hawliau a'u cyfrifoldebau.
   Roedd y Bil Ynni (2011) yn cynnwys darpariaeth bod raid i bob eiddo a rentir yn breifat o Ebrill 2018, fod â sgôr effeithlonrwydd ynni 'E'. Bydd y ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn anghyfreithlon rhentu tŷ neu eiddo busnes nad yw'n cyrraedd y safon sylfaenol hon.
   c) Cafodd yr arolwg diwethaf o gyflwr y stoc (2008) ym Môn bod gan 35% o dai a rentir yn breifat berygl* categori 1 o gymharu â 22% o'r holl stoc tai. Mae problem genedlaethol o ran safonau atgyweirio gwael ac effeithlonrwydd ynni yn y sector.
   d) Ar gyfartaledd mae pobl yn symud yn amlach yn y sector hwn ac mai llai o ddiogelwch deiliadaeth. O'r herwydd, ceir risg benodol y gallai nifer gynyddol y gweithwyr sydd eu hangen ar gyfer Wylfa Newydd a phrosiectau economaidd mawr eraill ar yr ynys gael effaith andwyol ar drigolion sy'n dibynnu ar y ddeiliadaeth hon am dŷ.

3. **Mae yna dai hefyd lle mae perchen-feddianwyr yn byw ynddynt sydd mewn cyflwr drwg a hynny oherwydd incwm isel neu afiechyd/analluedd. Mae peidio â chynnal a chadw eiddo hefyd yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd cyflwr yr eiddo'n gwaethygu ac y byddai'n ddrutach i'w atgyweirio.**
   Mae cyflwr gwael tai preifat yn risg i iechyd a diogelwch meddianwyr. Gall hyn fod yn hynod wir gyda phobl hŷn nad oes ganddynt yr incwm i gynnal a chadw eu cartref yn ddigonol neu wneud addasiadau y mae eu hangen am resymau iechyd. Cafodd yr arolwg diwethaf o gyflwr y stoc (2008) ym Môn bod gan 21% o dai yr oedd y perchen-feddiannwr yn byw ynddynt berygl* categori 1. [1] Ystyriwyd bod 16% o'r aelwydydd hyn yn fregus (wedi'u diffinio yn derbyn budd-dal neu incwm is na £8000).

## 4. Tlodi Tanwydd ar yr Ynys

Mae tlodi tanwydd yn digwydd pan fo raid i aelwyd wario mwy na 10% o'i incwm ar holl danwydd yr aelwyd er mwyn cynnal lefel foddhaol o wres.

Amcangyfrifir bod 30% o aelwydydd a 33% o aelwydydd bregus yng Nghymru yn ei chyfanrwydd mewn tlodi tanwydd (Rhagamcan 2012 yn seiliedig ar wybodaeth waelodlin 2008 - Y Sefydliad

---

[1] **( Dan y System Sgorio iechyd a Diogelwch Tai (HHSRS) perygl Categori 1yw risg yn y cartref sy'n ddigon difrifol y byddai'n ddyletswydd statudol ar yr awdurdod lleol i gymryd rhyw fath o gamau gorfodi)*

Ymchwil Adeiladu (BRE)). Er nad oes ffigwr ar gael ar lefel yr awdurdod lleol mai'r ffaith nad oes cyflenwad nwy mewn rhannau o'r ynys ac oedran y stoc tai'n golygu bod y lefel yn debygol o fod yn uwch ym Môn.

Ym Môn, nid oes gan 5.3 % o gartrefi wres canolog. Golyga nad oes, ychwaith, fawr ddim nwy ar yr ynys bod canran uchel o gartrefi'n dibynnu ar ddull gwresogi drutach - olew neu wres canolog.

| Math o wres 2011 | Môn % | Cymru% |
|---|---|---|
| Pob categori: Math o wres canolog yn yr aelwyd | 100.0 | 100.0 |
| Dim gwres canolog | 5.3 | 2.3 |
| Gwres canolog nwy | 50.3 | 76.3 |
| Gwres canolog trydan (yn cynnwys stôr-wresogyddion) | 10.8 | 5.5 |
| Gwres canolog olew | 23.3 | 8.7 |
| Gwres canolog tanwydd solet (er enghraifft, coed neu lo) | 2.7 | 1.9 |
| Gwres canolog arall | 1.1 | 0.9 |
| Dau neu fwy o fathau o wres canolog | 6.5 | 4.4 |

*(Ffynhonnell Cyfrifiad 2011)*

**Mae mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel ac yn ddiogel yn eu cymunedau.**

Mae byw mewn tŷ saff a diogel yn bwysig i'r iechyd corfforol a meddyliol. Yn ogystal â'r materion o ran cyflwr gwael tai a grybwyllwyd uchod, parhau mae'r angen i weithredu ar y materion a all grebachu diogelwch yn nhai Môn. Gall y modd y caiff cartrefi eu dylunio a gwaith adfywio sy'n rhoi cyfleoedd i ailfodelu mannau preswyl, wneud gwahaniaeth sylweddol i gyfraddau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymdeimlad pobl o ddiogelwch. Mae'r modd y mae landlordiaid tai cymdeithasol yn rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymdogaeth hefyd yn fater allweddol gan y gall pobl sy'n profi ymddygiad gwrthgymdeithasol gael eu gadael yn teimlo'n ofnus yn eu cartrefi eu hunain.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

## Cartrefi Gwag

1. Mae angen i Wasanaethau Tai barhau i osod targedau heriol i hwyluso'r gwaith o ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd. Ar hyn o bryd gosodir hyn ar 75 tŷ'r flwyddyn. Bydd yn adolygu'r Strategaeth Cartrefi Gwag i sicrhau bod y dulliau gweithredu ar y blaenoriaethau cywir yn eu lle er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ariannol a staffio sydd ar gael. Rhoddir ystyriaeth i fylchau yn y gallu i fynd i'r afael â chartrefi gwag e.e. darparu rheolaeth brosiect pan fo perchen-feddianwyr yn gyndyn o drefnu gwaith sydd ei angen heb gefnogaeth ychwanegol.
2. Mae'r pŵer newydd i godi Treth y Cyngor ychwanegol ar gartrefi sy'n wag am fwy na 12 mis ym Mesur Tai (Cymru), yn cynnig rhwystr ychwanegol i gartrefi sy'n wag yn y tymor hir. Bydd angen penderfyniad yn y Cyngor ar sut i ddefnyddio'r pŵer hwn a sut i ddefnyddio unrhyw refeniw a godir.

**Gweithio gyda'r Sector Rhentu Preifat**

1. Bydd y Cyngor yn gweithio i gefnogi gwaith cyflwyno cynllun Trwyddedu Cofrestriad Landlordiaid Preifat sy'n cael ei gyflwyno ym Mil Tai (Cymru). Yn ogystal â chynorthwyo i sicrhau bod landlordiaid yn gweithredu'n gyfrifol, bydd hyn yn rhoi i awdurdodau lleol wybodaeth llawer gwell am niferoedd y landlordiaid sy'n gweithredu yn eu hardal a'r cyfle i wella rhyngweithio a chefnogi.
2. Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi Fforwm Landlordiaid ac adnabod yr arfer gorau wrth weithio gyda Landlordiaid Preifat yn unol â'r hyn sydd yn well ganddynt.
3. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â landlordiaid i greu perthynas fydd yn gymorth i aelwydydd ar incwm isel gael mynediad at y sector hwn a cheisio sicrhau nad yw aelwydydd lleol sy'n byw yn y sector hwn yn cael eu heithrio gan weithwyr dros dro sy'n dod i mewn.

**Rhoi cefnogaeth briodol i adnewyddu tai yn y sector preifat**

Oherwydd y peryglon i iechyd a'r effaith ar safon bywyd, mae'n bwysig bod perchenogion tai preifat yn parhau i gael eu hannog i gynnal a chadw eu heiddo. Ar adeg pan fo'n debygol y bydd arian grant sydd ar gael i gynorthwyo gyda hyn yn debygol o syrthio, rhaid medru cael at gynlluniau benthyca. Gall cyllid benthyciadau hefyd gynorthwyo landlordiaid preifat i wella safon cartrefi ar rent.

**Rhoi sylw i dlodi tanwydd a gostwng allyriadau carbon**

**Bydd y Cyngor yn defnyddio'r ddealltwriaeth sydd ganddo o faterion tlodi tanwydd ar yr ynys i ganfod yr atebion gorau posib i gynyddu effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi yn y sector cyhoeddus a phreifat.**

- Mewn tai Cyngor, lle mae nifer o enghreifftiau o waith effeithlonrwydd ynni sydd eisoes wedi'i wneud, bydd gwaith yn parhau i dargedu cartrefi a allai gael budd o gael insiwleiddio solet ac insiwleiddio'r waliau (yn enwedig felly'r rhai nad ydynt ar rwydwaith y brif bibell nwy) ac i weithio gyda thenantiaid unigol mewn tlodi tanwydd.
- Os oes cyllid ar gael, bydd y Cyngor yn parhau gyda'r defnydd llwyddiannus a wnaeth yn flaenorol o gyllid Arbed i gysylltu mwy o gymunedau â'r brif bibell nwy. Mae hyn o fudd i'r Cyngor ac i aelwydydd preifat.
- Bydd y Cyngor yn sicrhau bod staff perthnasol yn medru cyfeirio ymgeiswyr cymwys at gynlluniau sy'n cynnig cymorth gyda gwella effeithlonrwydd ynni a gwres fforddiadwy yn y tŷ (h.y. y cynllun NYTH)
- Ceisir ffynonellau ychwanegol o gyllid yn frwd ar gyfer cynlluniau i wneud gwaith effeithlonrwydd ynni

**Cartrefi a chymunedau diogel**

- Bydd materion diogelwch cymunedol yn cadw proffil uchel pan fo cartrefi newydd yn cael eu codi a phan gyfyd cyfleoedd i adfywio ac adnewyddu tai.
- Byddir yn parhau i fynd ar drywydd arfer gorau wrth fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys argymhellion o adolygiad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2014.

## Thema 3- Atal argyfwng tai a chynyddu dewisiadau tai

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

**a) Mae nifer o ffactorau cefndirol sy'n berthnasol i'r maes gwaith hwn**

i. Mae disgwyl i ddarpariaethau Bil Tai (Cymru) ddechrau dod i rym yn 2015. Bydd angen i Gyngor Sir Ynys Môn weithredu'r polisi a'r newidiadau gweithredol yn sgil y ddeddf ddigartrefedd newydd y bydd hwn yn ei chyflwyno. Disgwylir, yn benodol, y bydd dyletswydd ar yr awdurdod i atal unrhyw un sydd mewn perygl o fod yn ddigartref rhag wynebu hynny, a hynny cyn pen 56 diwrnod. Bydd hyn yn ymestyn y dyletswyddau y tu draw i'r cyngor a'r cymorth cyfredol y mae gan nifer hawl iddynt ar hyn o bryd. Mae disgwyl, hefyd, i'r Bil roi i awdurdodau bŵer newydd i roi cartref i'r rhai hynny y mae arnynt ddyletswydd digartrefedd iddynt yn y sector rhentu preifat.

ii. Ar hyn o bryd, mae nifer o ffactorau sy'n ymddangos fel petaent yn creu perygl o gynnydd yn nifer yr aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn eu plith mae

- Ôl-ddyledion rhent a gyfyd yn sgil cymhorthdal yr ystafell sbâr a adwaenir yn gyffredin fel "treth yr ystafell wely" (h.y. diffyg mewn budd-daliadau a delir i denantiaid cymdeithasol y credir sy'n tanfeddiannu ac ôl ddyledion rhent sy'n codi).
- Effeithiau yn sgil camau diwygiad lles eraill a allai ostwng incwm a'r bwriad i weithredu credyd cynhwysol (taliadau misol o'r holl fudd-daliadau mewn un lwmp swm a llai o daliadau uniongyrchol i landlordiaid)

iii. Yn ogystal, mae effeithiau cyfraddau diweithdra ar fynediad at dai, a chyflenwad yn erbyn galw yn y sector tai preifat yn parhau'n ansicr ond maent yn creu peryglon parhaus. Yn arbennig felly, bydd yr angen am lety i weithwyr yr Adeilad Niwclear newydd a phrosiectau mawr eraill, o bosib, yn cael effaith ar gyflenwad llety yn y sector rhentu preifat. Gallai hyn ddigwydd cyn i'r gwaith ddechrau ar y safle wrth i landlordiaid geisio symud i farchnad denantiaid arall.

b) **Ar hyn o bryd, mae sefyllfa heriol yn wynebu nifer sylweddol o bobl ym Môn sy'n chwilio am eu cartref cyntaf neu sydd angen symud o'u llety presennol.** Amlinellwyd y cefndir i hwn yn adran 1 "Deall y cyd-destun tai ym Môn". Mae'r cyflenwad cyfyngedig o dai fforddiadwy nad yw, ar hyn o bryd, yn cyfateb i'r galw, yn cynyddu'r perygl bod y rhai mwyaf bregus yn agored i argyfwng tai, gan gynnwys digartrefedd.

i. Yn 2013-14 derbyniwyd 62 o aelwydydd yn ddigartref a bod ganddynt anghenion blaenoriaethol tra cafwyd bod 26 o aelwydydd eraill yn ddigartref ond nid yn syrthio i un o'r categorïau angen blaenoriaethol. Roedd y niferoedd hyn yn debyg i'r ychydig flynyddoedd diwethaf, er bod cynnydd bychan mewn aelwydydd a ddaeth yn ddigartref yn chwarter olaf 2013-14.

ii. Mae dull gweithredu'r Cyngor wedi canolbwyntio fwyfwy ar ymyriadau cynnar a chynorthwyo cleientiaid i gael hyd i lety arall yn gynt. Yn 2013-14 cafodd digartrefedd ei atal am o leiaf chwe mis mewn 63% o achosion oedd yn mynd i'r Cyngor yn dweud y gallent fod yn ddigartref. Yn 2013-14, mewn achosion lle nad oedd modd atal digartrefedd a bod gan yr

aelwyd angen blaenoriaethol, yr achos mwyaf cyffredin am fod yn ddigartref oedd 1) colli'r tŷ a rentwyd yn breifat ; 2) Perthynas yn torri i lawr.

iii. Mae'r gwaith canolbwyntio ar atal digartrefedd a fabwysiadwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gostwng niferoedd y bobl oedd yn statudol ddigartref ar Ynys Môn trwy droi sylw staff ac adnoddau ariannol at weithgareddau atal yn gynt. Nid yw'n adlewyrchu gostyngiad yn yr angen am gyngor ar dai a chefnogaeth iddo.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

Er bod cyflenwad yn ffactor allweddol, mae rhoi gwasanaethau atal digartrefedd rhagorol y mae modd cael mynediad atynt a gwybodaeth am ddewisiadau tai a chyngor ariannol /ar fudd-daliadau cysylltiedig hefyd yn hanfodol i unigolion sy'n cael trafferth cael tŷ. At hyn, mae angen i ddarparwyr tai cymdeithasol weithio gyda'i gilydd i sicrhau y defnyddir y cyflenwad o dai fforddiadwy i'r pwrpas gorau er mwyn rhoi cartref i'r rhai hynny mewn angen ond hefyd i greu cymunedau sefydlog a llewyrchus. Bydd yr amcanion a ganlyn yn cefnogi hyn:

a) Bydd rhagor o ddatblygu gwaith partneriaeth rhwng yr asiantaethau sy'n rhoi cefnogaeth i bobl sy'n ddigartref neu'n agored i fod yn ddigartref. Bydd Strategaeth Ddigartrefedd newydd, dan arweiniad Cyngor Sir Ynys Môn, yn canolbwyntio ar arwain dull gweithredu ar y cyd i atal digartrefedd.
b) Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu gwasanaeth dewisiadau tai sydd
- Yn rhoi i ddinasyddion wybodaeth gyfredol y mae modd cael ati am dai eraill ar yr ynys.
- Ag ystod o ffyrdd o gynorthwyo pobl sy'n wynebu'r perygl o fod yn ddigartref i un ai gadw eu lle cyfredol neu i gael dewis addas.

c) Bydd y gwasanaeth wedi'i ail-lunio i ymateb yn y ffordd orau i'r newid mewn deddfwriaeth ym Mil Tai (Cymru) sy'n rhoi hawl i unrhyw un sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod i gysylltu â'r awdurdod lleol fydd yn gorfod cymryd camau rhesymol i atal digartrefedd
d) Bydd y Cyngor wedi gweithio gyda chymdeithasau tai lleol i adolygu'r ffordd y rhoddir blaenoriaeth i bobl ar gyfer tai rhent cymdeithasol a chanolraddol. Fel hyn sicrheir y ceir system sy'n glir ac yn hawdd ei deall ac sy'n gwneud y defnydd gorau o gyflenwad bychan o stoc mewn modd sy'n derbyn ei fod yn deg a phriodol yn yr amgylchedd tai sydd ohoni.
e) Bydd y Cyngor wedi cryfhau cysylltiadau gyda landlordiaid y sector rhentu preifat i gynorthwyo mwy o bobl i gael hyd i dŷ addas yn y sector hwn. Bydd hyn yn berthnasol i'r rhai hynny mewn perygl o fod yn ddigartref a'r rhai hynny sy'n annhebygol o gael hyd i dŷ yn y sector cymdeithasol.
f) Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd yn defnyddio'r pŵer newydd ym Mil Tai (Cymru) i ymgymryd â'i ddyletswydd i roi Tenantiaeth ar Rent Preifat lle bo'n briodol i'r rhai sy'n ddigartref a bod ganddynt angen blaenoriaethol.
g) Sicrhau y cynhelir gwasanaethau cefnogi a ariennir gan Gefnogi Pobl sy'n cynorthwyo pobl arbennig o fregus, megis pobl sy'n cysgu allan, pobl â ffyrdd o fyw anhrefnus yn cynnwys camddefnyddio sylweddau a chydnabod bod y gwasanaethau hyn yn allweddol i atal digartrefedd.
h) Bydd y Cyngor yn parhau gyda'i ymrwymiad i flaenoriaethu ymateb cydgysylltiedig i effeithiau diwygiad Lles. Mewn perthynas â digartrefedd, golyga hyn yn arbennig:

- Arwain gwaith cydgysylltu asiantaethau ar draws yr ynys sy’n rhoi cyngor i aelwydydd cyfredol a rhai’r dyfodol sydd mewn mwyaf o berygl oherwydd eu bod ar incwm isel/ eu dibyniaeth ar fudd-daliadau er mwyn cyfrannu at gostau tai.
- Cydnabod bod bwlch ar hyn o bryd rhwng maint a chost dewisiadau tai sydd ar gael ar yr ynys a maint / cost llety y mae’n rhaid i drigolion ar incwm is ei ganfod dan ddiwygiad lles. Cynorthwyo i bontio’r bwlch trwy ddarparu tai llai yn y rhaglen ddatblygu, gweithio gyda landlordiaid preifat i wneud y gorau o dai yn y cyfraddau lwfans tai lleol a chynorthwyo tenantiaid cyfredol y mae treth yr ystafell wely yn cael effaith arnynt.
- Rhoddir blaenoriaeth i’w gwneud yn bosib i ddewisiadau llety ddiwallu anghenion ceiswyr tŷ sengl ar incwm isel oherwydd prinder tai un llofft ac ystafelloedd mewn tai a rennir sy’n syrthio y tu mewn i gyfraddau Lwfans tai Lleol. Ymhlith y dewisiadau mae annog tai mawr i gael eu rhannu’n llai a hwyluso dewisiadau tai a rennir.

i) Byddir yn edrych ar ddewisiadau i ddatblygu rôl Asiantaethau Gosod Cymdeithasol i ddiwallu anghenion tai.

j) Bydd y Cyngor yn gostwng y cyfnod y bydd aelwydydd digartref yn ei dreulio mewn llety dros dro a sicrhau bod y llety dros dro a roddir o safon ddigonol.

k) Bydd y Cyngor wedi ymchwilio i effeithlonrwydd Cynllun Achredu Tenantiaid y mae Cyngor Sir Ddinbych wrthi’n arbrofi ag o.

## Thema 4 – Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

a) Ar adegau penodol yn eu bywydau mae ar nifer o bobl angen cymorth priodol fel eu bod yn medru llwyddo i fyw’n annibynnol. Gall y rhain fod yn bobl o bob oedran. Ymdrinnir ag anghenion cefnogi pobl hŷn, grŵp sy’n tyfu ar yr ynys, yn yr adran nesaf, “Cartrefi ar gyfer Byw’n Hirach”.

Rhoddir y rhan fwyaf o’r gefnogaeth hon dan y rhaglen Cefnogi Pobl ond mae gweithwyr cynhwysiad ariannol hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig. Nid yn unig y mae rhaglen Cefnogi Pobl leol, lwyddiannus yn grymuso unigolion ond gall hefyd gael ei gweld yn gostwng gwariant a chynorthwyo i gyflawni amcanion polisi ar gyfer gofal cymdeithasol, iechyd a gwasanaethau diogelwch cymunedol. Gall y math o gefnogaeth a fydd yn amrywio yn ôl ag angen grŵp cleient ymwneud yn nodweddiadol â chynorthwyo unigolion i ddelio’n fwy effeithiol gyda

- Rheoli arian
- Sefydlu cartref newydd
- Cynnal rhwydweithiau cefnogi
- Perthynas gyda chymdogion
- Symbyliad i ymdopi â gwaith cynnal yr aelwyd

b) Ar hyn o bryd ac yn ystod oes y strategaeth hon bydd gan raglenni cefnogi, yn benodol, rôl i gynorthwyo pobl y mae’r diwygiad lles ac amddifadedd cymdeithasol ac economaidd yn cael effaith arnynt. Nid rôl ataliol yn unig yw hon ond gall hefyd gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyfleoedd gwaith a hyfforddi.

c) Ceir gorgyffwrdd penodol gyda'r nod o atal argyfwng tai. Mae gan cefnogi tai rôl hanfodol i atal digartrefedd trwy, er enghraifft, gefnogi pobl gyda thenantiaethau i ymdopi â'u materion ariannol ac i ofalu am eu cartrefi. Gall cefnogaeth ddwys a roddir i bobl sy'n cysgu allan eu hailsefydlu yn y gymuned.

d) Mae'r fframwaith Cefnogi Pobl cenedlaethol wedi'i drawsnewid yn llwyr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf fel ei fod yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau penodol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ofyn ariannol bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar y gwasanaethau a ganlyn fel canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth:

- Hyrwyddo Diogelwch Personol a Chymunedol
- Hyrwyddo Annibyniaeth a Rheolaeth
- Hyrwyddo Cynnydd Economaidd a Rheolaeth Ariannol
- Hyrwyddo Iechyd a Lles
  Bydd yr arian sydd ar gael dros y pum mlynedd nesaf yn parhau i ostwng gan roi her sylweddol i gynhaliaeth gwasanaethau cyfredol.

e) Cesglir data mapio anghenion yn barhaus ac fel hyn bydd modd cofnodi'r materion mwyaf cyffredin sydd angen cymorth a newid yr anghenion hyn ac, felly, adnabod bylchau mewn gwasanaethau. Adnabyddir angen "arweiniol" ar gyfer pob cleient sy'n ceisio cymorth. Yn ystod 2012-13 roedd dros 80% o angen arweiniol yn y categorïau a ganlyn

| | |
|---|---|
| Digartrefedd | 57% |
| Trais yn y cartref | 21% |
| Camddefnyddio Alcohol | 10.6% |

Mae gan nifer o bobl fwy nag un broblem sydd angen cefnogaeth. Wrth gofnodi'r rhain dangosir ystod o faterion sydd angen cefnogaeth. Ymhlith y rhain mae iechyd meddwl, troseddu, camddefnyddio cyffuriau a materion sy'n ymwneud â bod yn ifanc a bregus.

f) Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwyslais mawr ar barhau i weithio i fynd i'r afael â Thrais yn y cartref ac yn 2014 mae'n cyflwyno Bil Trais yn erbyn Menywod, Trais yn y Cartref a Thrais Rhywiol (Cymru). Mae sefydliadau tai a Chefnogi Pobl yn bartneriaid allweddol mewn ymateb cydgysylltiedig i ddatblygu diwylliant sy'n gwrthwynebu Trais yn y Cartref ac sy'n cefnogi dioddefwyr.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

1. Mae angen amddiffyn ansawdd nifer o Wasanaethau Cefnogi tra hefyd yn cydnabod bod rhaid edrych ar ffyrdd newydd o weithio a allai olygu ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau, a hynny er mwyn i arian bychan fynd ymhellach.
2. Rhoddwyd sylw i fylchau mewn gwasanaethau a adnabyddir trwy anghenion mapio. Adnabuwyd hyd yn hyn
   - Y dylid gwella gwasanaethau ar gyfer pobl gyda phroblemau iechyd meddwl
   - Bod angen ymestyn gwasanaethau cefnogi addas i bobl hŷn o bob deiliadaeth.
3. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i adnabod unrhyw ofynion cefnogi penodol ar gyfer cyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a pha fodelau fyddai'n briodol i ddiwallu'r anghenion hyn.

4. Mae Cofrestr Tai Addas Addasedig (yn wreiddiol ar gyfer Tai Cyngor) wedi'i datblygu ac mae'n cynorthwyo pobl ag anableddau i gael cartrefi sy'n addas i'w hanghenion.

## Thema 5 – Cartrefi ar gyfer byw'n hirach

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

a) Mae pobl yn byw'n hirach ac, fel y cyfryw, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o oddeutu 70% yn nifer y bobl dros 85 yn byw ar yr ynys yn y deg mlynedd nesaf. Bydd hyn yn cael effaith ar y mathau o gartrefi sydd eu hangen, yn enwedig felly gan y bydd gan bobl hŷn, fel arfer, gyflwr iechyd tymor hir. Dengys rhagamcanion y bydd niferoedd dros 75 gyda salwch tymor hir sy'n cyfyngu, yn cynyddu 75% erbyn 2030 (Ffynhonnell OPNA- Imogen Blood Associates).

b) Nid yw'r bywydau hir a'r safon byw y mae pobl yn hwyrach yn eu bywydau yn dyheu amdano yn cael ei adlewyrchu yn y modd y mae tai a chymunedau wedi'u cynllunio. Bellach mae hyn yn ystyriaeth lawer mwy canolog. Mae dinasyddion hŷn eu hunain a'r gwasanaethau sy'n eu cefnogi e.e. gweithwyr gofal ac iechyd a'r sector gwirfoddol yn cael eu cydnabod fel partneriaid hanfodol i ganfod yr atebion cywir i anghenion sy'n newid. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor eisoes wedi nodi trawsnewidiad Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn yn faes gwaith allweddol. Mae llwyddiant gweledigaeth y Cyngor yn golygu bod angen i wasanaethau cymunedol, sy'n cynnwys y tŷ cywir, weithio gyda'i gilydd i roi i ddinasyddion hŷn ddewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

c) Cynhaliwyd asesiad manwl o anghenion tai a chefnogi'r boblogaeth hŷn ar ran Cyngor Sir Ynys Môn yn 2013. Ymhlith y dystiolaeth ar gyfer yr asesiad roedd cyfweliadau gyda dinasyddion hŷn ar yr ynys ynghylch eu barn a'r hyn y byddai'n well ganddynt o ran dewisiadau tai posib yn y dyfodol i bobl hŷn. Mae'r asesiad, yn gywir, yn edrych yn gyfannol ar dai, cefnogaeth a gofal fel yr holl elfennau y mae gofyn eu cael yn eu lle fel bod modd i bobl aros yn annibynnol yn eu cymunedau. Bydd y Strategaeth Dai hon yn cyfrannu at gyflawni'r gwasanaethau cefnogi sy'n gysylltiedig â thai annibynnol a thai cysylltiedig sydd eu hangen.

d) Mae tystiolaeth nad yw'r stoc tai, sydd â nod o ddarparu ar gyfer pobl hŷn, wastad yn cyfateb anghenion â dewisiadau pobl hŷn yr ynys. Yn gryno, dyma yw'r sefyllfa bresennol:
   - Cyngor Sir Ynys Môn sy'n darparu'r rhan fwyaf o gartrefi ar yr ynys sydd wedi'u llunio'n benodol ar gyfer pobl hŷn. Mae'r stoc hwn yn cynnwys dros 700 o gartrefi (fflatiau a byngalos yn bennaf) a gedwir ar gyfer pobl hŷn ond nad oes â gwasanaethau cefnogi cysylltiedig, a 556 tŷ gwarchod.
   - Agorodd cynllun tai Gofal Ychwanegol cyntaf yr ynys – cynllun sy'n cael ei redeg gan gymdeithas tai Grŵp Cynefin - yng Nghaergybi. Er hynny, mae angen codi llawer mwy o gartrefi arbenigol a all gynnig gwahanol lefelau o ofal a chefnogaeth er mwyn diwallu anghenion pobl sy'n dymuno byw'n annibynnol ond y mae arnynt angen cymorth gydag amrywiaeth o dasgau beunyddiol. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o dai ymddeol preifat ac mae'n debygol bod angen i hyn gynyddu er mwyn adlewyrchu'r ffaith bod y rhan fwyaf o bobl hŷn y gallai bod arnynt angen tai gyda chefnogaeth ychwanegol yn berchen-feddianwyr.

e) Cydnabyddir bod hwn yn faes gwaith cymhleth lle mae'r galw sylfaenol am wahanol fathau o dai yn cynnwys tai gwarchod, Gofal Ychwanegol a chartrefi'r prif lif, yn dibynnu ar ffactorau'n cyd-adweithio - ffactorau sy'n cynnwys anghenion iechyd pobl hŷn, y dymuniad i gael dewis (y dewis y mae pobl, felly, yn ei wneud) a bod gwasanaethau ar gael - gwasanaethau megis cefnogi, gofal a chludiant. Mae rhaid cydbwyso'r agweddau hyn yn erbyn ei gilydd wrth wneud penderfyniadau ynghylch darparu tai i ddinasyddion hŷn.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

a) Bydd cynllun Gofal Ychwanegol wedi'i ddarparu ar gyfer rhent cymdeithasol yn bennaf.
b) Bydd rhagor o gynlluniau Gofal Ychwanegol yn y cyfnod cynllunio
c) Bydd Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn, y mae disgwyl iddo gael ei fabwysiadu gan y Cyngor yn hwyrach ymlaen yn y flwyddyn, yn arwain dull gweithredu sy'n ailfodelu cefnogaeth a gofal cartref sy'n gysylltiedig â thai fel ei fod yn medru diwallu'n well anghenion pobl hŷn sy'n byw ym mhob deiliadaeth. Bydd cefnogaeth yn cael ei threfnu o amgylch canolfannau cymunedol a'r Cynlluniau Gofal Ychwanegol newydd. Byddai'r gwasanaeth yn medru cynnig cefnogaeth briodol ar draws sbectrwm o anghenion yn cynnwys hen bobl fusgrell a'r rhai â dementia.
d) Bydd Gwasanaethau Tai'r Cyngor wedi adolygu ei ddull gweithredu o ran tai i bobl hŷn. Bydd, yn arbennig, wedi ystyried y tai gwarchod y mae'n eu darparu i sicrhau bod yr adnodd tai hwn yn cael ei ddefnyddio er mwyn diwallu orau anghenion tai'r ynys.
e) Bydd cyngor addas ar gael pan fydd ar bobl hŷn ei angen er mwyn cynorthwyo wrth weithiau wneud penderfyniadau anodd ynghylch tai.
f) Bydd pobl hŷn sy'n byw yn y sector preifat yn parhau i gael eu cefnogi i aros yn saff ac yn ddiogel yn eu cartref eu hunain trwy gymorth i drefnu atgyweiriadau, gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n rhoi Grantiau Cyfleusterau Anabl a gwasanaeth 'dyn pob dim' sy'n cynorthwyo gyda mân atgyweiriadau / tasgau cynnal a chadw.

## Thema 6 – Gwireddu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

**Pam fod hwn yn fater pwysig i Fôn?**

a) Gall tai fod yn offeryn ar gyfer gwaith adfywio. Gall tai newydd a thai sydd wedi'u hadnewyddu ddod â budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd gyda Gwynedd wrthi'n cael ei ddatblygu ac mae disgwyl iddo gael ei fabwysiadu yn 2016/17. Bydd yn cynnig cyfleoedd newydd i godi tai lleol.
b) Mae angen codi tai fforddiadwy a thai ar y farchnad yn briodol er mwyn cefnogi twf economïau trefi a'r cefn gwlad.
c) Gall y farchnad dai leol fod yn sbardunwr mawr o ran twf yr economi. Er enghraifft, gall greu cyflogaeth a chynorthwyo i sicrhau bod tai a lleoedd atyniadol ar gael i gadw pobl ifanc a gweithwyr medrus yn yr ardal. Gall tai newydd hefyd gynyddu refeniw treth leol a gwerthiannau cyflenwadau adeiladu.
d) Yn yr un modd, mae'r isod hefyd yn ffynhonnell o arian ychwanegol i'r economi lleol a gall, o bosib, gynyddu gan agwedd yr awdurdod lleol at y strategaeth dai

- Mae'r sector tai cymdeithasol yn rhoi symiau mawr o arian yn yr economi lleol trwy ei raglen cynnal a chadw a gwella parhaus.  Mae'r modd y mae'n caffael gwasanaethau'n cael effaith ar ganlyniadau lleol.
- Yn aml iawn mae addasiadau tai y mae ar bobl hŷn a phobl ag anableddau eu hangen, yn creu gwaith i adeiladwyr a chrefftwyr lleol.
- Gallai annog unigolion a landlordiaid i ddefnyddio camau Effeithlonrwydd Ynni hefyd roi cyfleoedd i gontractwyr lleol a gall ddod ag arian grant cyhoeddus i'r ardal.

e) Bydd goblygiadau a gyfyd yn sgil codi adeiladau niwclear newydd a phrosiectau Ynys Ynni eraill yn ymestyn ymhell y tu draw i oes y strategaeth hon.  O'r cychwyn cyntaf roedd ymwybyddiaeth glir o'r budd economaidd i unigolion a'r cyfleoedd o waddol tai cadarnhaol tra bo hefyd ddealltwriaeth o'r peryglon tymor byr i dai lleol yn sgil mewnlifiad o weithwyr dros dro. Rhaid i'r Strategaeth hon roi 'r peirianwaith yn ei le er mwyn cymryd mantais o'r cyfleoedd a'r cynllun i wrthsefyll y peryglon i gyflenwad o dai fforddiadwy yn y tymor byr.

**Beth sydd angen digwydd erbyn 2019?**

a) Bydd Partneriaeth Dai i Fôn yn cael ei sefydlu gyda phartneriaid allweddol o'r tai cymdeithasol, tai sector preifat, iechyd a gwasanaethau cymunedol.  Dylai'r Bartneriaeth hon fod â rôl allweddol yn sicrhau bod y cyfeiriad strategol ar gyfer tai'n cael ei gyfuno gyda thyfu economi'r ynys a'i fod yn cynnwys holl boblogaeth yr ynys gan gynnwys y rhai hynny allai fod yn fwy bregus.

b) Bydd y Cyngor yn parhau i annog mentrau sy'n cefnogi busnesau lleol i dendro am gontractau am waith ar dai cymdeithasol cyfredol a newydd. Er enghraifft, Mae Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn wedi gosod targed y bydd nifer sylfaenol o gynlluniau cynnal a chadw cynlluniedig, traddodiadol yn cael eu caffael trwy Sell2Wales ac mae nifer o gontractau eisoes wedi'u hennill gan gwmnïau lleol. Mae Coleg Menai yn rhoi hyfforddiant sgiliau yn y maes adeiladu ac effeithlonrwydd ynni.

c) Rhoddir blaenoriaeth i wneud y mwyaf o'r budd a geir o gyllid sydd ar gael gan raglenni cyllido effeithlonrwydd ynni cenedlaethol, megis ARBED ac o gyllid ECO sy'n cynorthwyo gyda chynlluniau cartrefi lluosog. Bydd unigolion sy'n byw yn y sector preifat yn parhau i gael cyngor priodol ar effeithlonrwydd ynni.

d) Bydd arian adfywio Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn:
   - Rhoi manteision mawr i dai yng Nghaergybi, gan gynnwys tai marchnad o ansawdd, tai fforddiadwy, tai gwag yn cael eu hailddefnyddio eto a gwelliannau effeithlonrwydd ynni ar gyfer cartrefi sydd wedi'u targedu.
   - Bydd prosiectau tai yn creu cyflogaeth ac yn cynorthwyo i helpu pobl yn ôl i waith.

e) Mewn perthynas â phrosiectau parhaus Ynys Ynni, yn enwedig felly Wylfa Newydd, bydd y Cyngor yn
   - Mynd ati'n frwd i sicrhau manteision tymor hir buddsoddi mewn seilwaith a thai sydd wedi'u hanelu at adeiladwyr
   - Parhau i ymchwilio i sgil-effeithiau gweithwyr dros dro a ddaw i'r ynys ar gyflenwad y tai fforddiadwy a monitro hyn.  Bydd yn mynd ar drywydd gwaith lliniaru effeithiau negyddol trwy, er enghraifft, ystyried canolfan dai i arwain cyflenwad o letyau i weithwyr dros dro.
   - Gwaith i liniaru'r peryglon a gyfyd o brosiectau, yn cynnwys gwaith gyda datblygwyr a diogelu peirianwaith priodol er mwyn sicrhau bod anghenion llety contractwyr o ansawdd da ac yn fforddiadwy.

f) Cymunedau'n Gyntaf yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod manteision uniongyrchol ac anuniongyrchol yn cael eu rhannu gyda'r wardiau mwyaf difreintiedig ar yr ynys.

g) Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i gael cyllid Ewrop, gan gynnwys Cyllid Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd a'r Cynllun Datblygu Gwledig i gynorthwyo i roi sylw i'r agenda gwrthdlodi trwy gamau effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Pwyllgor Sgriwtini |
| **DYDDIAD:** | 25 Medi 2014 |
| **PWNC:** | Ffioedd Cychod Siarter/Pleser 2014/15 |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | Cyng Aled M Jones<br>Cyng Hywel E Jones |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br><br>**Rhif Ffôn:**<br>**Ebost:** | Iwan Huws – Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth ac Arforol<br><br>01248 752493<br>IwanHuws@ynysmon.gov.uk |

## 1.0 ARGYMHELLION

**A1- Cyflwyno'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer penderfyniad gan y Pwyllgor Gwaith.**

**A2- Y polisi codi tâl newydd i gael ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill 2014.**

**A3 – Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir: h.y. un ffi flynyddol o £840 neu ffi flynyddol is o £420 gyda thâl ychwanegol/ardoll o 26c fesul teithiwr. Gall gweithredwr y cwch siartr ddewis y naill opsiwn neu'r llall.**

## 2.0 RHESYMAU

2.1 Ac eithrio'r ffioedd blynyddol ar gyfer gweithredwyr cychod pleser masnachol (tripiau i weld golygfeydd/pysgota/antur), mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu'r holl ffioedd a thaliadau eraill (angori, cofrestru a lansio ac ati) ar gyfer eu hôl-ddyddio o 1 Ebrill 2014. Mae biliau ar gyfer ffioedd angori bellach wedi cael eu hanfon gydag incwm yn dod i mewn i'r gyllideb arforol ar gyfer Ch2.

2.2 Mae'r elfen hon o'r ffioedd a'r taliadau arforol wedi bod yn gynhennus, sef y rheswm am gyflwyno'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini. Gweithredwyr ym Mhorth Amlwch a'r bobl sy'n defnyddio'r pier ym Miwmares sydd yn bennaf wedi mynegi pryderon. Mae'r holl Aelodau Lleol wedi cael eu dwyn i mewn i'r ddadl hon mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Mae gweithredwyr hefyd yn defnyddio Pier San Siôr ym Mhorthaethwy ac mae un cwch siarter yn rhedeg o'r Doc Pysgota yng Nghaergybi.

2.3 Ym Mhorth Amlwch y mae'r cefndir i'r anghydfod hwn ynglŷn â ffioedd a thaliadau oherwydd yno y gwelwyd anghysonderau hanesyddol o ran ffioedd angori ynghyd â'r ffioedd a godwyd ar gyfer cychod trwyddedig ar gyfer cludo teithwyr (cychod siarter). Roedd cysoni'r ffioedd hyn yn golygu cynnydd sylweddol yn y ffioedd blynyddol i berchenogion cychod siarter ym Mhorth Amlwch. Yn **Atodiad 1** ceir dadansoddiad pum mlynedd o'r ffioedd ym Mhorth Amlwch. Yn 2013/14, chafodd y ffioedd ar gyfer cychod siarter mo'u mabwysiadu ac erys "anghydfod" yn eu cylch gyda'r gweithredwyr. Fodd bynnag, eglurwyd i Grŵp Defnyddwyr Porth Amlwch y bydd y ffioedd ar gyfer 2013/14 yn cael eu casglu. Mae adroddiad Archwilio Mewnol yn ddiweddar wedi dwyn sylw at yr anghysondeb hwn a bydd yn cael ei gywiro yn y biliau a anfonir at weithredwyr ym Mhorth Amlwch yn dilyn mabwysiadu'r ffioedd cychod siarter ar gyfer 2014/15 (yr adroddiad hwn).

2.4 Yn **Atodiad 2** ceir dadansoddiad SWOT o'r 4 porthladd/harbwr arforol yr ydym ni'n Awdurdod Porthladd Statudol ar eu cyfer. Mae adolygiad o'r cyfleusterau hamdden hefyd wrthi'n cael ei gynnal gan URS Infrastructure & Environment UK Ltd ("URS") a chyhoeddir yr adroddiad terfynol yn o fuan. Bydd prosbectws a fydd ar gael i'r cyhoedd yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'r comisiwn hwn ac ynddo, amlinellir yr asedau a'r cyfleusterau arforol sydd ar gael yn y 4 cyfleuster. Yn yr adroddiad llawn hefyd, amlinellir natur a chyflwr strwythurol y 4 cyfleuster. Dengys y dadansoddiad SWOT fod pob un o'r cyfleusterau yn wahanol iawn a'i bod yn amhosib bron cymharu tebyg gyda'i debyg.

## 3.0 TWRISTIAETH

3.1 Mae twristiaeth ar Ynys Môn yn dibynnu'n drwm ar y tywydd. Yr un modd, mae gweithredwyr cychod siarter yn dibynnu ar dywydd da i gynnal tripiau ar y môr. Mae Biwmares fel cyrchfan i dwristiaid mewn cynghrair hollol wahanol i Amlwch er bod buddsoddiad newydd yn y Porthladd megis Canolfan Dreftadaeth y Deyrnas Gopr a chaffi'r Llofft Hwyliau wedi cynyddu apêl Amlwch fel cyrchfan i dwristiaeth yng ngogledd Ynys Môn. Mae gweithredwyr o'r pier ym Miwmares yn elwa o nifer uchel o deithwyr ynghyd â mynediad llanwol 24 awr o gymharu â'r harbwr llanwol yn Amlwch.

3.2 Dim ond llond llaw o berchenogion cychod siartr sy'n gwneud bywoliaeth o'r gweithgaredd hwn ar yr Ynys. Fodd bynnag, maent yn lleiafrif lleisiol iawn! Mae'r atyniad o gael gweithredwyr o'r fath mewn cyrchfan yn amlwg a dylid eu hannog. Ni ddylid anghofio y buddsoddwyd £2.6m i adnewyddu pier a phontŵn Biwmares gyda'r nod y byddai hynny'n rhoi mwy o gyfle i ychwaneg o weithredwyr redeg gwasanaethau o'r pier gan arwain at greu mwy o swyddi yn sgil y buddsoddiad. Nid yw Porth Amlwch, Porthaethwy neu'r Doc Pysgod wedi cael buddsoddiad cyfalaf o'r fath yn eu cyfleusterau nhw. Mae hyn yn rhan o astudiaeth URS.


## 4.0 <u>OPSIYNAU O RAN CODI FFIOEDD</u>

4.1 Yn **Atodiad 3** cyflwynir 6 opsiwn ar gyfer sgriwtini. Mae’r opsiynau’n cynnwys un gyfradd ynghyd â thalu ffi ychwanegol/ardoll fesul teithiwr - neu’r “dreth twristiaid”. Mae pob opsiwn yn cael ei ddadansoddi a’i gyflwyno i’w drafod. Mae’n amser anodd i gyllid llywodraeth leol ac mae angen ymchwilio i unrhyw gyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn ofalus wrth bennu’r ffioedd hyn oherwydd gallai colli gweithredwyr gael effaith ar boblogrwydd Ynys Môn fel cyrchfan i dwristiaid gyda’r amrediad o atyniadau a gweithgareddau y mae’n eu cynnig i ymwelwyr. Yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan ar gyfer 2012-16, dygir sylw arbennig at bwysigrwydd arfordir yr ynys a’r gweithgareddau cysylltiedig sy’n gwneud Ynys Môn yn gyrchfan boblogaidd mewn cyfnod cystadleuol iawn. Rhaid i ni annog amrywiaeth o ran yr hyn yr ydym yn ei gynnig i dwristiaid ac mae cael busnesau cychod siarter sy’n economaidd hyfyw yn bwysig i dwristiaeth ar Ynys Môn.

**Awdur:** Iwan Huws
**Teitl y Swydd:** Prif Swyddog Datblygu Twristiaeth ac Arforol
**Dyddiad:** 17eg Medi 2014

| |
|---|
| ATODIAD 1- Dadansoddiad pum mlynedd o’r ffioedd ym Mhorth Amlwch.<br><br>ATODIAD 2 – Dadansoddiad SWOT o’r 4 porthladd/harbwr arforol yr ydym ni’n Awdurdod Porthladd Statudol ar eu cyfer.<br><br>ATODIAD 3 – Chwech opsiwn/argymell. |

**ATODIAD 1**



Amlwch Port Mooring Fees
2009/10 to 2013/14
£1,000.00
£900.00
£800.00
£700.00
£600.00
£500.00
£400.00
£300.00
£200.00
£100.00
£0.00
£944.63
£592.51
£610.91
£500.52
£510.02
£390.45
£370.20
2009/10
2010/11
2011/12
2012/13
2013/14
Mooring Licence Fees 10 metre boat per year
Amlwch Licensed Vessels up to 12 Passengers Full Year
Amlwch Licensed Vessels up to 12 Passengers Summer Only including mooring
Pysgota Masnachol Commercial Fishing
Linear (Mooring Licence Fees 10 metre boat per year
Linear (Amlwch Licensed Vessels up to 12 Passengers Full Year
Linear (Pysgota Masnachol Commercial Fishing)

**ATODIAD 2**

| | AMLWCH | |
|---|---|---|
| **Mynediad o'r môr** | 24awr<br>18awr<br><15awr | Peniau<br>Basn y tŵr goruchwylio<br>Harbwr mewnol |
| **Mynediad (teithwyr sy'n mynd ar/dod oddi ar gychod)** | 18 o 24awr | Grisiau ym masn y tŵr goruchwylio |
| **Bynceri** | Oes | Ar y safle/neu drwy bwmp neu dancer |
| **Cysgod** | Gweddol/Da | Gwael iawn mewn gwyntoedd Gogleddol, achosi ymchwydd a thonnau yn yr harbwr.<br>Materion diogelwch o ran cael teithwyr ar gychod pan mae ymchwydd (am gyfnod cyfyngedig pan fydd y llanw allan a'r cychod ar wely'r môr) |
| **Parcio** | Cyfyngedig | 40/50 (am ddim) |
| **Nifer cerddwyr** | Cyfyngedig | Wedi cynyddu ers agor y Deyrnas Gopr ond yn parhau i fod yn isel iawn |
| **Pellter i ardaloedd pysgota** | 1nm | |
| **Costau ychwanegol ar gyfer angora** | £200 | Rhaffau a ffendrau |
| **Angorfa / cyfleusterau cynnal a chadw** | Angorfa cynnal a chadw ar gael | Cael storio am ddim am 21 diwrnod yn y peniau ar y cei |

| | **MOEL Y DON** | |
|---|---|---|
| **Mynediad o'r môr** | 18 o 24 awr | Glanfa Gerrig |
| **Mynediad (teithwyr sy'n mynd ar/dod oddi ar gychod)** | 18 o 24awr | Glanfa Gerrig |
| **Bynceri** | Na | Gyda phwmp neu dancer |
| **Cysgod** | Gweddol | Gwael iawn mewn gwyntoedd o'r Gogledd Ddwyrain neu'r De Orllewin |
| **Parcio** | Cyfyngedig | 10/12 (angen trwydded) |
| **Nifer cerddwyr** | Cyfyngedig | |
| **Pellter i ardaloedd pysgota** | 13nm | |
| **Costau ychwanegol ar gyfer angora** | £200 | Rhaffau a ffendrau |
| **Angorfa / cyfleusterau cynnal a chadw** | Dim angorfa cynnal a chadw ar gael | |

| | BIWMARES | |
|---|---|---|
| **Mynediad o'r môr** | 24 awr | |
| **Mynediad (teithwyr sy'n mynd ar/dod oddi ar gychod)** | 24 awr | Pontŵn neu risiau cerrig pan mae'r llanw'n uchel |
| **Bynceri** | Na | Gyda phwmp neu dancer |
| **Cysgod** | Gweddol/da | Gwael iawn mewn gwyntoedd o'r Gogledd Ddwyrain neu'r De Ddwyrain Problemau diogelwch difrifol o ran cael at y cychod sydd wedi angori mewn tywydd garw |
| **Parcio** | Dim | 800 o lecynnau mewn 3 o feysydd parcio o fewn chwarter milltir |
| **Nifer cerddwyr** | Uchel | Nifer uchel iawn yn ystod y tymor prysur |
| **Pellter i ardaloedd pysgota** | 9nm | |
| **Costau ychwanegol ar gyfer angori** | £2,500 y flwyddyn<br><br>£200 | Costau cynnal a chadw angorfeydd<br>Rhaffau a ffendrau |
| **Angorfa / cyfleusterau cynnal a chadw** | Dim angorfa cynnal a chadw ar gael | |

| | **CAERGYBI** | |
|---|---|---|
| **Mynediad o'r môr** | 24 awr | Angen caniatâd gan reolwyr y porthladd |
| **Mynediad (teithwyr sy'n mynd ar/dod oddi ar gychod)** | 24 awr | Pontŵns |
| **Bynceri** | Oes | Ar y safle / neu gyda phwmp neu dancer |
| **Cysgod** | Gweddol/da | Gwael iawn mewn gwyntoedd o'r Gogledd Ddwyrain neu'r Gogledd Orllewin |
| **Parcio** | Cyfyngedig | 20/25 (am ddim) |
| **Nifer cerddwyr** | Dim | |
| **Pellter i ardaloedd pysgota** | 3nm | |
| **Costau ychwanegol ar gyfer angora** | £200 | Rhaffau a ffendrau |
| **Angorfa / cyfleusterau cynnal a chadw** | Dim angorfa cynnal a chadw ar gael | |

SYLWER: Nid yw'r doc pysgota'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd

| | PORTHAETHWY | |
|---|---|---|
| **Mynediad o'r môr** | 24 awr | |
| **Mynediad (teithwyr sy'n mynd ar/dod oddi ar gychod)** | 20 o 24 awr | Pontŵns ar ochr fewnol y pier<br>Mynediad cyfyngedig ar y tu allan oherwydd Prince Madog |
| **Bynceri** | Na | Bynceri ar gael drwy gwmni preifat ym Mhorth Daniel |
| **Cysgod** | Gweddol/da | Gwael iawn mewn gwyntoedd o'r Gogledd Ddwyrain |
| **Parcio** | Cyfyngedig | 10/12 angen trwydded<br>200 o lecynnau parcio mewn 3 maes parcio o fewn chwarter milltir |
| **Nifer cerddwyr** | Cyfyngedig | Wedi cynyddu ers i 'Dylan's' agor |
| **Pellter i ardaloedd pysgota** | 13nm | |
| **Costau ychwanegol ar gyfer angora** | £200 | Rhaffau a ffendrau |
| **Angorfa / cyfleusterau cynnal a chadw** | Dim angorfa cynnal a chadw ar gael | |

## Atodiad 3

| OPSIYNAU | MEINI PRAWF | Cost | Cost (+TAW) | Creu Incwm i CSYM | Hawdd i'w Weinyddu | Ffioedd Cyfartal i Bawb | Opsiynau ar gyfer y Defnyddiwr | *Crynodeb* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 1 -13/14**<br><br>Cychod pleser trwyddedig y flwyddyn<br>Cwch / Cychod eraill (yr un cwmni)<br>Cychod pleser trwyddedig – haf yn unig (Ebrill/Medi)<br>Tâl ychwanegol/teithiwr sy'n talu (Biwmares yn unig)<br>Cychod/tripiau trwyddedig | | <br><br>£644.52<br>£320.08<br><br>£469.01<br><br>£ 0.21<br><br>£ 20.83 | <br><br>£773.42<br>£384.10<br><br>£562.81<br><br>£ 0.25<br><br>£ 25.00 | **YDY** | **YDY** | **NA** | **OES** | Prisiau 2013/14 |
| **Option 2 – 5%**<br>Cychod pleser trwyddedig y flwyddyn<br>Cwch / Cychod eraill (yr un cwmni)<br>Cychod pleser trwyddedig – haf yn unig (Ebrill/Medi)<br>Tâl ychwanegol/teithiwr sy'n talu (Biwmares yn unig)<br>Cychod/tripiau trwyddedig | | <br>£697.75<br>£336.08<br><br>£492.46<br><br>£ 0.22<br><br>£21.87 | <br>£837.30<br>£403.30<br><br>£590.95<br><br>£ 0.26<br><br>£ 26.24 | **YDY** | **YDY** | **NA** | **OES** | +5% (yn unol â chyfarwyddiadau'r cyngor)<br><br>Dyma'r targed o ran incwm ac o'r herwydd, dylid ei ddefnyddio fel gwaelodlin |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Opsiwn 3 – Cyfradd uwch/Ffi Ychwanegol Is**<br>Cychod pleser trwyddedig y flwyddyn<br>Cwch / Cychod eraill (yr un cwmni)<br>Cychod pleser trwyddedig – haf yn unig (Ebrill/Medi)<br>Cychod pleser trwyddedig y flwyddyn<br>Tâl ychwanegol/teithiwr sy'n talu<br>Cychod/tripiau trwyddedig | £700.00<br>£336.08<br>£492.46<br>£350.00 +ffi ychwanegol<br>£ 0.22<br>£ 21.87 | £840.00 *<br>£403.30 *<br>£590.95 *<br>£420.00 +ffi ychwanegol<br>£ 0.26<br>£ 26.24 * | **YDY** | **YDY** | **YDY** | **YDY** | Yr un gyfradd ar yn achos y cyfan sydd wedi eu marcio gyda*<br><br>Ffi ychwanegol ar y gyfradd is yn unig. (Fodd bynnag, rhaid, rhoi gwybod bob mis am nifer y teithwyr, bydd unrhyw wybodaeth sy'n hwyr neu'n anghywir yn golygu y codir y ffi lawn) |
| **Opsiwn 4 – Cyfradd is/Ffi Ychwanegol Uwch**<br>Cychod pleser trwyddedig y flwyddyn<br>Cwch / Cychod eraill (yr un cwmni)<br>Cychod pleser trwyddedig – haf yn unig (Ebrill/Medi)<br>Tâl ychwanegol/teithiwr sy'n talu<br>Cychod/tripiau trwyddedig | £500.00<br>£280.00<br>£400.00<br>£ 0.30<br>£ 30.00 | £600.00<br>£336.00<br>£480.00<br>£ 0.36<br>£ 36.00 | **YDY** | **YDY** | **YDY** | **YDY** | Gostwng y ffioedd safonol a chodi'r ffi ychwanegol i bawb<br><br>Byddai hyn yn dibynnu ar dymor llwyddiannus er mwyn cyrraedd y targedau. |
| **Opsiwn 5 – Cyfradd Is yn unig**<br>Cychod pleser trwyddedig y flwyddyn<br>Cwch / Cychod eraill (yr un cwmni)<br>Cychod pleser trwyddedig – haf yn unig (Ebrill/Medi)<br>Cychod/tripiau trwyddedig | £500.00<br>£280.00<br>£400.00<br>£ 21.87 | £600.00<br>£336.00<br>£480.00<br>£ 26.24 | **NA** | **YDY** | **YDY** | **YDY** | Cyfradd is a dim ffi ychwanegol |
| **Opsiwn 6 – Dim ffioedd o gwbl**<br>Cychod pleser trwyddedig y flwyddyn<br>Cwch / Cychod eraill (yr un cwmni)<br>Cychod pleser trwyddedig – haf yn unig (Ebrill/Medi)<br>Tâl ychwanegol/teithiwr sy'n talu<br>Cychod/tripiau trwyddedig | £0.00<br>£0.00 | | **NO** | **YDY** | **YDY** | **NA** | Dim ffioedd o gwbl |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I :** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth** |
| **DYDDIAD:** | **25/09/14** |
| **PWNC:** | **Rhaglen Waith ar gyfer Bwrdd Cyflawni Integredig Ynys Môn ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y Cynghorydd Kenneth Hughes** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Margaret Peters**<br>**01248 751812**<br>**MargaretPeters@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Gofyn i'r Pwyllgor Sgriwtini gymeradwyo'r rhaglen waith ar gyfer **Bwrdd Cyflawni Integredig Ynys Môn (BCI) ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac i gyflwyno sylwadau arni.**

## 2.0 Cefndir

Ym mis Ionawr 2014, cymeradwyodd Pwyllgor Gwaith y Cyngor a Thîm Gweithredol BIPBC gamau i sefydlu BCI ar y cyd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Ynys Môn i sicrhau bod modd cwrdd yn well ag anghenion y boblogaeth leol trwy sicrhau **integreiddiad gwell** rhwng gwasanaethau'r Awdurdod Iechyd a gwasanaethau'r Awdurdod Lleol. Nododd Pwyllgor Gwaith y Cyngor y dylid cyflwyno cynllun gweithredu ar y cyd i'w ystyried gan y Cyngor yn ystod Hydref 2014. Cyflwynir yr adroddiad hwn hefyd i Fwrdd Gweithredol BIPBC.

Un o'r argymhellion allweddol yn dilyn gweithdy datblygiad strategol a gynhaliwyd ym Mawrth 2013 oedd yr angen i sefydlu BCI ar gyfer gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol yn Ynys Môn.

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddogfen Ymgynghorol ('Fframwaith ar gyfer gwasanaethau Integredig i Bobl Hŷn gydag Anghenion Cymhleth': David Sissling) sy'n nodi'r gofynion a'r disgwyliadau ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i gyflymu'r broses o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwreiddio'r rhain yn y ddarparieth o wasanaethau prif-ffrwd erbyn diwedd Rhagfyr 2014 er mwyn hwyluso mynediad i wasanaethau a gwella canlyniadau i ddinasyddion.

## 2.1 Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru

Roedd y ddogfen ‘Fframwaith Gwasanaethau Integredig’ yn rhoi disgwyliad ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol ar lefel ranbarthol i gynhyrchu ‘**Datganiad o Fwriad’** sy’n amlinellu’r sefyllfa gyfredol a bwriadau i’r dyfodol o ran cynhyrchu Rhaglen Waith a fydd yn hyrwyddo cydweithio mwy ffurfiol i ddarparu a gwreiddio gwasanaethau integredig o fewn y ddarpariaeth prif-ffrwd erbyn diwedd 2014. Fel ymateb, mae Datganiad o Fwriad gan y 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i ddarparu gwasanaethau integredig ar gyfer Pobl Hŷn gydag Anghenion Cymhleth wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghyd â’r cynllun gweithredu perthnasol.

Er bod y ddogfen Fframwaith yn dweud bod rhaid i’r Datganiad o Fwriad ganolbwyntio ar Bobl Hŷn gydag Anghenion Cymhleth mae ynddo gydnabyddiaeth hefyd y dylid mabwysiadu’r dull hwn ar gyfer yr holl grwpiau defnyddwyr yn y dyfodol.

Mae’r BCI wedi dewis mabwysiadu ymagwedd ehangach o’r fath o’r cychwyn cyntaf ac mae’r Datganiad o Fwriad yn dod o fewn cylch gorchwyl a sgôp y Bwrdd a’r cynllun gweithredu arfaethedig.

## 2. 2 Nodau, Amcanion ac Atebolrwydd y BCI

Nodau ac amcanion y BCI yw gweithio tuag at ddarparu ‘gwasanaethau sengl’. Mae hyn yn cynnwys gwella aliniad cynlluniau busnes, cyllidebau a diwylliannau sefydliadol. Bydd y BCI yn cynnwys ystyried dulliau arloesol o ddelio gyda fframweithiau cronni cyllidebau ar gyfer Ynys Môn i wneud y defnydd gorau o’r adnoddau sydd ar gael. Bydd y BCI yn gweithredu fel “fforwm sirol”. Mi fydd y BCI yn cymeryd y cyfle i adolygu’r swyddogaeth yn dilyn y ddatganiad ynglyn ag ail strwythuro BIPBC ag adolygiad y BCLl.

## 2.3 Gyrwyr (Gweithredol a Strategol)

Disgwylir i’r Byrddau Iechyd a’r Awdurdodau Lleol integreiddio gwasanaethau yn y cyd-destun polisi cenedlaethol a amlinellir yn:

- **‘Law yn Llaw at Iechyd’** sy’n amlinellu’r uchelgais ar gyfer gwasanaethau iechyd sy’n canolbwyntio ar y person ac a ddarperir cyn agosed â phosib i’w cartref.
- **‘Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy yng Nghymru’** sy’n rhagweld gwasanaeth gofal cymdeithasol sy’n seiliedig ar asesiadau cludadwy sy’n canolbwyntio ar ganlyniadau a galluogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus, gyda mwy o gysondeb o ran meini prawf a chynllunio gofal.


- Bydd **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn cryfhau yn sylweddol y gofynion fydd ar Fyrddau Iechyd a Llywodraeth Leol i integreiddio gwasanaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn dwyn sylw at bwysigrwydd datblygu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol integredig ar gyfer pob defnyddiwr gwasanaeth.
- **Gosod Cyfeiriad (Datblygu Timau Bro** - Model Môn). Yn y ddogfen 'Gosod Cyfeiriad' gwelwyd gweithio ar sail bro fel conglfaen y model newydd ar gyfer gofal sylfaenol a chymunedol. Yn seiliedig ar boblogaethau o rwng 30,000 a 60,000, mae mwy na 60 o rwydweithiau bro wedi eu sefydlu ar draws Cymru i gynllunio, cydlynu a darparu gwasanaethau i gwrdd ag anghenion pobl sy'n byw yn y gymuned leol. Bydd y BCI yn atgyfnerthu'r cyfeiriad polisi hwn fel y nodir ef yn y ddogfen "Gosod Cyfeiriad".


2.4 **Demograffiaeth a phatrymau (Rheoli galw ac Anghenion Lleol)**

- Rhagwelir y bydd poblogaeth Ynys Môn yn codi 4% o 2006 i 2031.
- Yn 2009 roedd 19.5% o blant Ynys Môn yn byw mewn tlodi
- Yn 2010 roedd 21.9% o boblogaeth gyfan Ynys Môn yn 65+ oed, o gymharu ag 18.6% yng Nghymru gyfan. Hon yw'r gyfradd uchaf ond dau ar draws pob awdurdod lleol yng Nghymru.
- Yn unol â'r diffiniad o blant a phobl ifanc anabl yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd mae 7.3% o blant a phobl ifanc 0-18 oed yn anabl – sy'n cyfateb i oddeutu 1027 o blant gydag anableddau yn 2012.

Cydnabyddir bod angen gweithredu ar y cyd ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau i bobl hŷn, yn arbennig felly yn Ynys Môn lle rhagwelir y bydd y cynnydd canrannol o bobl dros 75 oed yn mynd i ddyblu o 9% i ffigwr syfrdanol o 18% erbyn 2033.

Mae'r disgwyliad oes i ddynion a merched yn Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaledd trwy Gymru fel y gwelir isod.







*Cyf: 'Llywodraeth Cymru, Ystadegau ar gyfer Cymru (Awst 2014) Ystadegau Ardal Leol, Ynys Môn'*

<u>Cofrestrau o gyflyrau cronig</u>

Mae'r diagram isod yn dangos y baich o glefydau a gofnodwyd ac a addaswyd yng nghlwstwr Meddygon teulu Ynys Môn, gan ddangos clystyrau Meddygon Teulu eraill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chymru ar gyfer eu cymharu yn 2012:

| Indicator | Recorded burden of disease: Your Cluster: count | Your Cluster: % | Other Clusters in your Health Board: min % | Other Clusters in your Health Board: max % | Health Board % | Wales % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hypertension | 10,910 | 16.3 | 12.2 | 18.1 | 15.7 | 15.3 |
| Asthma | 4,950 | 7.4 | 6.1 | 7.4 | 6.6 | 6.7 |
| Diabetes | 3,490 | 5.2 | 3.7 | 5.8 | 4.9 | 5.2 |
| CHD | 3,050 | 4.6 | 3.0 | 5.3 | 4.2 | 4.0 |
| COPD | 1,780 | 2.7 | 1.9 | 3.6 | 2.4 | 2.1 |
| Epilepsy | 450 | 0.7 | 0.6 | 0.8 | 0.7 | 0.7 |
| Heart Failure | 800 | 1.2 | 0.8 | 1.2 | 1.0 | 0.9 |




Produced by Public Health Wales Observatory, using Audit+ (NWIS)

*Cyf: GIG Cymru, Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru: Proffiliau Clwstwr Meddygon Teulu, BIPBC*

Mae’r gwybodaeth demograffig yma yn cefnogi pwrpas ac ymrwymiad gweithio’n integredig.

## 2.5 Gweithio gyda’n gilydd

Mae strwythur newidiol y boblogaeth yn golygu mwy o bwysau a mwy o alw am ystod o wasanaethau e.e. gofal iechyd, gwasanaethau preswyl a chartref, tai, lles a gwasanaethau eraill a ddefnyddir gan y boblogaeth. I wneud hyn bydd angen gweithredu ar y cyd ac ymyrryd yn fuan i rymuso a chefnogi pobl (Cynllun Integredig Sengl Gwynedd a Môn 2014).

Oherwydd bod pwysau ar gyllid cyhoeddus, mae ymgysylltu’n effeithiol gyda’n defnyddwyr gwasanaeth a’n cymunedau yn eithriadol o bwysig a bydd y BCI yn canolbwyntio ar drawsnewid gwasanaethau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu halinio a'u defnyddio’n briodol i gwrdd ag anghenion pobl Môn.

Mae hynny’n golygu cryfhau trefniadau i gynllunio a chydlynu gofal a chefnogaeth, gyda'r ddau sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu system gofal cymdeithasol ac iechyd sy'n wirioneddol integredig ac sy'n darparu gofal sy’n canolbwyntio ar y person cyfan. Mae’r system gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu nifer o heriau, yn arbennig felly mewn perthynas ag integreiddio. Gellir priodoli’r heriau hynny i:

- Cynnydd yn nifer y bobl gyda chyflyrau tymor hir (oedolion a phlant), cynnydd yn nifer y bobl a chanddynt mwy nag un cyflwr a phoblogaeth sy’n heneiddio.
- Gofal tameidiog.
- Pwysau iechyd cyhoeddus a mwy o anghyfartaleddau iechyd.
- Llai o gyllid gyda mwy o ddisgwyliadau a galw.

Bydd y BCI yn darparu’r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â ffrydiau gwaith / prosiectau penodol ar gyfer gweithio integredig megis:

- Un Pwynt Mynediad ar gyfer Gwasanaethau i Oedolion
- Gwasanaethau Arbenigol Plant (Cytundeb Adran 33)
- Gwasanaeth Iechyd Meddwl Integredig i Oedolion yn y Gymuned
- Gweithwyr Cymorth Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaeth / Tîm Cymorth Teulu Integredig
- Prosiectau Cronfa Gofal Canolraddol (yn benodol y timau gofal cymdeithasol ac iechyd aml-ddisgybledig a gyd-leolir a chymorth cymunedol 7 diwrnod ar gyfer Ynys Môn).

Mae’r cynlluniau hyn yn tystiolaethu traddodiad cryf o ymgysylltu a chydweithio. Serch hynny, mae’n amlwg y gellid sicrhau rhagor o fanteision try aliniad strategol gwell a threfniadau llywodraethu gwell ar gyfer y ffrydiau gwaith unigol hyn.

## 2.6 **Adnabod Meysydd Blaenoriaeth a manteision**

Cynhaliwyd sesiynau gweithdai ar gyfer yr holl gydranddeiliaid i nodi blaenoriaethau a rennir yn seiliedig ar yrwyr a chyfrifoldebau'r sefydliadau. Mae'r ddwy asiantaeth wedi ymgysylltu'n dda gan gynnwys aelodau o'r Awdurdod lleol a'r Bwrdd Iechyd. Mae'r rhaglen waith hefyd wedi cynnwys sesiwn gydag uwch reolwyr a rheolwyr canol yn y ddwy asiantaeth ynghyd â sesiwn bwrpasol i sicrhau'r blaenoriaethau a nodwyd gan bartneriaid yn y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol.

Mae'n hollbwysig nad yw penderfyniadau i flaenoriaethu gwasanaethau yn seiliedig ar yr hyn a gredir yn reddfol, gwybodaeth anghyflawn ac nad ydynt yn gwrthdaro gydag amcanion strategol y GIG a Gofal Cymdeithasol. Bydd angen egluro'r effaith ar iechyd a gofal cymdeithasol pan fo penderfyniadau yn cael eu gwneud i ddarparu gwasanaethu ar gyfer rhai meysydd ac nid eraill.

Rhaid i unrhyw fframwaith blaenoriaethu felly ddarparu proses gadarn, tryloyw a theg i:

- Gynyddu hyder y cyhoedd a'r claf;
- Bod yn fwy effeithlon o ran ei weithrediad;
- Alinio adnoddau i strategaethau a pholisïau y cytunwyd arnynt sy'n gwella iechyd a lles y boblogaeth ac ansawdd y gwasanaethau;
- Sicrhau bod anghenion sy'n cystadlu â'i gilydd yn cael gwrandawiad teg;
- Darparu gwell gwerth am arian a gofynion dyrannu cyllideb;
- Dilysu'r broses o wneud penderfyniadau;
- Cwrdd â gofynion llywodraethu corfforaethol da;
- Bod yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn os oes modd;
- Llywio a hyrwyddo cynllunio priodol i gwrdd ag anghenion i'r dyfodol.

Bydd angen datblygu ac adfywio gwasanaethau i sicrhau eu bod yn cwrdd â safonau ansawdd a manylebau.

Yn seiliedig ar wybodaeth a gafwyd gan y BCI a'r sesiynau ar y cyd, nodwyd yr isod fel y blaenoriaethau allweddol a fydd yn rhoi sylw i'r anghenion darparu brys a'r gofynion datblygu i'r tymor canol ar gyfer y ddwy asiantaeth:

i) **Cronfa Gofal Canolraddol – prosiectau gofal cymdeithasol ac iechyd integredig**

Canlyniad: Gwasanaethau integredig, lleol, cymunedol ar draws Gofal Cymdeithasol ac Iechyd sy'n darparu gwasanaeth llyfnach a mwy effeithiol. Grymuso pobl hŷn ar ynys Môn trwy roi iddynt gymaint o annibyniaeth, dewis a rheolaeth a phosib yn eu gofal i'r dyfodol.

Bydd darparu'r prosiectau hyn yn effeithiol yn cael effaith gadarnhaol ar ofal nad yw wedi ei drefnu ac yn gostwng nifer y mynediadau diangen i'r ysbyty.

Mae enghreifftiau yn cynnwys gweithredu prosiectau fel y cynllun peilot ar gyfer y timau gofal cymdeithasol ac iechyd amlddisgyblaethol a gydleolir yn y feddygfa yn Amlwch a Chartref Preswyl Plas Mona yn Ynys Môn a darparu cymorth gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol yng nghartrefi'r bobl eu hunain. Bydd y ffocws ar y prosiectau hyn yn y flwyddyn gyntaf. Bydd y galw am ofal nad yw wedi ei drefnu yn Ynys Môn yn cael ei fapio allan a gwneir gwaith ymchwil ynghylch ymyraethau posib i ostwng y galw a chynnal annibyniaeth. Treialu newidiadau sy'n cael effaith fawr au gwerthuso.

ii) **Gwasanaethau Arbenigol Plant**

Canlyniad: Gwasanaethau integredig ar gyfer plant a phobl ifanc ar ffurf gwasanaeth un-stop gyda llwybrau clir ar gyfer ymateb aml-asiantaethol, fel bod trefniadau yn glir, yn syml ac yn gwneud synnwyr i deuluoedd.

Mae tîm gofal cymdeithasol ac iechyd amlddisgyblaethol ar gyfer plant gydag anableddau wedi bod yn rhedeg am nifer o flynyddoedd. Yn 2011 dechreuodd gwaith i ddatblygu cytundeb adran 33 ffurfiol rhwng y Gwasanaethau Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel sail ar gyfer datblygu gwasanaeth mwy integredig dan un strwythur rheoli. Mae'r cytundeb Adran 33 bellach wedi ei wneud am mae Rheolwr Gwasanaeth Integredig wedi dechrau yn y swydd ers 2013. Mae model gwasanaeth cyd-gynhyrchiol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd mewn ymgynghoriad gyda chydranddeiliaid allweddol a theuluoedd plant gydag anableddau / cyflyrau iechyd tymor hir.

iii) **Y 'Drws Ffrynt' ar gyfer Gwasanaethau Plant**

Canlyniad: Cynorthwyo pobl Ynys Môn i fyw'n ddiogel gyda'u teuluoedd, sy'n gwella canlyniadau ar gyfer plant ac sy'n gostwng dibyniaeth ar wasanaethau arbenigol drud.

Cynhaliwyd adolygiad o 'ddrws ffrynt' y Gwasanaethau Plant, yn edrych ar brosesau i ymateb i atgyfeiriadau, y trothwyon a ddefnyddir ar wahanol gamau yn y llwybr

gwasanaeth.  Adroddir bod rhan fawr o gyllideb y Gwasanaethau Plant yn cael ei wario ar ymyraethau fel lleoliadau maethu a phreswyl i 'blant y gofelir amdanynt' o gymharu â'r gwariant a wneir ar ymyraethau sy'n rhwystro i anawsterau waethygu.  Mae rhaglen yn cael ei rhoi at ei gilydd i drawsnewid y gwasanaeth, gan ddechrau o'r drws ffrynt. Mae Un Pwynt Mynediad amlasiantaethol yn cael ei ystyried fel rhan o'r rhaglen hon a bydd adroddiad ar gael erbyn Rhagfyr 2014.

Bydd gwaith ataliol yn thema trwy gydol y rhaglen BCI a bydd yn rhan bwysig o'i weledigaeth.  Nod canolog y BCI fydd sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain yn ddiogel a bod asiantaethau yn medru blaenoriaethu eu hadnoddau yn unol ag egwyddorion arferion gorau.

**3.0 Argymhellion**

Bod y Pwyllgor Sgriwtini yn cymeradwyo'r rhaglen waith sydd ynghlwm ar gyfer y BCI fel bod y Bwrdd yn medru cynorthwyo i ddatblygu Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymunedol yn Ynys Môn.

Awdur: Margaret Peters    Teitl y Swydd: Swyddog Gwella Cydweithio
Dyddiad: 16/09/14

| |
|---|
| ATODIAD 1- Rhaglen Waith y BCI a chyfeiriadau'r adroddiadau<br>ATODIAD 2- Rhestr aeoldaeth y BCI |

**Atodiad 1** **14 Gorffennaf, 2014**

**Bwrdd Cyflawni Integredig (BCI) ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Ynys Môn – CYNLLUN GWEITHREDU**



| Ffrwd Gwaith | Camau Gweithredu / Tasgau i'w cyflawni | Erbyn pryd | Gan bwy (aelod sy'n arwain ar y BCI/noddwr) | Statws CAG<br>Coch - Hwyr<br>Ambr – Yn unol â'r amserlen<br>Gwyrdd - Cwblhawyd |
|---|---|---|---|---|
| Datblygu trefniadau llywodraethiant priodol ar gyfer symud y BCI yn ei flaen | Adolygu trefniadau llywodraethiant y BCI yn wyneb newidiadau strwythurol i BIPBC<br>Mapio allan a gwerthuso trefniadau llywodraethiant ar gyfer prosiectau unigol a gwasanaeth integredig sy'n rhan o'r sgôp a gwneud argymhellion ar gyfer gwella/newid yn ôl yr angen | Ionawr 2015 | Andrew Jones gyda chefnogaeth Gwen Carrington | |
| Lleihad yn y galw am ofal heb ei gynllunio | Mapio allan y galw cyfredol am ofal heb ei drefnu ar Ynys Môn<br>Ymchwilio i ymyriadau posibl i leihau'r galw ac i gynnal annibyniaeth. (Croes-gyfeirio gyda gwaith CGC). Arbrofi gyda newidiadau effaith uchel a gwerthuso'r effaith honno. | Parhaus | Craig Barton &<br>Alwyn Jones | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gofal Canolraddol**<br><br>Cronfa Gofal Canolraddol – Arbrofi gyda MDT wedi eu cyd-leoli ar Ynys Môn | Cyd-leoli staff Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn y feddygfa yn Amlwch a Plas Mona yn Llanfair PG (y ddau safle yma i ddechrau gyda'r posibilrwydd o 3ydd a 4ydd safle yn ystod oes y prosiect.<br><br>MDT wedi ei sefydlu yn y ddau leoliad.<br><br>Datblygu proses werthuso.<br><br>Penderfynu ar raglen ar gyfer cyd-leoli pellach gan gynnwys trydydd lleoliad. | Diwedd Awst 2014<br><br>Medi 2014<br><br>Medi/Hydref 2014<br><br>Medi 2014 | Alwyn Jones & Wyn Thomas | |
| Cronfa Gofal Canolraddol – Darparu cefnogaeth iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol 7 niwrnod yr wythnos ar gyfer pobl Ynys Môn | Recriwtio staff<br><br>Y tîm wedi ei sefydlu | Wedi ei gwblhau<br><br>Diwedd Awst<br><br>2014 | Alwyn Jones & Wyn Thomas | |
| Diddymu panelau (nid panelau iechyd a gofal cymdeithasol yn unig) | Nodi'r panelau sydd wedi eu sefydlu'n barod, eu pwrpas, swyddogaeth a threfniadau llywodraethiant<br><br>Nodi cyfleoedd i resymoli ac/neu ddiddymu lle mae hynny'n briodol a'r risgiau a'r camau lliniaru cysylltiedig | Diwedd Hydref / Tachwedd 2014 | Alwyn Jones & Wyn Thomas | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gwaith sgopio ac awdurdodi dirprwyo cyllidebau ar gyfer staff | Uwch reolwr i sgopio/cytuno ar opsiynau ar gyfer eu hystyried gan yr All / BIPBC<br><br>Adolygu'r lefel briodol o ddirprwyaeth ac awdurdodi er mwyn cyflymu'r broses gwneud penderfyniadau | Erbyn Ebrill 2015 | Andrew Jones & Gwen Carrington | |
| Anghenion Demograffig Cymdeithasol poblogaeth Ynys Môn | BCI i benderfynu sut i gasglu gwybodaeth ynghylch adnoddau, costau'r gwasanaethau, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud ynghylch cyllidebau ac anghenion poblogaeth Ynys Môn.<br><br>Cynhyrchu asesiad o anghenion iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r Ddeddf Gofal Cymdeithasol a Lles erbyn (canllawiau Gwanwyn 2015)<br><br>Trefniant Interim: adolygu anghenion iechyd cyfredol, cynhyrchu adroddiadau asesu a chytuno ar y cymhwysedd cyfredol.<br><br>Datblygu map o'r modd y defnyddir adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn deall y sefyllfa gyfredol a siapio cyfeiriad ar gyfer y dyfodol. | Diwedd Ionawr 2015<br><br>I'w benderfynu erbyn 2015<br><br>Erbyn diwedd Ionawr 2015<br><br>Erbyn diwedd Ionawr 2015 | BGLI (Anwen Davies & Sarah Andrews) | |
| Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cymunedol Integredig | Datblygu cyd-ddealltwriaeth o:<br><br>• Integreiddiad cyfredol y gwasanaethau i oedolion ac opmh<br><br>• Sgôp y rhaglen integreiddio arfaethedig | | Mark Couchman & Alwyn Jones | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd Memorandwm o Ddealltwriaeth ar gyfer y gwasanaeth yn cael ei gytuno gan y rheolwyr gweithredol a'i<br><br>gymeradwyo gan yr asiantaethau perthnasol<br><br>Darparu ymateb ar y cyd i ymgynghoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (sgriwtini ôl-ddeddfwriaethol i asesu gweithrediad y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010) | Hydref 2014<br><br>Rhagfyr 2014<br><br>Dyddiad cau ar gyfer ymatebion: 12 Medi 2014 | | |
| Gwasanaethau Arbenigol Plant | Cynhaliwyd pedair sesiwn ar gyfer teuluoedd yn canolbwyntio ar 'seibiannau byr'. Ymgynghorwyd gyda phlant a'u teuluoedd am y gwasanaethau yr hoffent eu gweld. Bydd yr atborth hwn o gymorth i roi siâp ar y model newydd ar gyfer y gwasanaeth.<br><br>Bwrdd Rheoli a i ailddiffinio'r Cylch Gorchwyl, adolygu aelodaeth a rheoli ansawdd/perfformiad.<br><br>Bydd llwybr gwasanaeth newydd wedi'i gefnogi gan gynllun busnes yn cael ei gynnig. | Awst 2014<br><br>Cyfarfod/gweithdy i'w gynnal ym mis Hydref 2014<br><br>Rhagfyr 2014 | Anwen Hughes & Cilla Robinson | |
| Y 'Drws Ffrynt' ar gyfer Gwasanaethau | Cynnal adolygiad o'r 'drws ffrynt' ar gyfer y Gwasanaethau Plant gan edrych ar y prosesau wrth i achosion ddod i mewn, y trothwyon a ddefnyddiwyd ac | Cwblhawyd | Anwen Hughes & Cilla Robinson | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Plant | achosion ar bwyntiau gwahanol.<br><br>Sefydlu prosiect ar gyfer trawsnewid y gwasanaethau plant ac un pwynt mynediad.<br><br>Edrych ar opsiynau | <br><br>Medi 2014<br><br><br>Hydref/Tachwedd 2014 | | |
| Cymerwyd y camau gweithredu ar gyfer y BCI o gynllun gweithredu ddatganiad o fwriad Gogledd Cymru (‘Fframwaith ar gyfer Gwasanaethau Integredig ar gyfer Pobl Hŷn a chanddynt Anghenion Cymhleth) : | | | | |
| Gwasanaethau Integrated lleol ac yn y gymuned | Cytuno ar ardaloedd ar gyfer gweithrediad cychwynnol y timau integredig | Medi 2014 | Fforwm Sirol (BCI) | |
| Gwybodaeth integredig a rhannu cyngor a data | Nodi potensial CCIS i gefnogi integreiddiad<br>Dyrannu’r tendr terfynol<br>Mynd ‘yn fyw’ | Erbyn Rhagfyr ’14<br>Erbyn Mawrth 2016 | Fforwm Sirol (BCI) | |

Cyfeiriadau perthnasol ar gyfer y Bwrdd Cyflawni Integredig ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Ynys Môn:

*******************************

Relevant references for the Integrated Delivery Board for Health and Social Care Services for Anglesey:

| | |
|---|---|
| Welsh Government, Statistics for Wales (August 2014) : Local Area Summary Statistics, Isle of Anglesey<br><br>(Technical report available in English only) | 140807-local-area-summary-isle-anglesey-( |
| NHS Wales, Public Health Wales Observatory: GP Cluster Profiles, BCUHB<br><br>(Technical report available in English only) | 20130510_GPclusterProfile_BetsiCadwaladr_ |
| Welsh Government. Together for Health. A Five Year Vision for the NHS in Wales. Cardiff: WG; 2011.<br><br>Llywodraeth Cymru. Law yn Llaw at Iechyd. Gweledigaeth 5 mlynedd ar<br><br>gyfer y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Caerdydd: LlC; 2011. | Together for Health English.pdf<br><br>Together for Health Cymraeg.pdf |
| Welsh Assembly Government. Setting the Direction. Primary & Community Services Strategic Delivery Programme. Cardiff: WG; 2010.<br><br>Llywodraeth Cynulliad Cymru. Gosod y Cyfeiriad. Gwasanaethau Cychwynnol a Chymuned - Rhaglen Strategol ar Gyfer Cyflenwi. Caerdydd: LlC; 2010. | Setting the Direction English.pdf<br><br>Setting the Direction Cymraeg.pdf |

| | |
|---|---|
| David Sissling, Llywodraeth Cymru / Welsh Government (Hydref/October 2013):<br><br>Fframwaith ar gyfer Darparu Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig<br><br>A Framework for Delivering Integrated Health and Social Care for Older People with Complex Needs | <br> |
| Social Services and Well-being (Wales) Act 2014<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Social Services and Wellbeing (Wales) Act<br><br>Social Services and Wellbeing (Wales) Act |

## Atodiad 2

**Aelodau'r Bwrdd Cyflawni Integredig:**

| |
|---|
| **Cyngor Sir Ynys Môn:** |
| Gwen Carrington, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymuned |
| Anwen Huws, Pennaeth Gwasanaethau Plant |
| Alwyn Jones, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion |
| Nicola Roberts, Cynghorydd |
| Kenneth Hughes, Cynghorydd |
| Bethan Jones, Dirprwy Prif Weithredwr ac aelod o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn |
| **Cyngor Gwynedd:** |
| Anwen Davies, Uwch Reolwr, Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn ac aelod o'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd & Môn |
| |
| **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:** |
| Andrew Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus, Aelod Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd & Môn a Bwrdd BIPBC |
| Hywel Meredydd-Davies, Aelod Annibynol Bwrdd BIPBC |
| Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Datblygu Partneriaeth Gymunedol |
| Cilla Robinson, Pennaeth Staff Cynorthwyol, Plant a Phobl Ifanc CPG |
| Christine Lynes, Pennaeth Staff Cynorthwyol, Prif, Cymunedol a Meddygaeth Arbenigol CPG |
| Mark Couchman, Rheolwr Rhaglen, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu CPG |
| Pam Lewis, Cyfarwyddwr Cyswllt Gwasanaethau Therapi |
| Craig Barton, Uwch Reolwr Safle, Ysbyty Gwynedd |
| Dr Stephen McVicar, Arweinydd Lleoliaeth Meddygon Teulu |
| |
| **Iechyd Cyhoeddus Cymru:** |
| Sarah Andrews, Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus |

# Y Galw am Wasanaeth
# Service Demands

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority

Bydd y galw am wasanaeth yn parhau oherwydd:

- Newidiadau hinsawdd
- Gwydnwch cenedlaethol - bygythiadau gan derfysgwyr
- Poblogaeth hŷn - atal


Demand for services will continue because:

- Climate change
- National resilience - terrorist threat
- Ageing population - prevention

# Y Newyddion Da
# The Good News

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority




# Y Newyddion Da
# The Good News

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

**North Wales Fire and Rescue Authority**

**Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref 2013-14**



# Canlyniadau / Outcomes


Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority



**Canran y tanau yn y cartref a fynychom lle nad oedd larwm mwg yn bresennol**

**The percentage of dwelling fires attended where there was no smoke alarm present**




| | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NWFRS | 36.88 | 32.7 | 29.2 | 23.7 | 24.5 | 25.14 | 16.45 | 15.09 | 14.6 | 16.18 |
| MWWFRS | 35.99 | 38.32 | 35.73 | 38.11 | 33.33 | 44.02 | 42.14 | 39.67 | 33.04 | |
| SWFRS | 47.27 | 46.72 | 48.36 | 46.71 | 45.97 | 53.02 | 46.68 | 41.66 | 37.94 | |


# Canlyniadau / Outcomes

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority

## Cyfanswm y Tanau fesul 10,000 o'r boblogaeth

### Total fires per 10,000 population




| | 2004-05 | 2005-06 | 2006-07 | 2007-08 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NWFRS | 65.64 | 61.54 | 68.07 | 54.51 | 50.42 | 49.23 | 48.07 | 45.98 | 34.02 | 34.99 |
| MWWFRS | 82.88 | 76.92 | 81.26 | 75.62 | 61.19 | 57.22 | 63 | 50.61 | 36.21 | |
| SWFRS | 103.82 | 95.06 | 103.16 | 97.68 | 73.67 | 72.83 | 79.76 | 59.12 | 39.28 | |

# Canlyniadau Ynys Môn Outcomes for Anglesey

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru


North Wales Fire and Rescue Authority

| Cyfanswm Digwyddiadau Total Incidents | 2009/10 | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 908 | 841 | 751 | 610 | 649 |
| Conwy | 1,471 | 1,425 | 1,188 | 1,021 | 1,006 |
| Sir Ddinbych Denbighshire | 1,170 | 1,162 | 1,139 | 1,002 | 942 |
| Sir y Fflint Flintshire | 1,589 | 1,516 | 1,376 | 1,289 | 1,148 |
| Gogledd/North Gwynedd | 1,545 | 1,473 | 1,367 | 1,146 | 1,028 |
| De/South Gwynedd | 475 | 445 | 367 | 346 | 372 |
| Wrecsam Wrexham | 1,483 | 1,525 | 1,517 | 1,364 | 1,196 |
| **Cyfanswm/Total** | **8,641** | **8,387** | **7,705** | **6,778** | **6,341** |

# Costau Atal
# Prevention Costs

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority




Tudalen 95


# Costau Atal
# Prevention Costs

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority

**Gwariant net ag eithrio costau cyfalaf fesul 1,000 o'r boblogaeth**

**Net expenditure excluding capital charges per 1,000 population**




# Y Gyllideb wedi ei Rhewi
# Frozen Budget

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority

## Newidiadau Blynyddol yn Ardollau
## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru 2010/11 to 2014/15

### Annual change in North Wales Fire and Rescue Service Levy 2010/11 to 2014/15




Tudalen 97

# Canlyniadau cynnal cyllideb sydd wedi ei rhewi
# Consequences of maintaining a frozen budget

Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Authority



Oni bai bod y gyllideb refeniw yn cael ei chynyddu £3 miliwn, dros y 5 mlynedd nesaf, bydd yn rhaid gwneud toriadau sylweddol drwy:

- **gau** 9 o'r 36 gorsaf dân rhan amser
- **cael gwared ar** 17 o'r 54 injan tân presennol

**a fydd yn arwain at golli** oddeutu 228 o'r 799 o swyddi diffoddwyr tân sydd gennym ar hyn o bryd

Not increasing the revenue budget by the required £3 million, over the next 5 years, would require significant reductions in the order of:


- **closing** 9 of the current 36 retained fire stations
- **removing** 17 of the current 54 fire engines

**with a consequent loss of** around 228 out of the current 799 operational firefighter posts

# Ynys Môn

Awdurdod Tân ac
Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire
and Rescue Authority




Tudalen 99

Awdurdod Tân ac
Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire
and Rescue Authority

# Ynys Môn

Cyfraniad presennol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru - Current contribution to North Wales Fire and Rescue Authority - **£3,198,669**

Uchafswm y cynydd ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod: Maximum increase in future years would have to be:

- 2015/16 - £57,214
- 2016/17 - £67,109
- 2017/18 - £75,491
- 2018/19 - £75,604
- 2019/20 - £50,138

Cyfanswm nawdd ychwanegol dros 5 mlynedd

Total additional funding over 5 years **£325,555**

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **25 Medi 2014** |
| **PWNC :** | **Rhaglen Gwaith** |
| **AELODAU PORTFOLLIO( AU):** | **-** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Swyddog Sgriwtini**<br>**01248752039**<br>**gwrce@anglesey.gov.uk** |

**1.0 <u>ARGYMHELLION</u>**

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo, ddiwygio neu newid ei Raglen Waith fel y gwêl yn briodol.

**2.0 <u>RHESWM</u>**

2.1 Pwrpas y rhaglen waith yw nodi blaenoriaethau'r Cyngor yn y flwyddyn sirol gyfredol (Mai 2014 i Mai 2015). Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y dylai bod pobl yn cael gwybod am swyddogaeth sgriwtini'r Cyngor a'r gwaith y mae'n bwriadu ei wneud. Bydd y rhaglen waith yn cael ei chynnwys ar dudalennau gwe'r Uned Sgriwtini ynghyd â gwybodaeth ychwanegol ynghylch materion sgriwtini.

2.2 Dylid nodi, unwaith y bydd rhaglen waith wedi ei chytuno, yr adroddir arni i bob cyfarfod o'r Pwyllgor(i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried cynnwys eitemau newydd neu ohirio/dynnu eitemau cyfredol, a chynllunio ar gyfer y cyfarfod nesaf). Bydd hyn yn sicrhau bod y rhaglen waith yn cael ei diweddaru a'i bod ar gael i'r cyhoedd fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

2.3 Fel gyda'r holl Bwyllgorau Sgriwtini, dylai'r gwaith a wneir fod o fudd i'r Cyngor. Pwrpas cynllunio ymlaen llaw yw:

- Nodi materion sy'n achosi pryder neu ffyrdd y gall Sgriwtini gyfrannu at nodau cyffredinol y Cyngor.
- Cytuno pa Bwyllgor Sgriwtini sydd fwyaf addas i ddelio gyda phob pwnc(e.e. adroddiad i Bwyllgor, Archwiliad gan Banel neu adroddiadau gwaith parhaus).
- Cynllunio sut y gellir gwneud gwaith o fewn yr adnoddau sydd ar gael ac o fewn amserlenni rhesymol.

2.4 Yn unol â Chyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn, rhaid i Bwyllgor Sgriwtini fod yn gyfrifol am bennu ei raglen waith ei hun. Dylai bennu ei raglen waith mewn ymgynghoriad gyda phob aelod o'r Pwyllgor ac, os oes modd, mewn ymgynghoriad gyda'r swyddogion perthnasol. Dylai'r Pwyllgor hefyd ystyried cyfeiriadau gan y Pwyllgor Gwaith, y Cyngor neu Bwyllgorau eraill.

Awdur: Geraint Wyn Roberts
Teitl Swydd: Swyddog Sgriwtini
Dyddiad: 17 Medi 2014

**ATODIAD -**

**RHAGLEN GWAITH PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO**

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o fis Mai 2014 i fis Mai 2015. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
| --- | --- | --- | --- |
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **13 Mai 2014** | Enwebiadau Pwyllgor i'r Panel Rhiant Corfforaethol | Enwebu aelod o'r Pwyllgor at y Panel sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, sy'n sicrhau gwasanaethau i blant a pobl ifanc mewn gofal o safon uchel. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cynllun Integredig Sengl | Ymgynghoriad | |
| | Clirio ffeiliau o hen Ysgol y Graig | Sgriwtini | |
| | | | |
| **11 Gorffennaf 2014** | Cyfarwyddwyddyd Cynllunio Atodol – Adeilad Niwcliar Newydd | Sgriwtini o flean penderfyniad | Siambr y Cyngor/10.30 yb |
| | | | |
| **24 Gorffennaf 2014** | Heddlu Gogledd Cymru | Cyflwyniad gan Heddlu Gopgledd Cymru are eu canolfan Cyfathrebu. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau Rhanbarthol a Lleol i Ddiogelu Plant ac Oedolion | Sgriwtini o flean penderfyniad | |
| | Comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yn Rhanbarthol | Diweddariad | |
| | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter | Mae tri bwrdd wedi eu sefydlu gan y Cyngor i yrru newid a gwelliant ac i gouchwylio rhaglen o waith. Yn disgyn o cylch gorchwyl y Pwyllgor yma yw " | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| | | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter" ac y bydd diweddariad yn cael ei roi ar y sefyllfa bresennol a gwaith ar y gweill. | |
| | | | |
| **25 Medi 2014** | Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Mon ac Gwynedd | Gwybodaeth | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cymunedau Cyntaf Môn | Monitro cynnydd | |
| | Strategaeth Tai | Sgriwtini o flean penderfyniad | |
| | Ffioedd a Thaliadau ar gyfer cychod pleser /wedi eu llogi o amgylch Ynys Môn | Sgriwtini o flean penderfyniad | |
| | Rhaglen Gwaith Bwrdd Cyflawni Iechyd a Gofal Integredig ar Gyfer Ynys Môn | Gwybodaeth | |
| | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru- Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2015-2016 | Ymgynghoriad | |
| | | | |
| **27 Tachwedd 2014** | Diogelwch Cymunedol | Trosolwg Blynyddol ar Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cynllun Integredig Sengl | Diweddariad ar Cynllun Integredig Môn a Gwynedd. | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| | | | |
| | Budd-dal Cyfrif Refeniw Tai | Sgriwtini o flean penderfyniad | |
| | | | |
| **14 Ionawr 2015** | I'w cadarnhau | I'w cadarnhau | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |
| **12 Mawrth 2015** | I'w cadarnhau | I'w cadarnhau | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | | | |